Arolygiaeth Prawf EF

# Arolygiadau cyfiawnder ieuenctid

# Rheolau a chanllawiau

Parth un a gweithio gyda dioddefwyr

v5.9 Mawrth 2025

## Cynnwys


Cynnwys .......... 2
Cyflwyniad .......... 3
Rheolau a chanllawiau .......... 5
1.1 Llywodraethu ac arweinyddiaeth .......... 5
1.2 Staff .......... 38
1.3 Partneriaethau a gwasanaethau .......... 56
Safon dioddefwyr: cwestiwn allweddol v 1.2 .......... 80

# Cyflwyniad

Rydym am sicrhau bod ansawdd y ddarpariaeth i blant a dioddefwyr yn rhan flaenllaw o'n harolygiadau, gan ein galluogi i adrodd ar waith i sicrhau newid cadarnhaol a chadw plant a chymunedau'n ddiogel. Rydym yn gweld darpariaeth o ansawdd uchel fel cynnyrch llywodraethu ac arweinyddiaeth effeithiol, trefniadau staffio cywir, a phartneriaethau a gwasanaethau cryf.

Mae ein safonau arolygu cyfiawnder ieuenctid wedi'u rhannu'n ddau barth. Maent wedi'u strwythuro ar wahân, er mwyn i ni allu barnu a sgorio meysydd gwaith penodol. Ceir safon ar wahân ar gyfer gweithio gyda dioddefwyr.

Mae'r safonau arolygu yn berthnasol i bob gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid. Yn ein rhaglen arolygu gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid (GCI)[1] ceir dau fath o arolygiad.

Mewn Arolygiad o Wasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid, rydym yn arolygu ac yn sgorio'r gwasanaeth yn erbyn yr holl safonau hyn.

Mewn Arolygiad o Waith Cyfiawnder Ieuenctid gyda Phlant a Dioddefwyr, rydym yn arolygu ac yn sgorio'r gwasanaeth yn erbyn safonau parth dau a safonau dioddefwyr; ac rydym yn archwilio safonau parth un o safbwynt yr effaith ar y gwaith gyda phlant a dioddefwyr.

Mae'r Rheolau a'r Canllawiau Asesu Achosion (CARaG)[1] yn pennu ein dyfarniadau ar gyfer archwiliadau parth dau ac achosion dioddefwyr ac mae'r Rheolau a'r Canllawiau yn pennu ein dyfarniadau ar gyfer y cwestiwn allweddol ansoddol yn safon y dioddefwyr ac ym mharth un.

Rydym yn cydnabod y materion cyd-destunol, lleol a systemig sy'n gallu effeithio ar allu GCI i gyflawni ei waith, fel ymgysylltiad a rôl asiantaethau partner wrth ddarparu gwasanaethau. Rydym yn rhoi sylw i'r rhain a materion cyd-destunol a systemig eraill ac yn nodi'r rhesymau dros ddiffygion yn ein hadroddiad arolygu. Rydym yn targedu ac yn teilwra argymhellion i helpu darparwyr i wneud y gwelliannau angenrheidiol. Ond bydd rhaid i'n dyfarniadau a'n sgoriau bob amser adlewyrchu ansawdd y ddarpariaeth, ni waeth beth yw'r rhesymau a'r rhesymeg sylfaenol.

### Archwilio tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI)

Drwy gydol ein fframwaith safonau, rydym yn disgwyl i'r GCI fabwysiadu dull personol o ddarparu'r holl waith gyda phlant, a bod â threfniadau sefydliadol ar waith sy'n cefnogi'r dull hwn. Rydym yn diffinio dull wedi'i bersonoli fel un lle mae gwasanaethau'n cael eu teilwra i ddiwallu anghenion unigolion, gan roi cymaint o ddewis a rheolaeth â phosibl i blant dros y gefnogaeth a gânt.

Fe wnaethom rannu ein diffiniad o ddull gweithredu wedi'i bersonoli yn ddwy ran. Yn gyntaf, rydym yn ystyried ffactorau amrywiaeth, yr ydym yn eu diffinio fel y nodweddion gwarchodedig hynny a nodir yn *Neddf Cydraddoldeb 2010*. Y rhain yw hil, oed, anabledd, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, priodas neu bartneriaeth sifil, a chrefydd neu gred.

Ar wahân i hyn, rydym yn ystyried amgylchiadau personol plentyn a pha mor dda mae'r GCI yn diwallu unrhyw anghenion sy'n deillio o'r rhain. Er enghraifft, efallai y bydd angen trefniadau goruchwylio hyblyg ar blentyn sy'n mynd i'r coleg neu sy'n ofalwr.

Byddwn yn adrodd ar amrywiaeth mewn adran ar wahân o adroddiadau arolygu'r GCI. Ein nod yw disgrifio i ba raddau y mae'r GCI yn bodloni gofynion dyletswydd cydraddoldeb y

---

[1] Mae rhagor o wybodaeth am y rhaglen arolygu Cyfiawnder Ieuenctid a CARaG ar gael ar ein gwefan: [Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid – Arolygiaeth Prawf EF]

sector cyhoeddus (parth un) a pha mor dda y mae'n diwallu anghenion amrywiaeth plant, dioddefwyr a staff (parth dau a safon y dioddefwyr). Bydd hyn yn cael ei lywio gan ein harchwiliad o achosion unigol o dan barth dau a safon y dioddefwyr.

### Sut i ddefnyddio rheolau a chanllawiau parth un

Mae'r rheolau a'r canllawiau ar gyfer parth un a safon y dioddefwyr yn egluro sut y dylid asesu tystiolaeth a sut y dylid ffurfio barn yn erbyn cwestiynau allweddol ac awgrymiadau ar gyfer pob safon. Pwrpas y canllawiau yw rhoi cyngor, eglurder a dealltwriaeth gyson o'r disgwyliadau gofynnol. Mae'n amlinellu dulliau gweithredu sy'n gosod safonau uchel i asesu ansawdd.

Dylai arolygwyr ddarllen y canllawiau, y dystiolaeth a'r dyfarniad ar gyfer pob awgrym. Mae'r canllawiau'n disgrifio'n fanwl yr hyn y mae arolygwyr yn chwilio amdano.

Darperir y ffynonellau tystiolaeth a restrir fel dangosyddion o ble y gellir dod o hyd i dystiolaeth ar gyfer yr awgrym hwnnw. Nid yw'r rhestrau tystiolaeth yn gynhwysfawr nac yn rhagnodol; gellir defnyddio tystiolaeth nad yw wedi'i rhestru hefyd ac ni ddisgwylir y bydd yr holl dystiolaeth a restrir bob amser yn ddefnyddiol nac yn ofynnol. Mae'r rhestrau tystiolaeth yno i dywys arolygwyr, ond nid i gyfyngu arnynt. Gall y slot arddangos, lle mae'r GCI yn tynnu sylw at arferion effeithiol yn erbyn ein safonau ar gyfer arolygu gwaith gyda phlant, ddarparu tystiolaeth ar gyfer unrhyw un o'r ysgogiadau, yn dibynnu ar yr hyn y mae'r GCI yn dewis ei arddangos.

Mae'r dyfarniad yn tywys yr arolygydd wrth iddo ateb ydy neu nac ydy i'r awgrym, ar sail yr holl dystiolaeth ar gyfer yr awgrym hwnnw.

### Rheolau a chanllawiau ar gyfer penderfyniadau

Ar gyfer safonau ar Lywodraethu ac Arweinyddiaeth (1.1) a Phartneriaethau a Gwasanaethau (1.3), mae cysylltiadau sylweddol ar lefel safonol â'r hyn a welwn wrth weithio gyda phlant. Er mwyn sicrhau bod y cysylltiadau hynny'n cael eu cydnabod drwy ein fframwaith safonau, mae'r rheolau penderfynu a'r canllawiau canlynol yn berthnasol. Nid yw rheolau'r penderfyniad yn agored i'w trafod. Dylid dilyn canllawiau ar benderfyniadau ac eithrio mewn amgylchiadau y gellir eu hamddiffyn ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

<u>Safon 1.1 Arweinyddiaeth</u>

RHEOL PENDERFYNIADAU – Mae sgôr 'Rhagorol' yn mynnu bod y dystiolaeth ansoddol yn cael ei hystyried yn 'Rhagorol', a bod pob sgôr parth dau yn 'Dda' neu'n 'Rhagorol'.

CANLLAWIAU AR BENDERFYNIADAU – Mae sgôr 'Da' yn mynnu bod y dystiolaeth ansoddol yn cael ei hystyried yn 'Dda', fel arfer gydag o leiaf dwy sgôr 'Da' neu 'Rhagorol' ym mharth dau a dim sgoriau 'Annigonol'.

CANLLAWIAU AR BENDERFYNIADAU – Mae sgôr 'Angen Gwella' yn mynnu bod y dystiolaeth ansoddol yn cael ei hystyried yn 'Angen Gwella', fel arfer gydag o leiaf dwy sgôr parth dau 'Da' neu 'Angen gwella'.

CANLLAWIAU AR BENDERFYNIADAU – Mae sgôr 'Annigonol' yn mynnu bod y dystiolaeth ansoddol yn cael ei hystyried yn 'Angen Gwella', fel arfer gydag o leiaf dwy sgôr parth dau 'Angen gwella' neu 'Annigonol'.

<u>Safon 1.3 Partneriaethau a gwasanaethau</u>

RHEOL PENDERFYNIADAU – Mae sgôr 'Rhagorol' yn mynnu bod y dystiolaeth ansoddol yn cael ei hystyried yn 'Rhagorol' a bod y sgôr ar gyfer 2.3 yn 'Rhagorol'.

CANLLAWIAU AR BENDERFYNIADAU – Mae sgôr 'Da' yn mynnu bod y dystiolaeth ansoddol yn cael ei hystyried yn 'Dda', fel arfer gyda sgôr 2.3 'Da' neu 'Angen gwella'.

CANLLAWIAU AR BENDERFYNIADAU – Mae sgôr 'Angen gwella' yn mynnu bod y dystiolaeth ansoddol yn cael ei hystyried yn 'Angen Gwella', fel arfer gyda sgôr 2.3 'Da' neu 'Angen gwella' neu 'Annigonol'.

CANLLAWIAU AR BENDERFYNIADAU – Mae sgôr 'Annigonol' yn mynnu bod y dystiolaeth ansoddol yn cael ei hystyried yn 'Annigonol', fel arfer gyda sgôr 2.3 'Angen gwella' neu 'Annigonol'.

# Rheolau a chanllawiau

## 1.1 Llywodraethu ac arweinyddiaeth

**Mae llywodraethu ac arwain y GCI yn sbarduno gwasanaeth o ansawdd uchel i sicrhau newid cadarnhaol a chadw plant a chymunedau'n ddiogel.**

### 1.1.1 A yw trefniadau strategol y GCI yn sbarduno gwasanaeth ymatebol, personol o ansawdd uchel i sicrhau newid cadarnhaol, a chadw plant a chymunedau'n ddiogel?

**a) A yw bwrdd rheoli'r GCI yn gosod y cyfeiriad a'r strategaeth ar gyfer y GCI, gan ei alluogi i sicrhau newid cadarnhaol a chadw plant a chymunedau'n ddiogel?**

**Canllawiau:**

Dylai bwrdd rheoli'r GCI (y 'bwrdd') gefnogi a galluogi'r GCI i sicrhau newid cadarnhaol a chadw plant a chymunedau'n ddiogel. Dylai'r bwrdd ddarparu arweiniad strategol clir, gan fonitro ansawdd ac effeithiolrwydd y gwaith a glynu wrth y sylfaen dystiolaeth. Dylai fabwysiadu dull blaengar o ddarparu gwell gwasanaethau i blant.

Dylai fod gan y bwrdd strategaeth/cynllun busnes cyfredol, perthnasol ac effeithiol ar gyfer y GCI, sy'n cael ei gyfleu a'i ddeall gan bartneriaid statudol a phartneriaid perthnasol eraill. Dylai roi digon o sylw i ddatblygu a darparu datrysiadau y tu allan i'r llys a dylai fod yn ymrwymedig i'r gwaith dargyfeirio a wneir gan y GCI a'i bartneriaid. Dylai'r bwrdd feddu ar ddealltwriaeth glir o broffil y plant y mae'r GCI yn gweithio gyda nhw. Dylid bod wedi cwblhau asesiad o anghenion fel sail i'r cyfeiriad a'r strategaeth. Dylai'r bwrdd fynd ati i hyrwyddo cyfle cyfartal ac amrywiaeth, gan fynd ati'n fwriadol i fynd i'r afael â ffactorau tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant drwy ei waith, gan gynnwys ffactorau gwahaniaethol gwirioneddol neu bosibl lle maent yn bodoli. Dylai'r bwrdd gael tystiolaeth sy'n dangos sut y mae'n sicrhau ei fod yn gwrando ac yn ymateb i lais y plentyn.

**Tystiolaeth:**

**EiA**

- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- cynllun strategol cyfiawnder ieuenctid cyfredol
- cynllun(iau) gweithredu cyfredol y GCI os nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cynllun strategol
- cofnodion y bwrdd rheoli o'r 12 mis diwethaf
- agenda a phapurau a gyflwynwyd i gyfarfod diweddaraf y bwrdd

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â Chadeirydd y Bwrdd Rheoli
- cyfarfod ag aelodau'r bwrdd rheoli (gan gynnwys yr holl bartneriaid statudol, ond heb gynnwys Cadeirydd y Bwrdd ac unrhyw aelodau a gyflogir yn uniongyrchol gan y GCI)
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)

**Dyfarniad:**

Os oes cynllun strategol ar waith ar hyn o bryd, yn seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion a'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer darpariaeth safonol sy'n gosod cyfeiriad clir i'r GCI, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Os nad oes cynllun strategol ar waith ar hyn o bryd, ac nad yw'n seiliedig ar ddadansoddiad o anghenion a'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer darpariaeth safonol neu nad yw'n gosod cyfeiriad clir i'r GCI, dylid cael dyfarniad negyddol.

**b) A oes trefniadau llywodraethu effeithiol a chynlluniau cyflawni clir sy'n galluogi ymarfer perthynol a gwaith effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth gyda phlant?**

**Canllawiau:**

Rhaid cael trefniadau llywodraethu a chynlluniau cyflawni clir ar waith i gyflawni strategaeth y GCI. Dylai'r trefniadau a'r cynlluniau cyflawni hyn sicrhau bod y GCI yn gallu ymarfer mewn ffordd sy'n galluogi meithrin perthynas effeithiol rhwng plant ac ymarferwyr a'u bod yn gallu gweithio yn unol â'r sylfaen dystiolaeth. Dylai cynlluniau cyflawni nodi sut y bydd y GCI yn cyflawni ei waith, gyda threfniadau llywodraethu'n nodi llinellau atebolrwydd clir a gwneud penderfyniadau drwy fyrddau perthnasol a strwythurau cyfarfodydd. Dylai cynlluniau cyflawni sicrhau bod staff yn cael yr amser a'r lle i gyflawni gwaith effeithiol.

**Tystiolaeth:**

**EiA**

- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- siart strwythur y sefydliad, a siart strwythur yn nodi lleoliad y gwasanaeth o fewn yr awdurdod lleol
- cynllun strategol cyfiawnder ieuenctid cyfredol
- cynllun(iau) gweithredu cyfredol y GCI os nad ydynt wedi'u cynnwys yn y cynllun strategol

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â Chadeirydd y Bwrdd
- cyfarfod ag aelodau'r bwrdd rheoli (gan gynnwys yr holl bartneriaid statudol, ond heb gynnwys Cadeirydd y Bwrdd ac unrhyw aelodau a gyflogir yn uniongyrchol gan y GCI)
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)

**Dyfarniad:**

Pan fydd trefniadau llywodraethu'n glir a bod cynlluniau cyflawni'n seiliedig ar dystiolaeth ac yn galluogi ymarfer perthynol, dylid cael barn gadarnhaol.

Pan fydd trefniadau llywodraethu'n aneglur a/neu nad yw cynlluniau cyflawni'n seiliedig ar dystiolaeth a/neu nad ydynt yn galluogi ymarfer perthynol, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

**c) A yw bwrdd rheoli'r GCI yn gallu egluro unrhyw anghymesuredd ac a yw wedi cymryd camau digonol i fynd i'r afael â hyn?**

**Canllawiau:**

Mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, a nodir yn adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn mynnu bod cyrff cyhoeddus yn rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth a chydraddoldeb. Mae'n cynnwys dyletswydd cydraddoldeb gyffredinol, a gefnogir gan ddyletswyddau penodol wedi'u gosod gan is-ddeddfwriaeth. Nid yw GCIau yn cael eu henwi o dan *Reoliadau Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus 2017* y Ddeddf yn y ffordd y mae ymddiriedolaethau prawf. Mae hyn yn golygu, yn gyfreithiol, mai dim ond dyletswydd cydraddoldeb gyffredinol y sector cyhoeddus sy'n berthnasol i GCIau. Mae'r holl wybodaeth ar gael yma: https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/essential-guide-public-sector-equality-duty.

Anghymesuredd yw gormod o gynrychiolaeth o unrhyw grŵp penodol yn y system cyfiawnder troseddol, er enghraifft plant Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol, plant LHDT a phlant o'r gymuned deithio. Gan ddefnyddio ei ddata a'i wybodaeth, dylai'r bwrdd ddadansoddi, deall a herio anghymesuredd ar ba gam bynnag y mae'n bodoli yn y system. Gallai hyn fod yng ngwaith y GCI ei hun neu'r gwaith y mae'n ei wneud gyda phartneriaid. Er enghraifft, os bydd anghymesuredd yn digwydd yn gynharach yn y system cyfiawnder ieuenctid, dylai bwrdd rheoli'r GCI fod yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr heddlu i egluro neu ddiwygio unrhyw anghymesuredd[2]. Pwrpas cyffredinol y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus yn ystyried cydraddoldeb a chysylltiadau da fel rhan o'u busnes o ddydd i ddydd. Gall y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol fynnu bod sefydliadau'n ystyried sut y gallent gyfrannu'n gadarnhaol at hyrwyddo cydraddoldeb a chysylltiadau da. Rhaid iddynt ystyried cydraddoldeb wrth ddarparu gwasanaethau a dylunio polisïau, gan gynnwys polisïau mewnol, a pharhau i adolygu'r materion hyn. Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol yn mynnu bod sefydliadau'n hyrwyddo cydraddoldeb yn gadarnhaol, nid dim ond yn osgoi gwahaniaethu. Fe'i datblygwyd er mwyn cysoni'r dyletswyddau cydraddoldeb a chynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig. I grynhoi, rhaid i'r rheini sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol, wrth arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i'r angen i sicrhau'r canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad anghyfreithlon arall sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf
- datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu
- meithrin perthnasoedd da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn rhannu nodwedd o'r fath.

Cyfeirir at y rhain weithiau fel tri nod y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol. Er mwyn bodloni'r rhain, rhaid i'r bwrdd weithredu i sicrhau'r canlynol:

- dileu neu leihau'r anfanteision y mae plant yn eu hwynebu oherwydd eu nodweddion gwarchodedig

[2] **Error! Hyperlink reference not valid.**

- cymryd camau i ddiwallu anghenion plant o grwpiau gwarchodedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion plant eraill
- annog plant o grwpiau gwarchodedig i gymryd rhan mewn ffyrdd sy'n diwallu eu hanghenion.

## Tystiolaeth:

**EiA**

- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- copi o'r cynllun strategol cyfiawnder ieuenctid diweddaraf
- cofnodion y bwrdd rheoli o'r 12 mis diwethaf
- cyflwyno data dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) (os na chaiff ei gynnwys gyda chofnodion y bwrdd)
- unrhyw ddata sydd ar gael am gyfrannau plant 10 i 17 oed yn ardal y GCI sy'n Ddu, Asiaidd neu o gefndir ethnig leiafrifol (efallai y bydd y data hwn ar gael gan yr awdurdod lleol)
- unrhyw ddata sydd ar gael sy'n dadansoddi nodweddion gwarchodedig plant sy'n gweithio gyda'r GCI (gan gynnwys hil a tharddiad ethnig, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol ac unrhyw ffactorau eraill y mae data ar gael ar eu cyfer), ar draws gwahanol ddatrysiadau
- copi o unrhyw bolisïau tegwch, amrywiaeth, anghymesuredd a/neu gynhwysiant a/neu gynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag effaith canfyddiadau o ddadansoddi data

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â Chadeirydd y Bwrdd Rheoli
- cyfarfod ag aelodau'r bwrdd rheoli (gan gynnwys yr holl bartneriaid statudol, ond heb gynnwys Cadeirydd y Bwrdd ac unrhyw aelodau a gyflogir yn uniongyrchol gan y GCI)
- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)

## Dyfarniad:

Lle gall y bwrdd egluro a mynd ati'n rhagweithiol i fynd i'r afael ag unrhyw anghymesuredd, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Lle na all y bwrdd egluro a/neu nad yw'n mynd ati'n rhagweithiol i fynd i'r afael ag unrhyw anghymesuredd, dylid cael dyfarniad negyddol.

### d) A yw bwrdd rheoli'r GCI yn dadansoddi ac yn defnyddio barn plant a rhieni a gofalwyr, ac yn eu defnyddio yng ngweledigaeth a strategaeth y GCI?

## Canllawiau:

Dylai fod gan y GCI ddull o ymgynghori â phlant, rhieni a gofalwyr sy'n cyfrannu at wella gwasanaethau. Trafodir sut y mae'r GCI yn casglu ac yn defnyddio'r safbwyntiau hyn yn awgrym 1.1.2 d) isod.

Mae'r awgrym hwn yn ymwneud â sut y mae'r bwrdd rheoli'n dadansoddi ac yn defnyddio barn plant a rhieni a gofalwyr yn effeithiol. Dylai'r bwrdd gael ei weld, dangos diddordeb a defnyddio'r adborth gan blant, rhieni a gofalwyr yn rhagweithiol wrth gyflawni ei holl waith. Dylai'r safbwyntiau hyn fod yn rhan annatod o bwyntiau trafod a phrosesau gwneud penderfyniadau'r bwrdd. Dylai'r bwrdd gael darlun cynhwysfawr o farn plant a rhieni a gofalwyr, gan gynnwys lle mae bylchau, lle mae anghenion yn cael eu diwallu'n effeithiol, a sut y dylai gwasanaethau newid er mwyn mynd i'r afael â'r anghenion hyn yn well.

Dylai'r bwrdd rheoli ddeall barn gwahanol blant, gan gynnwys plant sy'n wahanol ar sail datrysiadau, tîm, rhywedd, hil, ethnigrwydd, oedran a nodweddion gwarchodedig eraill, fel bod yr anghenion a'r materion ar gyfer pob un o'r grwpiau hyn yn cael eu deall yn well.

Dylid cynnwys barn plant a rhieni/gofalwyr mewn unrhyw adolygiadau gan y bwrdd rheoli, a gellir cynnwys plant a rhieni/gofalwyr yn uniongyrchol yn y grwpiau sy'n cynnal yr adolygiadau hyn. Dylid tynnu sylw at y cyfraniadau penodol y mae plant a rhieni/gofalwyr wedi'u gwneud i adolygiadau o'r fath, a chanlyniadau eu mewnbwn, a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt er mwyn hybu hyder yn y broses ymgynghori a chynnwys.

## Tystiolaeth:

**EiA**

- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dadansoddiad o adborth gan blant, rhieni a gofalwyr, a chynlluniau gweithredu cysylltiedig
- strategaethau ymgysylltu â phlant, rhieni a gofalwyr
- unrhyw archwiliadau neu werthusiad perthnasol o ansawdd y gwaith gyda phlant
- cyfeiriadur o brosiectau, gweithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael i blant
- polisïau tegwch, amrywiaeth, anghymesuredd a/neu gynhwysiant a/neu gynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag effaith canfyddiadau o ddadansoddi data

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â Chadeirydd y Bwrdd
- cyfarfod ag aelodau'r bwrdd rheoli (gan gynnwys yr holl bartneriaid statudol, ond heb gynnwys Cadeirydd y Bwrdd ac unrhyw aelodau a gyflogir yn uniongyrchol gan y GCI)
- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)

## Dyfarniad:

Lle mae'r GCI wedi gwreiddio dull o ymgynghori â phlant, rhieni a gofalwyr sy'n cwmpasu gwasanaethau allweddol, yn dadansoddi safbwyntiau ac wedi arwain at welliannau penodol y gellir eu nodi mewn gwasanaethau, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Lle nad oes gan y GCI ddull wedi'i wreiddio i ymgynghori â phlant, rhieni a gofalwyr sy'n cwmpasu gwasanaethau allweddol, yn dadansoddi safbwyntiau ac wedi arwain at welliannau penodol y gellir eu nodi mewn gwasanaethau, dylid cael dyfarniad negyddol.

**e) A yw bwrdd rheoli'r GCI yn cynnwys yr holl bartneriaid statudol a phartneriaid anstatudol ar y lefel gywir lle byddai'r rhain yn ychwanegu gwerth?**

### Canllawiau:

Dylai'r holl bartneriaid statudol gael eu cynrychioli ar y bwrdd. Y rhain yw'r awdurdod lleol (gofal cymdeithasol ac addysg plant), yr heddlu, y gwasanaeth prawf, ac iechyd. Gall partneriaid anstatudol fod yn rhan o'r bwrdd, fel sy'n berthnasol ac yn briodol i'r ardal. Gallai'r rhain gynnwys ynadon llys ieuenctid, cynghorwyr cyfreithiol y llysoedd, rheolwyr diogelwch cymunedol, rheolwyr cymorth ieuenctid, sefydliadau diogel lleol, darparwyr tai, rheolwyr gwasanaethau tân, cynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol a chynghorwyr etholedig. Dylid dangos eu cyfraniad a'u gwerth ychwanegol yn glir. Dylai'r holl bartneriaid statudol fod yn llofnodwyr i'r cynllun cyfiawnder ieuenctid/cynllun busnes ar lefel uwch briodol.

Dylai partneriaid statudol ac anstatudol fynd i gyfarfodydd y bwrdd yn gyson ac yn rheolaidd a dylent gynnwys aelodau dynodedig ac enwebedig. Dylai aelodau'r bwrdd fod ar y lefel briodol a dylent gael yr awdurdod i wneud penderfyniadau strategol, er enghraifft o ran adnoddau ariannol a staffio. Dylai'r bwrdd fod â chylch gorchwyl clir a chyfredol, deall ei atebolrwydd, a bod yn rhagweithiol wrth sbarduno newid. Dylai arolygwyr arweiniol chwilio am dystiolaeth bod gwaith y bwrdd yn ychwanegu gwerth at y GCI.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- cofnodion y bwrdd rheoli o'r 12 mis diwethaf
- copi o'r cynllun strategol cyfiawnder ieuenctid diweddaraf

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â Chadeirydd y Bwrdd Rheoli
- cyfarfod ag aelodau'r bwrdd rheoli (gan gynnwys yr holl bartneriaid statudol, ond heb gynnwys Cadeirydd y Bwrdd ac unrhyw aelodau a gyflogir yn uniongyrchol gan y GCI)
- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI

### Dyfarniad:

Pan fydd pob un o'r pum aelod statudol yn mynd i gyfarfodydd bwrdd, ynghyd â phartneriaid anstatudol perthnasol, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan na fydd pob un o'r pum aelod statudol yn mynd i gyfarfodydd bwrdd, a/neu pan na fydd partneriaid anstatudol perthnasol yn mynd, dylid cael dyfarniad negyddol.

**f) A yw aelodau bwrdd rheoli'r GCI yn ymgysylltu'n dda ac yn weithgar yn eu cyfraniad at gyflawni newid cadarnhaol a chadw plant a chymunedau'n ddiogel?**

### Canllawiau:

Penodir Cadeirydd y Bwrdd gan brif weithredwr yr awdurdod lleol (os nad yw'r prif weithredwr yn ymgymryd â rôl y cadeirydd), a gall unrhyw un o'r partneriaid statudol gyflawni'r rôl. Dylai Cadeirydd y Bwrdd fod yn gyson, gyda threfniadau penodol ar gyfer cyfnod priodol yn y swydd, a dylai fod ar lefel ddigon uchel i ddal partneriaid strategol i gyfrif. Dylai Cadeirydd y Bwrdd feddu ar ddealltwriaeth dda o'i rôl, meddu ar ddealltwriaeth

ddigonol o waith y GCI (gan gynnwys gorchmynion llys statudol, datrysiadau y tu allan i'r llys, mechnïaeth a remánd a gwasanaethau oedolion priodol), a bod yn rhan dda o'r ystod o faterion strategol sy'n wynebu'r GCI. Dylai ef neu hi ddangos arweinyddiaeth effeithiol drwy ddatblygu synergedd rhwng aelodau ac annog herio. Dylai Cadeirydd y Bwrdd gefnogi aelodau'r bwrdd yn ogystal â rheolwr y GCI, a'u dal i gyfrif yn eu gwaith. Dylai Cadeirydd y Bwrdd sicrhau bod y bwrdd yn gwneud penderfyniadau clir ac atebol ar sail gwybodaeth gadarn.

Dylid rheoli absenoldeb aelodau yn effeithiol, er enghraifft drwy gael Cadeirydd y Bwrdd i fonitro a herio. Mae'n bwysig bod holl aelodau'r bwrdd yn cymryd rhan weithredol yng ngwaith y GCI a bod cyfraniad pob asiantaeth yn ystyrlon ac yn ychwanegu gwerth. Dylai aelodau'r Bwrdd feddu ar ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau a chydnabod y cyfraniad y mae gofyn iddynt ei wneud. Mae angen i aelodau'r bwrdd rheoli gael proses gynefino a hyfforddiant effeithiol i'w cefnogi i ddeall gwaith y GCI yn y ffordd orau, a'u rôl o fewn y bartneriaeth. Dylent gymryd perchnogaeth dros dasgau a chyfrifoldebau penodol, dal rheolwr y GCI i gyfrif a, lle bo angen, comisiynu gwaith ar berfformiad er mwyn cefnogi gwelliannau. Dylai cyfarfodydd y Bwrdd hwyluso her briodol ac iach, gan arwain at ganlyniadau cadarnhaol i blant.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- copi o'r cynllun strategol cyfiawnder ieuenctid diweddaraf
- cofnodion y bwrdd rheoli o'r 12 mis diwethaf
- cyflwyno data'r dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) diweddaraf i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) (os na chaiff ei gynnwys gyda chofnodion y bwrdd)

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â Chadeirydd y Bwrdd
- cyfarfod ag aelodau'r bwrdd rheoli (gan gynnwys yr holl bartneriaid statudol, ond heb gynnwys Cadeirydd y Bwrdd ac unrhyw aelodau a gyflogir yn uniongyrchol gan y GCI)
- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI

### Dyfarniad:

Os yw Cadeirydd y Bwrdd ar lefel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant neu uwch, a bod y bwrdd yn dangos dealltwriaeth ac ymrwymiad i waith y GCI ac yn dal y bwrdd i gyfrif am y penderfyniadau y mae'n eu gwneud, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Os yw Cadeirydd y Bwrdd yn is na'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant, a/neu nad yw'r bwrdd yn deall a/neu nad yw wedi ymrwymo'n ddigonol i waith y GCI a/neu nad yw'n dal y bwrdd i gyfrif am y penderfyniadau y mae'n eu gwneud, dylid cael dyfarniad negyddol.

**g) A yw bwrdd rheoli'r GCI yn deall ac yn herio data a gwybodaeth y GCI yn ddigonol?**

### Canllawiau:

Dylai'r bwrdd fod yn rhagweithiol wrth ofyn am ddata a gwybodaeth y GCI a'u dadansoddi. Gallai hyn gynnwys data DPA, adroddiadau bwrdd, gwybodaeth archwilio, gwybodaeth

staffio a dadansoddi anghenion. Dylai'r bwrdd fod yn feirniadol ac yn heriol yn ei ddadansoddiad o ddata a gwybodaeth y GCI, gan chwilio'n weithredol am feysydd lle gallai fod diffygion neu lle mae angen gwelliannau. Dylai pob aelod ddeall y data a'r wybodaeth a gyflwynir a gallu cyfrannu at y trafodaethau am y camau i'w cymryd.

**Tystiolaeth:**

- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- copi o'r cynllun strategol cyfiawnder ieuenctid diweddaraf
- cofnodion y bwrdd rheoli o'r 12 mis diwethaf
- cyflwyno data'r dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) diweddaraf i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) (os na chaiff ei gynnwys gyda chofnodion y bwrdd)
- unrhyw archwiliadau neu werthusiad perthnasol o ansawdd y gwaith gyda phlant

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â Chadeirydd y Bwrdd
- cyfarfod ag aelodau'r bwrdd rheoli (gan gynnwys yr holl bartneriaid statudol, ond heb gynnwys Cadeirydd y Bwrdd ac unrhyw aelodau a gyflogir yn uniongyrchol gan y GCI)
- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI

**Dyfarniad:**

Pan fydd y bwrdd yn deall yn ddigonol ac yn herio data a gwybodaeth y GCI yn briodol, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan na fydd y bwrdd yn deall yn ddigonol nac yn herio data a gwybodaeth y GCI yn briodol, dylid cael dyfarniad negyddol.

**h) A yw partneriaethau strategol lleol perthnasol eraill yn rhoi blaenoriaeth i weithio i sicrhau newid cadarnhaol a chadw plant a chymunedau'n ddiogel?**

**Canllawiau:**

Mae gan y GCI ddyletswydd i gydweithredu â nifer o asiantaethau a chyrff eraill, er enghraifft:

- dan Adran 325 *Deddf Cyfiawnder Troseddol 2003*, mae GCIau yn un o'r cyrff 'dyletswydd i gydweithredu' a enwir o fewn Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd (MAPPA)
- dan Adran 10(4) *Deddf Plant 2004*, mae gan y GCI ddyletswydd i gydweithredu â gwasanaethau plant wrth wneud trefniadau i wella llesiant plant yn ardal yr awdurdod lleol
- mae Rheoliadau 2006 (OS 2006/90) yn datgan bod gan y GCI ddyletswydd i gydweithredu wrth sefydlu a gweithredu'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant (mae'r rhain wedi cael eu disodli gan Bartneriaeth Diogelu Plant Lleol yn y rhan fwyaf o ardaloedd, ond mae rheoliadau 2006 yn parhau'n berthnasol).

Dylai'r GCI fod yn ymwneud yn rhagweithiol â phartneriaethau strategol lleol perthnasol fel y Bartneriaeth Leol ar gyfer Diogelu Plant (LSCP), y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJB), MAPPA, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol a'r Ymddiriedolaeth Plant (neu'r swyddog

cyfatebol lleol). Dylid cael dulliau cyfathrebu effeithiol a rhannu gwybodaeth ddwy ffordd rhwng y GCI a phartneriaethau strategol eraill. Dylai anghenion a/neu bryderon y GCI gael eu cynnwys yn y partneriaethau hyn, gydag aelodau perthnasol o'r bwrdd yn delio â'r materion a'r heriau sy'n wynebu'r GCI. Dylai partneriaethau strategol lleol flaenoriaethu gwaith i sicrhau newid cadarnhaol a chadw plant a chymunedau'n ddiogel, gan gynnwys cefnogi'r gwaith o integreiddio â gwasanaethau ehangach i blant. Dylid cael strategaeth a chynllun gweithredu lleol cyfredol ar gyfer gwaith i atal neu ddargyfeirio plant rhag ymuno â'r system cyfiawnder ieuenctid, gan gynnwys tystiolaeth o'r rhyngwyneb rhwng gwaith y GCI a gwaith atal/dargyfeirio lleol arall; gall enghreifftiau gynnwys cysylltiadau â'r Cynllun Diogelwch Cymunedol, Strategaeth Ieuenctid yr Heddlu a gwaith gyda theuluoedd.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- taenlen data sefydliadol wedi'i chwblhau (anfonir templed gyda'r llythyr cyhoeddi)
- siart strwythur y sefydliad, a siart strwythur yn nodi lleoliad y gwasanaeth o fewn yr awdurdod lleol
- copi o'r cynllun strategol cyfiawnder ieuenctid diweddaraf
- cofnodion y bwrdd rheoli o'r 12 mis diwethaf
- cyfeiriadur o brosiectau, gweithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael i blant

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â Chadeirydd y Bwrdd
- cyfarfod ag aelodau'r bwrdd rheoli (gan gynnwys yr holl bartneriaid statudol, ond heb gynnwys Cadeirydd y Bwrdd ac unrhyw aelodau a gyflogir yn uniongyrchol gan y GCI)
- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI

### Dyfarniad:

Pan fydd gwybodaeth yn cael ei rhannu ddwy ffordd rhwng y GCI a phartneriaethau strategol eraill, gydag aelodau perthnasol o'r bwrdd yn delio â'r materion a'r heriau sy'n wynebu'r GCI, gyda chefnogaeth gwaith rhagweithiol a wneir gan bartneriaethau strategol lleol i sicrhau newid cadarnhaol a chadw plant a chymunedau'n ddiogel, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan na fydd gwybodaeth yn cael ei rhannu'n dda rhwng y GCI a phartneriaethau strategol eraill, a/neu pan na fydd aelodau'r bwrdd yn delio'n effeithiol â'r materion a'r heriau sy'n wynebu'r GCI, a/neu pan na fydd llawer o waith rhagweithiol yn cael ei wneud gan bartneriaethau strategol lleol i sicrhau newid cadarnhaol a chadw plant a chymunedau'n ddiogel, dylid cael dyfarniad negyddol.

**i) A yw'r gweithgareddau a threfniadau strategol, a'u heffaith ar y ddarpariaeth, yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd?**

### Canllawiau:

Dylai'r bwrdd fonitro effaith y strategaeth. Yn ddelfrydol, byddai hyn ar ffurf adolygiad blynyddol sy'n cyfrannu at gynlluniau busnes a chyflawni sy'n cael eu diwygio a'u diweddaru

ac a gefnogir gan adolygiadau ychwanegol ddwy neu dair gwaith y flwyddyn. Dylai adolygiadau o'r strategaeth gynnwys dadansoddiad o newidiadau yn yr amgylcheddau gweithredu mewnol ac allanol, a newidiadau mewn mandadau, deddfwriaeth, cyfarwyddiadau a chanllawiau. Dylid cynnal yr adolygiadau ar ôl ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol.

**Tystiolaeth:**

**EiA**

- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- copi o'r cynllun strategol cyfiawnder ieuenctid diweddaraf
- cofnodion y bwrdd rheoli o'r 12 mis diwethaf
- dadansoddiad o adborth gan blant, rhieni a gofalwyr, a chynlluniau gweithredu cysylltiedig
- cyfeiriadur o brosiectau, gweithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael i blant

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â Chadeirydd y Bwrdd
- cyfarfod ag aelodau'r bwrdd rheoli (gan gynnwys yr holl bartneriaid statudol, ond heb gynnwys Cadeirydd y Bwrdd ac unrhyw aelodau a gyflogir yn uniongyrchol gan y GCI)
- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI

**Dyfarniad:**

Lle ceir tystiolaeth bod trefniadau ar waith i adolygu'r strategaeth y cytunwyd arni o leiaf unwaith y flwyddyn, gan ddefnyddio gwybodaeth fonitro briodol, mesur effaith y strategaeth ac arwain at ddiwygio'r cynlluniau cyflawni pan fo angen, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Os nad oes digon o adolygiadau neu adolygiadau heb eu trefnu o'r strategaeth y cytunwyd arni, neu adolygiadau heb ddigon o wybodaeth fonitro, a/neu os nad ydynt yn mesur effaith y strategaeth a/neu'n arwain at ddiwygio'r cynlluniau cyflawni lle bo angen, dylid cael dyfarniad negyddol.

### 1.1.2 A yw tîm arwain y GCI yn sbarduno gwasanaeth ymatebol a phersonol o ansawdd uchel i sicrhau newid cadarnhaol, a chadw plant a chymunedau'n ddiogel?

#### a) A yw tîm arwain y GCI yn darparu cyswllt effeithiol â Bwrdd Rheoli'r GCI?

**Canllawiau:**

Dylai tîm arwain y GCI fod yn rhagweithiol o ran darparu cyswllt effeithiol rhwng gwaith y GCI a'r bwrdd. Dylai hyn fod yn seiliedig ar gyfathrebu agored, gyda thîm arwain y GCI yn mynd â materion perthnasol at y bwrdd ar sail ragweithiol wedi'i chynllunio, ond hefyd pan fydd materion yn codi ac y mae angen i'r bwrdd fod yn ymwybodol ohonynt, neu os oes ganddo rôl yn gweithio gyda'r tîm arwain neu'n ei gynghori. Dylai trefniadau ffurfiol ac

anffurfiol fod ar waith, gan alluogi tîm arwain y GCI i gyflwyno amrywiaeth o faterion perthnasol i sylw'r bwrdd.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- siart strwythur y sefydliad, a siart strwythur yn nodi lleoliad y gwasanaeth o fewn yr awdurdod lleol
- copi o'r cynllun strategol cyfiawnder ieuenctid diweddaraf
- cofnodion y bwrdd rheoli o'r 12 mis diwethaf

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â chadeirydd y bwrdd rheoli
- cyfarfod ag aelodau'r bwrdd rheoli (gan gynnwys yr holl bartneriaid statudol, ond heb gynnwys Cadeirydd y Bwrdd ac unrhyw aelodau a gyflogir yn uniongyrchol gan y GCI)
- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)

### Dyfarniad:

Os oes cysylltiadau effeithiol rhwng y GCI a'r bwrdd sy'n herio ac yn cefnogi ac sy'n seiliedig ar gyfathrebu agored, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Os yw'r cysylltiadau rhwng y GCI a'r bwrdd yn aneffeithiol, os nad ydynt yn herio ac yn cefnogi a/neu os nad ydynt yn seiliedig ar gyfathrebu agored, dylid cael dyfarniad negyddol.

**b) A yw trefniadau partneriaeth y GCI yn ei alluogi i ddarparu gwaith gweithredol effeithiol i sicrhau newid cadarnhaol, a chadw plant a chymunedau'n ddiogel?**

### Canllawiau:

Dylai'r bwrdd fynd ati i ystyried ac ymateb yn briodol i berfformiad y GCI. Dylai'r GCI fod yn glir ynghylch beth i'w ddisgwyl gan ei bartneriaid. Dylid cael tystiolaeth i ddangos bod trefniadau partneriaeth wedi cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth weithredol, gyda chyfraniadau gweithredol i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau i blant. Dylai gwaith a gomisiynir fod yn seiliedig ar anghenion asesedig, adlewyrchu blaenoriaethau lleol ar gyfer plant sydd wedi troseddu, neu sy'n debygol o droseddu, ac ystyried ffactorau amrywiaeth priodol. Dylai gwasanaethau gan y GCI a'i bartneriaid fod ar gael i blant sy'n cael datrysiadau y tu allan i'r llys neu sy'n destun trefniadau mechnïaeth a remánd, yn ogystal â phob achos ar ôl y llys.

Dylai'r GCI gael digon o adnoddau i gyflawni ei waith. Dylai partneriaid sicrhau bod gan y GCI fynediad digonol at yr ystod o staff arbenigol sy'n ofynnol. Dylid cael cytundebau secondiad perthnasol a chyfredol sy'n nodi'r ymrwymiad i adnoddau, deiliadaeth a sut y bydd cysylltiadau effeithiol yn cael eu cynnal gyda rhiant-sefydliadau, gan gynnwys hyfforddiant parhaus a threfniadau cefnogi ar gyfer staff ar secondiad. Dylai fod digon o staff yn y GCI, o leiaf, yn unol â deddfwriaeth, gyda staff o'r gwasanaeth prawf, iechyd, gofal cymdeithasol, yr heddlu ac addysg.

**Tystiolaeth:**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- siart strwythur y sefydliad, a siart strwythur yn nodi lleoliad y gwasanaeth o fewn yr awdurdod lleol
- copi o'r cynllun strategol cyfiawnder ieuenctid diweddaraf
- cofnodion y bwrdd rheoli o'r 12 mis diwethaf
- unrhyw bolisïau gan y GCI sy'n ymdrin â risg o niwed, diogelwch a llesiant, cyflawni gwaith gyda phlant, datrysiadau y tu allan i'r llys, ailsefydlu, mechnïaeth a remánd ac ymarfer adferol (os oes polisi wrthi'n cael ei ddiweddaru ac ar ffurf drafft, byddwn yn derbyn hyn)
- unrhyw archwiliadau neu werthusiad perthnasol o ansawdd y gwaith gyda phlant
- cyfeiriadur o brosiectau, gweithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael i blant

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â Chadeirydd y Bwrdd
- cyfarfod ag aelodau'r bwrdd rheoli (gan gynnwys yr holl bartneriaid statudol, ond heb gynnwys Cadeirydd y Bwrdd ac unrhyw aelodau a gyflogir yn uniongyrchol gan y GCI)
- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)

**Dyfarniad:**

Lle ceir ymrwymiad cyson gan yr holl bartneriaid, a hynny wedi'i gefnogi gan drefniadau gweithio effeithiol gyda'r holl bartneriaid, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Lle ceir ymrwymiad anghyson gan unrhyw bartneriaid, neu lle nad oes trefniadau gweithio effeithiol ar waith gyda'r holl bartneriaid, dylid cael dyfarniad negyddol.

**c) A yw tîm arwain y GCI yn cyflawni ac yn gweithredu'r weledigaeth a'r strategaeth yn llwyddiannus?**

**Canllawiau:**

Dylai'r GCI weithredu ei weledigaeth a'i strategaeth yn effeithiol, gan fonitro, adolygu a diweddaru ei gynlluniau cyflawni'n gadarn fel y bo'n briodol.

Dylai'r GCI allu dangos sut y mae'n cyflawni ei weledigaeth a'i strategaeth a pha agweddau y mae wedi'u rhoi ar waith. Dylai cynlluniau cyflawni nodi'r dulliau a ddefnyddir i droi'r

strategaeth yn ymarfer, i ble ac i bwy y dylid adrodd ar gynnydd, a sut y dylid adolygu darpariaeth, gan gytuno ar unrhyw newidiadau hanfodol sydd angen eu gweithredu. Dylid dilyn dulliau rheoli rhaglenni a phrosiectau priodol lle bo hynny'n berthnasol, er mwyn sicrhau bod strategaethau wedi cael eu rhoi ar waith yn brydlon, o fewn cyllideb y cytunwyd arni, ac i safon dda. Dylid cael tystiolaeth o brosesau monitro ac adolygu parhaus. Dylai'r GCI allu dangos canlyniadau cadarnhaol i blant, drwy ddata caled a mesurau ansoddol fel adborth gan blant ac astudiaethau achos. Dylai staff allu disgrifio sut y mae eu rolau'n cyfrannu at weledigaeth a strategaeth y GCI. Dylai'r GCI allu dangos canlyniadau sy'n dangos sut y mae ei weledigaeth a'i strategaeth yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i blant.

Lle mae gwasanaethau'n cael eu comisiynu, dylai hyn fod yn seiliedig ar ddadansoddi risg, anghenion a chryfderau, a dylai ystyried ffactorau amrywiaeth yn llawn. Dylai'r cynllun comisiynu gynnwys y trefniadau gyda darparwyr sy'n nodi sut y bydd ansawdd y gwasanaethau hynny'n cael ei adolygu a'i werthuso, gyda chamau adferol yn cael eu cymryd lle bo angen i wella'r ddarpariaeth ac ymateb i unrhyw bryderon.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- copi o'r cynllun strategol cyfiawnder ieuenctid diweddaraf
- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- dadansoddiad o adborth gan blant, rhieni a gofalwyr, a chynlluniau gweithredu cysylltiedig
- unrhyw archwiliadau neu werthusiad perthnasol o ansawdd y gwaith gyda phlant

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â Chadeirydd y Bwrdd
- cyfarfod ag aelodau'r bwrdd rheoli (gan gynnwys yr holl bartneriaid statudol, ond heb gynnwys Cadeirydd y Bwrdd ac unrhyw aelodau a gyflogir yn uniongyrchol gan y GCI)
- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)

### Dyfarniad:

Pan fydd cynlluniau cyflawni a gweithredu yn gysylltiedig â'r weledigaeth a'r strategaeth, bod y staff yn eu deall a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan nad yw cynlluniau cyflawni a gweithredu yn gysylltiedig â'r weledigaeth a'r strategaeth, a/neu nad yw staff yn eu deall, a/neu nad ydynt yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, dylid cael dyfarniad negyddol.

**d) A yw tîm arwain y GCI yn ceisio, yn dadansoddi ac yn defnyddio barn plant, rhieni a gofalwyr?**

**Canllawiau:**

Dylai fod gan y GCI ddull cadarn o gynnwys ac ymgynghori â phlant, eu rhieni neu eu gofalwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill. Dylai'r broses hon gyfrannu at wella gwasanaethau a dylai gwmpasu meysydd allweddol darparu gwasanaethau. Gellir ceisio barn mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys arolygon a holiaduron. Gall dulliau fel gweithdai, grwpiau ffocws a fforymau ar gyfer plant ddarparu dealltwriaeth fanylach o anghenion plant, gan gynnwys lle mae bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaethau, lle mae anghenion yn cael eu diwallu'n effeithiol, a sut y dylai gwasanaethau newid i fynd i'r afael â'r anghenion hyn yn well. Dylai'r dadansoddiad o'r safbwyntiau hyn adlewyrchu gwahanol brofiadau amrywiaeth o blant a rhieni/gofalwyr er mwyn deall eu hanghenion a'u problemau yn well. Dylid cynnwys safbwyntiau plant, eu rhieni neu eu gofalwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill mewn adolygiadau gwasanaeth, a gellir cynnwys eu cynrychiolwyr yn uniongyrchol yn y grwpiau sy'n cynnal yr adolygiadau hyn.

**Tystiolaeth:**

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- dadansoddiad o adborth gan blant, rhieni a gofalwyr, a chynlluniau gweithredu cysylltiedig
- strategaethau ymgysylltu â phlant, rhieni a gofalwyr
- unrhyw archwiliadau neu werthusiad perthnasol o ansawdd y gwaith gyda phlant
- cyfeiriadur o brosiectau, gweithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael i blant

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- adborth gan blant sydd wedi cymryd rhan

**Dyfarniad:**

Lle mae gan y GCI ddull wedi'i sefydlu o ymgynghori â phlant, eu rhieni neu eu gofalwyr, a rhanddeiliaid eraill, gydag adborth yn cael ei ddadansoddi a hynny'n arwain at welliannau penodol y gellir eu nodi mewn gwasanaethau, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Lle nad oes gan y GCI ddull wedi'i sefydlu o ymgynghori â phlant, eu rhieni neu eu gofalwyr, a rhanddeiliaid allweddol eraill, neu lle nad yw eu hadborth yn arwain at welliannau penodol y gellir eu nodi mewn gwasanaethau, dylid cael dyfarniad negyddol.

**e) A yw tîm arwain y GCI yn gallu egluro unrhyw anghymesuredd yn eu maes cyflawni ac a yw wedi cymryd camau digonol i fynd i'r afael â hyn?**

## Canllawiau:

Dylai rheolwr ac uwch staff y GCI gymryd cyfrifoldeb dros gydymffurfio â'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol. Mae hyn yn cynnwys dadansoddi ymgysylltiad plant a staff yn ôl nodweddion gwarchodedig a dadansoddi unrhyw gynrychiolaeth anghymesur o wahanol grwpiau â nodweddion gwarchodedig ar unrhyw adeg wrth gyflawni gwaith y GCI. Dylai arweinwyr y GCI ystyried unrhyw ddiffygion yn y meysydd canlynol, a mynd i'r afael â nhw:

- yr wybodaeth sydd gan y GCI mewn perthynas â phlant a staff sydd â nodweddion gwarchodedig penodol, gan gynnwys drwy gysylltiad â phlant
- lle mae gwasanaethau neu nodweddion gwarchodedig nad oes gan y GCI wybodaeth amdanynt; gall ymgysylltu helpu i ganfod pa mor gywir yw ei wybodaeth a llenwi unrhyw fylchau
- staff yn gwybod beth yw eu cyfrifoldebau, beth mae'r cyfrifoldebau hyn yn ei olygu'n ymarferol a lle gallant gael gafael ar wybodaeth berthnasol
- asesiad cynnar o effaith polisi ac ymarfer ar gydraddoldeb i sicrhau nad yw polisïau a phrosesau'n gwahaniaethu yn erbyn grwpiau penodol nac yn colli cyfleoedd amlwg i hyrwyddo cyfle cyfartal neu i feithrin cysylltiadau da; lle mae polisi'n debygol o fod yn berthnasol i grwpiau penodol ond nad oes data dibynadwy ar gael, gall ymgysylltu â'r grwpiau perthnasol helpu gyda hyn
- defnyddio methodoleg gyson ar gyfer asesu effaith polisïau a phrosesau i greu cysondeb a gallu mesur cynnydd dros amser
- asesu effaith unrhyw benderfyniadau comisiynu y mae'r GCI yn eu gwneud ar gydraddoldeb
- sicrhau bod staff yn gwybod beth yw eu cyfrifoldebau, beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol a lle gallant gael gafael ar wybodaeth berthnasol
- cynllun gweithredu clir, y cytunwyd arno gyda phartneriaid eraill yn y system cyfiawnder ieuenctid (fel yr heddlu a'r llysoedd), i fynd i'r afael ag unrhyw anghymesuredd mewn canlyniadau neu driniaeth i wahanol grwpiau yn y llwyth achosion.

## Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- copi o'r cynllun strategol cyfiawnder ieuenctid diweddaraf
- cofnodion y bwrdd rheoli o'r 12 mis diwethaf
- unrhyw ddata sydd ar gael am gyfrannau plant 10 i 17 oed yn ardal y GCI sy'n Ddu, Asiaidd neu o gefndir ethnig leiafrifol (efallai y bydd y data hwn ar gael gan yr awdurdod lleol)
- unrhyw ddata sydd ar gael sy'n dadansoddi nodweddion gwarchodedig plant a dioddefwyr sy'n gweithio gyda'r GCI (gan gynnwys hil a tharddiad ethnig, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol ac unrhyw ffactorau eraill y mae data ar gael ar eu cyfer), ar draws gwahanol ddatrysiadau

- copi o unrhyw bolisïau tegwch, amrywiaeth, anghymesuredd a/neu gynhwysiant a/neu gynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag effaith canfyddiadau o ddadansoddi data

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)

**Dyfarniad:**

Pan fydd tîm arwain y GCI yn mynd ati i ystyried anghenion unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig a'r effaith arnynt pan fydd yn datblygu polisïau a phrosesau newydd ac yn adolygu'r rhai presennol, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Lle nad yw tîm arwain y GCI yn mynd ati i ystyried anghenion unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig a'r effaith arnynt pan fydd yn datblygu polisïau a phrosesau newydd ac yn adolygu'r rhai presennol, dylid cael dyfarniad negyddol.

**f) Ydy staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o fewn trefniadau'r bartneriaeth, a'r hyn y maent yn atebol amdano?**

**Canllawiau:**

Fel timau aml-asiantaeth, mae'r GCIau yn cynnwys staff sydd ar secondiad o amrywiaeth o asiantaethau partner, ynghyd â staff a gwirfoddolwyr sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol. Mae'n bwysig bod staff ar secondiad yn cynnal cysylltiadau rheolaidd â'u rhiant-sefydliadau. Gallai enghreifftiau gynnwys mynychu sesiynau hyfforddi, derbyn sesiynau briffio, a threfniadau goruchwylio ar y cyd. Dylent feddu ar yr wybodaeth a'r arbenigedd diweddaraf o'u meysydd arbenigol eu hunain, yn ogystal â gweithio mewn ffordd integredig yn y bartneriaeth, a dealltwriaeth glir o'r hyn y maent yn atebol amdano. Dylai pob aelod o'r gweithlu ddeall yr ystod o sgiliau o fewn y bartneriaeth a sut y mae'r sgiliau hynny'n cyfrannu at weithio gyda phlant. Dylai'r GCI fod yn rhagweithiol wrth nodi ac ymateb i anghenion hyfforddi ei weithlu, ac wrth gefnogi staff gyda'u datblygiad proffesiynol parhaus.

**Tystiolaeth:**

**EiA**

- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- siart strwythur y sefydliad, a siart strwythur yn nodi lleoliad y gwasanaeth o fewn yr awdurdod lleol
- trosolwg o hyfforddiant staff ar gyfer rheolwyr achos a rheolwyr canol yn y 12 mis diwethaf
- manylion unrhyw staff ar secondiad, gan gynnwys swyddi gwag

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI

- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)

## Dyfarniad:

Pan fydd staff o bob rôl a graddfa yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llawn, gyda staff ar secondiad yn cael eu cefnogi i gynnal cysylltiadau â'u sefydliad cartref, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Os nad yw'r holl staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llawn, a/neu os nad yw staff ar secondiad yn cael eu cefnogi i gynnal cysylltiadau â'u sefydliad cartref, dylid cael dyfarniad negyddol.

**g) A yw'r polisïau angenrheidiol yn eu lle ac yn cael eu deall gan y rhai hynny y maent yn berthnasol iddynt?**

## Canllawiau:

Dylai polisïau a chanllawiau fod ar waith, gan gynnwys y rhain o leiaf: cwynion, diogelu, risg, ymyriadau ac atgyfeiriadau ar ôl y llys, adsefydlu, datrysiadau y tu allan i'r llys, mechnïaeth a remánd a gwasanaethau priodol i oedolion. Dylai'r rhain fod yn gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Dylid cyfathrebu polisïau a chanllawiau'n effeithiol, gan sicrhau bod staff perthnasol yn gwybod sut i weithio o fewn gofynion y polisïau a'r canllawiau.

Dylai'r cyfathrebu fod yn effeithiol a chyd-fynd ag anghenion a dulliau dysgu'r derbynwyr.

O ran cyfathrebu polisïau a chanllawiau yn fewnol i staff, gallai sianeli cyfathrebu gynnwys:

- adnoddau ar y fewnrwyd a chronfeydd gwybodaeth
- negeseuon e-bost a fforymau trafod
- cyflwyniadau a sioeau teithiol gan reolwyr
- cyfarfodydd briffio rheolwyr llinell a chyfarfodydd tîm
- cylchlythyrau a bwletinau
- sesiynau holi ac ateb
- sesiynau hyfforddi a datblygu.

## Tystiolaeth:

**EiA**

- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- unrhyw bolisïau gan y GCI sy'n ymdrin â risg o niwed, diogelwch a llesiant, cyflawni gwaith gyda phlant, datrysiadau y tu allan i'r llys, ailsefydlu, mechnïaeth a remánd ac ymarfer adferol (os oes polisi wrthi'n cael ei ddiweddaru ac ar ffurf drafft, byddwn yn derbyn hyn)
- cyfeiriadur o brosiectau, gweithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael i blant
- trosolwg o hyfforddiant staff ar gyfer rheolwyr achos a rheolwyr canol yn y 12 mis diwethaf

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)

**Dyfarniad:**

Os bydd y polisïau a'r canllawiau perthnasol ar waith, yn gyfredol, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a bod y rheini sydd angen eu rhoi ar waith yn eu deall, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Os nad yw'r polisïau a'r canllawiau perthnasol ar waith, neu os nad ydynt yn gyfredol a/neu'n cael eu hadolygu'n rheolaidd, neu os nad yw'r rheini y mae angen iddynt eu rhoi ar waith yn eu deall, dylid cael dyfarniad negyddol.

**1.1.3 A yw tîm arwain y GCI yn ymgysylltu'n weithredol â staff i ddarparu gwasanaeth ymatebol a phersonol o ansawdd uchel i sicrhau newid cadarnhaol, a chadw plant a chymunedau'n ddiogel?**

**a) A yw diwylliant y GCI yn hyrwyddo bod yn agored, herio'n adeiladol a chynnig syniadau?**

**Canllawiau:**

Er mwyn i unrhyw sefydliad fod yn effeithiol, dylai hyrwyddo diwylliant lle mae staff ar bob lefel yn teimlo eu bod yn gallu cyfrannu at wella gwasanaethau ac yn glir ynghylch sut y gwneir penderfyniadau a sut y gallant gyfrannu atynt.

Mae diwylliant yn cyfeirio at 'y ffyrdd mae pethau'n cael eu gwneud yma'. Mae diwylliant agored yn un lle yr ymgynghorir â staff yn rheolaidd ynghylch materion sy'n effeithio arnynt hwy a'u gwaith, a'u bod yn derbyn esboniadau clir ynghylch sut y gwneir penderfyniadau pwysig. Mae herio'n adeiladol yn mynnu bod staff ar bob lefel yn cael cyfle i gwestiynu cynlluniau a phenderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy a'u gwaith, er enghraifft, drwy gyfarfodydd tîm, a chyfarfodydd rhwng rheolwyr ac undebau, sy'n cael eu gwerthfawrogi gan y ddwy ochr. Gall prosesau sy'n dangos bod yn agored i syniadau amrywio o gynlluniau awgrymiadau i strategaethau arloesi, ffurfio timau datblygu, a hyrwyddo mentrau newydd y mae staff wedi cyfrannu atynt.

Efallai y bydd gan sefydliadau gwannach yn y maes hwn, er enghraifft, ddiwylliant o wneud penderfyniadau cyfrinachol, rhwystrau o ran cyfathrebu neu ddiffyg sylw i farn a syniadau staff rheng flaen.

**Tystiolaeth:**

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI

- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- arolwg staff a gwirfoddolwyr

### Dyfarniad:

Lle ceir cyfleoedd i herio'n adeiladol, gyda chyfathrebu agored ar hyd a lled y sefydliad, a lle ceisir syniadau gan staff, plant a sefydliadau partner a'u rhoi ar waith, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Lle na cheir llawer o gyfleoedd i herio'n adeiladol, a/neu lle mae diffyg cyfathrebu agored ar hyd a lled y sefydliad, a/neu lle na cheisir syniadau gan staff, plant a sefydliadau partner na'u rhoi ar waith, dylid cael dyfarniad negyddol.

**b) A yw'r staff yn ymgysylltu'n dda ac yn llawn cymhelliant?**

### Canllawiau:

Mae cymhelliant staff yn dibynnu ar amrywiaeth o ffactorau. Mae'r dangosyddion yn cynnwys bod staff yn ymfalchïo yn eu gwaith, ac eisiau dod i'r gwaith i wneud gwaith da a gwneud gwahaniaeth. Dylai rheolwyr fod yn ymwybodol o wahanol gymhellion gwahanol staff a grwpiau amrywiol; dylent fonitro lefelau cymhelliant a chael dulliau gweithredu ar waith sy'n sicrhau bod lefelau uchel o gymhelliant yn cael eu cynnal. Wrth siarad â staff a rheolwyr, bydd yr arolygydd yn cael 'teimlad' o sut beth yw gweithio yn y GCI ac a oes ganddo ethos cadarnhaol a diwylliant cefnogol.

Dylai rheolwyr roi sylw i gynnal cymhelliant staff pan fydd newidiadau'n cael eu cynnig a'u rhoi ar waith, er mwyn galluogi staff i ymateb yn gadarnhaol. Gall lefelau salwch ac absenoldeb fod yn arwydd o gymhelliant isel a dylid eu rheoli'n dda ac o fewn terfynau priodol. Dylid ymchwilio i gyfraddau trosiant uchel ymysg staff i weld a ydynt yn gysylltiedig â lefelau cymhelliant isel. Gall lefelau salwch ac absenoldeb uchel, a chyfraddau trosiant staff uchel o'u cymharu â sefydliadau tebyg, fod yn arwyddion cryf o anfodlonrwydd a diffyg cymhelliant mewn sefydliad, yn enwedig lle mae tuedd gynyddol yn y rhain.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- arolwg staff a gwirfoddolwyr

## Dyfarniad:

Lle mae staff yn cael eu cefnogi'n dda, yn frwdfrydig ac yn llawn cymhelliant i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, gyda lefel isel o salwch a throsiant isel ymysg staff, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Lle nad yw staff yn cael eu cefnogi'n dda, yn frwdfrydig ac yn llawn cymhelliant i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, a/neu mae lefel uchel o salwch a throsiant uchel ymysg staff, dylid cael dyfarniad negyddol.

**c) I ba raddau mae barn staff yn cael ei cheisio, ei dadansoddi a'i defnyddio i adolygu a gwella effeithiolrwydd gwasanaethau?**

## Canllawiau:

Dylid cael dull cynhwysfawr a rhagweithiol o ymgynghori â staff, a dylai hyn gyfrannu at welliannau yn y gwasanaeth a ddarperir. Gellir cyflawni hyn mewn nifer o ffyrdd, fel drwy oruchwyliaeth unigol, cyfarfodydd tîm neu fforymau staff rheolaidd. Dylid ystyried barn staff mewn trefniadau busnes fel arfer a hefyd fel rhan o unrhyw raglenni newid. Dylid cael enghreifftiau lle mae barn a mewnbwn staff wedi arwain at newidiadau amlwg yn y GCI.

Dylai staff deimlo'n hyderus wrth gyflwyno eu barn a gwybod y bydd yn cael ei hystyried yn llawn.

## Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- arolwg staff a gwirfoddolwyr

## Dyfarniad:

Pan fo'r GCI yn mynd ati i ymgynghori â staff, gan groesawu a gweithredu ar adborth, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan nad yw'r GCI yn mynd ati i ymgynghori â staff ac nad yw'n croesawu adborth ac yn gweithredu arno, dylid cael dyfarniad negyddol.

**d) A yw rheolwyr yn cydnabod ac yn gwobrwyo gwaith eithriadol yn deg?**

## Canllawiau:

Rhaid i GCIau ddarparu mynediad teg at gyfleoedd dyrchafiad, gydag arferion gwobrwyo a chydnabod i staff o bob cefndir ym mhob rôl. Dylid cael dull gweladwy a rhagweithiol o sicrhau mynediad teg o'r fath. Mae'r GCI yn monitro pa staff sy'n cael eu dyrchafu a pha rai sy'n cael eu gwobrwyo a'u cydnabod, ac yn archwilio am unrhyw ragfarn ac yn cymryd camau i ddelio â hyn. Dylai arferion gweithredu cadarnhaol fod ar waith, gan hyrwyddo

mynediad teg at gyfleoedd dyrchafu, a gwobrwyo a chydnabod. Dylai'r GCI allu dangos sut y mae'n monitro mynediad teg ac yn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- arolwg staff a gwirfoddolwyr

### Dyfarniad:

Lle mae polisïau a darpariaeth berthnasol ar waith ac yn cael eu gweithredu'n deg ac yn cael eu monitro'n briodol, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Lle nad oes polisïau a darpariaeth berthnasol ar waith, a/neu nad ydynt yn cael eu gweithredu'n deg a'u monitro'n briodol, dylid cael dyfarniad negyddol.

**e) A roddir sylw priodol i ddiogelwch a llesiant staff, yn ogystal â meithrin gwytnwch staff?**

### Canllawiau:

Gall gweithio mewn GCI fod yn anodd ac yn beryglus ar adegau, ac mae dyletswydd gyfreithiol i hyrwyddo diogelwch a llesiant staff.

Mae llesiant staff yn golygu mwy na dim ond iechyd a diogelwch. Mae'n cynnwys darparu cyfleusterau lles; cymorth ar ôl digwyddiadau critigol; gwasanaethau iechyd galwedigaethol (imiwneiddiadau, clinigau llesiant, ac yn y blaen); a chymorth i staff sy'n profi straen a phroblemau personol sy'n effeithio ar eu gwaith. Dylai fod gan y GCIau strategaethau a chyfleusterau sydd wedi'u dylunio i gefnogi gweithlu iach, er mwyn iddynt allu darparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn well. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant gwytnwch i staff.

Dylid nodi'r trefniadau mewn polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau perthnasol a ddylai ymdrin â'r canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- sesiynau cynefino iechyd a diogelwch ar gyfer yr holl staff newydd sy'n defnyddio'r safle
- trefniadau ar gyfer diogelwch corfforol, gan gynnwys cofnodi a monitro presenoldeb ymwelwyr a staff
- system o larymau digwyddiadau a gweithdrefnau clir ar gyfer ymateb
- cyfleusterau cymorth cyntaf a lles sydd wedi'u llofnodi'n glir ac sydd ar gael yn rhwydd

- polisi a gweithdrefn gweithio ar eich pen eich hun, ynghyd â chanllawiau ar ymweld â chartrefi
- asesiadau o offer sgrin arddangos wedi'u llenwi a'u cofnodi'n rheolaidd
- trefniadau goruchwylio iechyd a diogelwch effeithiol
- adroddiadau iechyd a diogelwch sy'n cael eu cynnwys mewn cyfarfodydd llywodraethu ac uwch reolwyr
- aelod o staff sydd wedi'i gymhwyso a'i hyfforddi'n briodol i gyflawni rôl iechyd a diogelwch arweiniol.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- trosolwg o hyfforddiant staff ar gyfer rheolwyr achos a rheolwyr canol yn y 12 mis diwethaf
- proses a pholisi iechyd a diogelwch
- polisi a gweithdrefn gweithio ar eich pen eich hun

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- arolwg staff a gwirfoddolwyr

### Dyfarniad:

Lle mae polisïau a systemau iechyd a diogelwch cynhwysfawr a chyson ar waith, ynghyd ag ystod o arferion llesiant staff, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Lle nad yw polisïau a systemau iechyd a diogelwch yn cael eu defnyddio'n gynhwysfawr a/neu lle maent yn anghyson, a/neu nad yw arferion llesiant staff yn ddigonol, dylid cael dyfarniad negyddol.

**f) A oes cefnogaeth i staff os ydynt yn teimlo bod rhywun yn gwahaniaethu yn eu herbyn neu'n profi unrhyw fath o wahaniaethu?**

### Canllawiau:

Dylid cael proses ar waith sy'n amlinellu'r cymorth a fydd ar gael os bydd unrhyw aelod o staff yn teimlo bod rhywun yn gwahaniaethu yn ei erbyn neu os yw'n profi unrhyw fath o wahaniaethu. Gall hwn fod yn bolisi annibynnol neu gall fod wedi'i gynnwys yn nhrefniadau'r polisi cwynion ac anghydfodau.

Sut bynnag y caiff ei gyflwyno, dylai'r trefniadau fod yn glir, yn hygyrch, yn hysbys ac yn ddealladwy i staff. Dylent gynnwys prosesau cadarn o gymorth ar lefelau priodol, a phwyntiau uwchgyfeirio.

Dylid rhoi cyhoeddusrwydd eang i drefniadau, a dylai pob aelod o staff eu deall a dylid eu cefnogi ag adolygiadau a dadansoddiadau rheolaidd lle mae'r prosesau wedi cael eu defnyddio, er mwyn sicrhau bod atebion wedi cael eu gweithredu a bod unrhyw dueddiadau wedi cael eu nodi a'u datrys.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- polisi cwynion (staff)

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- arolwg staff a gwirfoddolwyr

### Dyfarniad:

Pan geir trefniadau clir, sy'n ddealladwy i'r holl staff ac sy'n cynnwys monitro a dadansoddi, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan nad yw'r trefniadau'n glir, nac yn ddealladwy i'r holl staff a/neu os nad ydynt yn cael eu monitro na'u dadansoddi, dylid cael dyfarniad negyddol.

**g) A oes proses glir a dealladwy ar gyfer cwynion gan staff?**

### Canllawiau:

Dylai'r GCI gael proses gwyno ar gyfer staff. Gall hyn fod yn broses annibynnol neu gall fod wedi'i chynnwys yn nhrefniadau'r polisi cwynion ac anghydfodau.

Sut bynnag y caiff ei chyflwyno, dylai'r broses fod yn glir, yn hygyrch, yn hysbys ac yn ddealladwy i staff. Dylai'r trefniadau gynnwys prosesau cadarn o gymorth ar lefelau priodol, a phwyntiau uwchgyfeirio. Dylai'r polisi a'r broses gynnwys trefniadau ar gyfer monitro a dadansoddi cwynion ac anghydfodau. Dylid cael sianeli cydnabyddedig ar gyfer codi pryderon staff ac ymateb i bryderon staff, a dylai rheolwyr gyfleu'n glir y rhesymau dros sut a pham y gwneir penderfyniadau. Dylid rhoi cyhoeddusrwydd i'r gweithdrefnau cwynion ac anghydfodau a dylai staff eu deall. Dylai'r GCI fonitro cwynion ac anghydfodau a dadansoddi'r canlyniadau.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- polisi cwynion (staff)

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- arolwg staff a gwirfoddolwyr

### Dyfarniad:

Lle ceir llwybr clir ar gyfer cwynion, sy'n ddealladwy i'r holl staff ac sy'n cynnwys monitro a dadansoddi, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Lle na nad yw'r llwybrau cwynion yn glir, ac nad yw'r holl staff yn deall y llwybr a/neu os nad ydynt yn cael eu monitro na'u dadansoddi, dylid cael dyfarniad negyddol.

**h) A oes proses glir a dealladwy ar gyfer cwynion gan blant, rhieni a gofalwyr?**

### Canllawiau:

Dylai fod gan y GCI bolisi a phroses gwyno i blant a rhieni a gofalwyr eu defnyddio. Dylid rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhain, dylai fod yn hawdd cael gafael arnynt ac yn hawdd i bob plentyn a rhiant a gofalwr eu deall, beth bynnag fo'u hanghenion iaith a lleferydd neu ddysgu.

Dylai'r trefniadau gynnwys cymorth i blant a rhieni a gofalwyr wrth wneud cwyn. Dylai fod gan y GCI drefniadau i fonitro a dadansoddi cwynion. Dylid cael sianeli cydnabyddedig ar gyfer mynegi pryderon ac ymateb i bryderon a godir. Dylai rheolwyr gyfathrebu'n glir â phlant, rhieni a gofalwyr sy'n gwneud cwyn a'u galluogi i ddeall sut a pham y gwneir penderfyniadau.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- polisi cwynion (plant, rhieni a gofalwyr)

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)

- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- arolwg staff a gwirfoddolwyr

### Dyfarniad:

Lle ceir llwybr clir ar gyfer cwynion, sy'n ddealladwy i blant, rhieni a gofalwyr ac sy'n cynnwys monitro a dadansoddi, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Lle nad oes llwybr clir ar gyfer cwynion, ac nad yw'n ddealladwy i blant, rhieni a gofalwyr a/neu nad yw'n cael ei fonitro na'i ddadansoddi, dylid cael dyfarniad negyddol.

**i) A yw arweinwyr y GCI yn deall ac yn hyrwyddo'r gwaith o fodloni anghenion amrywiol, gan gynnwys yr angen i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer staff yn unol â nodweddion gwarchodedig?**

### Canllawiau:

Dylid gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer yr holl staff sydd ag anabledd sy'n berthnasol i'r diffiniad yn *Neddf Cydraddoldeb 2010*, er mwyn eu galluogi i weithio'n effeithiol. Rhaid i arweinwyr rhanbarthol sicrhau eu bod yn monitro ac yn cofnodi anabledd ar gyfer yr holl staff. Pan fydd staff yn nodi anableddau lle mae angen addasiadau rhesymol, rhaid i arweinwyr wneud darpariaeth ar eu cyfer, a allai gynnwys y canlynol, ond nid y rhain yn unig:

- gweithle hygyrch
- dodrefn a chyflenwadau priodol
- darparu technoleg gynorthwyol
- staff cefnogi ychwanegol
- llai o lwyth gwaith neu lai o oriau.

Rhaid i arweinwyr y GCI hefyd gynnal asesiadau risg iechyd a diogelwch ar gyfer staff beichiog a gwneud addasiadau rhesymol i'w galluogi i barhau i weithio'n effeithiol ac yn ddiogel. Dylent roi ystyriaeth resymol i addasu oriau a phatrymau gweithio staff sydd â chyfrifoldebau gofalu am rieni a dibynyddion.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)

- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- arolwg staff a gwirfoddolwyr

**Dyfarniad:**

Lle mae polisïau a darpariaeth berthnasol ar gael a'u bod yn cael eu gweithredu'n deg ac yn briodol, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Lle nad oes polisïau a darpariaeth berthnasol ar gael, a/neu nad ydynt yn cael eu gweithredu'n deg ac yn briodol, dylid cael dyfarniad negyddol.

**1.1.4 A yw arweinwyr yn defnyddio dadansoddiad, tystiolaeth a dysgu i sbarduno gwasanaeth ymatebol a phersonol o ansawdd uchel i sicrhau newid cadarnhaol a diogelwch ar gyfer plant a chymunedau?**

**a) A yw polisïau'n cael eu gwerthuso a'u hadolygu'n rheolaidd, gan gynnwys ymateb i newidiadau yn y sylfaen dystiolaeth a rhoi sylw dyledus i faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth?**

**Canllawiau:**

Dylai'r GCI ganolbwyntio'n glir ar welliant parhaus, gyda fframwaith gwerthuso a hunanasesu cadarn sy'n sicrhau bod rheolwyr yn deall ac yn rhoi sylw i feysydd datblygu ac yn gwella ansawdd y ddarpariaeth. Dylai cynlluniau gweithredu priodol fod ar waith gan y GCI; dylai'r rhain gael eu hategu gan dystiolaeth dda a gwybodaeth gyfredol, yn seiliedig ar adolygu a gwerthuso rheolaidd i weld a ydynt yn cyflawni eu nodau. Dylent fod yn seiliedig ar y sylfaen dystiolaeth sylfaenol o ymchwil ac ymarfer effeithiol/addawol ynghylch beth sy'n debygol o weithio a gwella'r ddarpariaeth.

**Tystiolaeth:**

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- unrhyw bolisïau gan y GCI sy'n ymdrin â risg o niwed, diogelwch a llesiant, cyflawni gwaith gyda phlant, datrysiadau y tu allan i'r llys, ailsefydlu, mechnïaeth a remánd ac ymarfer adferol (os oes polisi wrthi'n cael ei ddiweddaru ac ar ffurf drafft, byddwn yn derbyn hyn)
- unrhyw archwiliadau neu werthusiad perthnasol o ansawdd y gwaith gyda phlant

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)

**Dyfarniad:**

Pan fydd polisïau'n cael eu gwerthuso a'u hadolygu yn unol â'r sylfaen dystiolaeth ac yn rhoi sylw dyledus i faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan nad yw polisïau'n cael eu gwerthuso a'u hadolygu yn unol â'r sylfaen dystiolaeth nac yn rhoi sylw dyledus i faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth, dylid cael dyfarniad negyddol.

**b) A yw'r gwaith o ddarparu gwasanaethau partneriaeth yn cael ei lywio gan fonitro, gwerthuso ac adolygu rheolaidd a chadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys adolygiad o'r effaith ar grwpiau amrywiol?**

**Canllawiau:**

Er mwyn i bartneriaethau fod yn effeithiol, rhaid iddynt gael eu llywio gan fonitro rheolaidd ac fel mater o drefn i weld a ydynt yn cyflawni eu nodau. Dylent hefyd gael eu llywio gan dystiolaeth o ymchwil am yr hyn sy'n debygol o weithio a gwella'r ddarpariaeth.

Dylai monitro, gwerthuso ac adolygu gynnwys archwilio'r gwelliannau i'r broses, i nodi a ydynt yn cyflawni'r hyn a fwriadwyd, gydag adborth gan randdeiliaid ar sut y maent yn gweithio'n ymarferol. Dylai trefniadau partneriaeth gael eu monitro'n rheolaidd gan rywun sy'n gyfrifol am reoli'r broses berthnasol, gan adrodd o dan drefniant llywodraethu priodol. Dylent gyd-fynd â'r sylfaen dystiolaeth, gan adeiladu ar ymchwil sy'n bodoli eisoes a, phan fo hynny'n briodol, cyfrannu ati. Dylai monitro, gwerthuso ac adolygu gynnwys adolygiad o'r effaith ar grwpiau amrywiol.

Lle bo'n briodol, dylid ystyried monitro, gwerthuso ac adolygu allanol, er mwyn gwella uniondeb y broses, a dylid ystyried cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu ag ymchwilwyr, neu gydweithio â sefydliadau tebyg sy'n ymgymryd â phroses wella debyg, er mwyn meincnodi cynnydd a manteisio i'r eithaf ar ddysgu.

**Tystiolaeth:**

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- unrhyw bolisïau gan y GCI sy'n ymdrin â risg o niwed, diogelwch a llesiant, cyflawni gwaith gyda phlant, datrysiadau y tu allan i'r llys, ailsefydlu, mechnïaeth a remánd ac ymarfer adferol (os oes polisi wrthi'n cael ei ddiweddaru ac ar ffurf drafft, byddwn yn derbyn hyn)
- unrhyw archwiliadau neu werthusiad perthnasol o ansawdd y gwaith gyda phlant
- unrhyw ddata sydd ar gael am gyfrannau plant 10 i 17 oed yn ardal y GCI sy'n Ddu, Asiaidd neu o gefndir ethnig leiafrifol (efallai y bydd y data hwn ar gael gan yr awdurdod lleol)
- unrhyw ddata sydd ar gael sy'n dadansoddi nodweddion gwarchodedig plant sy'n gweithio gyda'r GCI (gan gynnwys hil a tharddiad ethnig, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol ac unrhyw ffactorau eraill y mae data ar gael ar eu cyfer) ar draws gwahanol ddatrysiadau
- copi o unrhyw bolisïau tegwch, amrywiaeth, anghymesuredd a/neu gynhwysiant a/neu gynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag effaith canfyddiadau o ddadansoddi data

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI

- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)

### Dyfarniad:

Pan fydd trefniadau partneriaeth yn seiliedig ar fonitro, gwerthuso ac adolygu rheolaidd, sy'n cynnwys adolygu'r effaith ar grwpiau amrywiol, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan na fydd trefniadau partneriaeth yn seiliedig ar fonitro, gwerthuso ac adolygu rheolaidd, sy'n cynnwys adolygu'r effaith ar grwpiau amrywiol, dylid cael dyfarniad negyddol.

**c) A yw cynlluniau gwella gwasanaeth yn cael eu gwerthuso a'u hadolygu'n rheolaidd, gan gynnwys ymateb i newidiadau yn y sylfaen dystiolaeth?**

### Canllawiau:

Er mwyn i gynlluniau gwella gwasanaeth fod yn effeithiol, rhaid iddynt gael eu llywio gan fonitro rheolaidd ac fel mater o drefn i weld a ydynt yn cyflawni eu nodau. Dylent hefyd gael eu llywio gan dystiolaeth o ymchwil am yr hyn sy'n debygol o weithio a gwella'r ddarpariaeth.

Dylai monitro gynnwys archwilio'r gwelliannau i'r broses i nodi a ydynt yn cyflawni'r hyn a fwriadwyd, gydag adborth gan randdeiliaid ar sut y maent yn gweithio'n ymarferol. Dylai cynlluniau gwella gael eu monitro'n rheolaidd gan rywun sy'n gyfrifol am reoli'r broses berthnasol, gan adrodd o dan drefniant llywodraethu priodol. Dylent gyd-fynd â'r sylfaen dystiolaeth, gan adeiladu ar ymchwil sy'n bodoli eisoes a chyfrannu ati.

Lle bo'n briodol, dylid ystyried monitro allanol, er mwyn gwella uniondeb y broses, a dylid ystyried cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu ag ymchwilwyr, neu gydweithio â sefydliadau tebyg sy'n ymgymryd â phroses wella debyg, er mwyn meincnodi cynnydd a manteisio i'r eithaf ar ddysgu.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- unrhyw bolisïau gan y GCI sy'n ymdrin â risg o niwed, diogelwch a llesiant, cyflawni gwaith gyda phlant, datrysiadau y tu allan i'r llys, ailsefydlu, mechnïaeth a remánd ac ymarfer adferol (os oes polisi wrthi'n cael ei ddiweddaru ac ar ffurf drafft, byddwn yn derbyn hyn)
- unrhyw archwiliadau neu werthusiad perthnasol o ansawdd y gwaith gyda phlant
- unrhyw ddata sydd ar gael am gyfrannau plant 10 i 17 oed yn ardal y GCI sy'n Ddu, Asiaidd neu o gefndir ethnig leiafrifol (efallai y bydd y data hwn ar gael gan yr awdurdod lleol)
- unrhyw ddata sydd ar gael sy'n dadansoddi nodweddion gwarchodedig plant sy'n gweithio gyda'r GCI (gan gynnwys hil a tharddiad ethnig, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol ac unrhyw ffactorau eraill y mae data ar gael ar eu cyfer) ar draws gwahanol ddatrysiadau

- copi o unrhyw bolisïau tegwch, amrywiaeth, anghymesuredd a/neu gynhwysiant a/neu gynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag effaith canfyddiadau o ddadansoddi data

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)

**Dyfarniad:**

Os oes cynlluniau gwella gwasanaeth ar waith, sy'n adeiladu ar sylfaen dystiolaeth, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Os nad oes cynlluniau gwella gwasanaeth ar waith neu os nad ydynt yn adeiladu ar sylfaen dystiolaeth, dylid cael dyfarniad negyddol.

**d) A yw'r gwerthusiad yn cynnwys y defnydd o ddata a gwybodaeth, ac a yw wedi'i lywio gan fewnbwn angenrheidiol o asiantaethau eraill, gan gynnwys y rhai hynny sy'n darparu gwasanaethau y tu allan i'r llys, ar ôl y llys, mechnïaeth a remánd, oedolion priodol ac ailsefydlu?**

**Canllawiau:**

Mae gwerthuso cadarn a sicrhau ansawdd ar sail data yn rhan annatod o ddarparu gwasanaethau a dylai gynnwys dadansoddiad gofalus o ffactorau amrywiaeth. Dylent gynnwys partneriaid a darparwyr eraill, lle bo hynny'n briodol, ar draws holl waith y GCI, gan ganolbwyntio ar nodi arferion da ac agweddau i'w gwella.

Dylai'r GCI ddefnyddio'r data y mae'n ei gasglu nid yn unig i nodi, lliniaru neu ddileu arferion gwael, ond hefyd i nodi ffyrdd o annog cyfle cyfartal. Bydd ysgogi gwelliannau ar draws y ddarpariaeth yn debygol o gynnwys partneriaid a darparwyr y tu allan i'r GCI, felly dylid lledaenu unrhyw ddysgu a chamau a gymerir drwy strwythurau priodol yn fewnol ac yn allanol. Gellid cyfleu'r gwersi a ddysgir yn fewnol, yn allanol a rhwng partneriaid a darparwyr.

Mae cydweithio â'r gymuned leol, darparwyr ac asiantaethau eraill yn rhan annatod o gynllunio gwasanaethau i sicrhau newid cadarnhaol a chadw plant a chymunedau'n ddiogel, ac mae'n sicrhau bod gwasanaethau'n diwallu anghenion plant ac yn caniatáu ar gyfer arloesi priodol.

Dylai'r GCI hefyd ddefnyddio gwybodaeth gan asiantaethau partner. Er enghraifft, gwirio'r holl ddatrysiadau ar system yr heddlu, i sicrhau bod y GCI yn cael gwybod am yr holl ganlyniadau perthnasol. Gall y GCI hefyd ddefnyddio cyfraddau atgyfeirio gan sefydliadau partner a chyfraddau cwblhau wrth werthuso'r polisi a'r ddarpariaeth.

**Tystiolaeth:**

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd

- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- unrhyw bolisïau gan y GCI sy'n ymdrin â risg o niwed, diogelwch a llesiant, cyflawni gwaith gyda phlant, datrysiadau y tu allan i'r llys, ailsefydlu, mechnïaeth a remánd ac ymarfer adferol (os oes polisi wrthi'n cael ei ddiweddaru ac ar ffurf drafft, byddwn yn derbyn hyn)
- unrhyw archwiliadau neu werthusiad perthnasol o ansawdd y gwaith gyda phlant
- unrhyw ddata sydd ar gael am gyfrannau plant 10 i 17 oed yn ardal y GCI sy'n Ddu, Asiaidd neu o gefndir ethnig leiafrifol (efallai y bydd y data hwn ar gael gan yr awdurdod lleol)
- unrhyw ddata sydd ar gael sy'n dadansoddi nodweddion gwarchodedig plant sy'n gweithio gyda'r GCI (gan gynnwys hil a tharddiad ethnig, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol ac unrhyw ffactorau eraill y mae data ar gael ar eu cyfer) ar draws gwahanol ddatrysiadau
- copi o unrhyw bolisïau tegwch, amrywiaeth, anghymesuredd a/neu gynhwysiant a/neu gynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag effaith canfyddiadau o ddadansoddi data

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)

### Dyfarniad:

Pan fydd gwerthuso'n defnyddio data a gwybodaeth ac yn cael ei lywio gan asiantaethau eraill ar draws holl ddarpariaeth y GCI, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan na fydd gwerthuso'n defnyddio data a gwybodaeth yn ddigonol a/neu nad yw'n cael ei lywio'n llawn gan asiantaethau eraill ar draws holl ddarpariaeth y GCI, dylid cael dyfarniad negyddol.

**e) A yw'r gwerthusiad yn cynnwys ystyriaeth weithredol i faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth?**

### Canllawiau:

Dylai gwerthusiad y GCI o'i wasanaethau gynnwys asesu eu heffaith ar blant sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol i ganfod a yw'n diwallu eu hanghenion amrywiaeth ac yn lleihau anfantais. Mae hyn yn rhan o gydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb gyffredinol y sector cyhoeddus a nodir yn *Neddf Cydraddoldeb 2010*. Mae'r holl wybodaeth ar gael yma https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/essential-guide-public-sector-equality-duty.

Wrth werthuso ei wasanaethau, dylai'r GCI ddefnyddio'r wybodaeth am amrywiaeth y mae'n ei chasglu nid yn unig i nodi, lliniaru neu ddileu arferion gwael, ond hefyd i nodi ffyrdd o annog cyfle teg.

## Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- unrhyw archwiliadau neu werthusiad perthnasol o ansawdd y gwaith gyda phlant
- unrhyw ddata sydd ar gael am gyfrannau plant 10 i 17 oed yn ardal y GCI sy'n Ddu, Asiaidd neu o gefndir ethnig leiafrifol (efallai y bydd y data hwn ar gael gan yr awdurdod lleol)
- unrhyw ddata sydd ar gael sy'n dadansoddi nodweddion gwarchodedig plant sy'n gweithio gyda'r GCI (gan gynnwys hil a tharddiad ethnig, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol ac unrhyw ffactorau eraill y mae data ar gael ar eu cyfer), ar draws gwahanol ddatrysiadau
- copi o unrhyw bolisïau tegwch, amrywiaeth, anghymesuredd a/neu gynhwysiant a/neu gynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag effaith canfyddiadau o ddadansoddi data

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)

## Dyfarniad:

Lle mae materion amrywiaeth yn rhan fwriadol ac annatod o weithgareddau gwerthuso'r GCI, gyda'r rhesymau dros unrhyw annhegwch yn cael eu hegluro a chamau gweithredu'n cael eu nodi i ddiwygio lle bo hynny'n bosibl, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Lle nad yw materion amrywiaeth yn rhan fwriadol nac annatod o weithgareddau gwerthuso'r GCI, gyda'r rhesymau dros unrhyw annhegwch heb eu hegluro a/neu heb unrhyw gamau gweithredu wedi'u nodi i ddiwygio lle bo hynny'n bosibl, dylid cael dyfarniad negyddol.

### f) A yw systemau sicrhau ansawdd a pherfformiad yn ysgogi gwelliant?

## Canllawiau:

Dylai fod gan y GCI systemau sicrhau ansawdd a pherfformiad priodol i alluogi arweinwyr a staff i ddeall effeithiolrwydd y gwaith y maent yn ei gyflawni. Dylai'r systemau hyn fod yn addas i'r diben, gan gynnwys bod yn hawdd eu deall ac yn mesur cynnydd yn glir yn ogystal â meysydd i'w gwella. Dylai fod gan y GCI ei systemau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd ei hun ar waith sy'n cwmpasu pob un o'i brif swyddogaethau darparu gwasanaethau. Mae'r mesurau perfformiad yn cynnwys y rhai a ragnodir gan y BCI a'r rhai y mae'r GCI wedi'u datblygu'n fewnol i fesur ei gynnydd, ac effeithiolrwydd ei brosesau, o ran cyflawni amcanion lleol. Dylai'r GCI feincnodi systemau, prosesau a mesurau perfformiad, gosod ac adolygu targedau i sbarduno gwelliannau, dadansoddi tueddiadau a nodi a mynd i'r afael ag achosion o berfformiad lefel uchel a thanberfformiad. Dylai hyn gael ei lywio gan ddarpariaeth reolaidd o wybodaeth hygyrch am berfformiad, sy'n cael ei dadansoddi'n

briodol ar lefel tîm ac unigolyn, a'i chwestiynu i ganfod tueddiadau, achosion a gwelliannau posibl.

Gall prosesau sicrhau ansawdd gynnwys gweithgareddau fel samplu achosion, arsylwi ymarfer, adolygu achosion, adolygiadau gan gymheiriaid, data ar allbynnau a chanlyniadau a gyflawnwyd, ac adborth gan staff, plant a rhieni neu ofalwyr am y gwasanaethau a ddarperir.

Dylai'r GCI lunio cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â chanfyddiadau mecanweithiau perfformiad ac ansawdd ac arolygiadau Arolygiaeth Prawf EF, gan gynnwys arolygiadau thematig. Dylid llunio'r rhain yn brydlon, yn unol â chanllawiau perthnasol, gan gynnwys cymryd camau ar unwaith pan fo angen. Dylai cynlluniau gweithredu nodi pwy sy'n gyfrifol am eu rhoi ar waith, a dylid eu hadolygu a'u gwerthuso ar adegau priodol. Dylai cynlluniau fod yn destun trefniadau llywodraethu addas drwy fwrdd rheoli'r GCI i sicrhau bod camau gweithredu penodol yn cael eu cwblhau'n brydlon a bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu cyflawni.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- cyflwyno data'r dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) diweddaraf i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) (os na chaiff ei gynnwys gyda chofnodion y bwrdd)
- dadansoddiad o adborth gan blant, rhieni a gofalwyr, a chynlluniau gweithredu cysylltiedig
- unrhyw bolisïau gan y GCI sy'n ymdrin â risg o niwed, diogelwch a llesiant, cyflawni gwaith gyda phlant, datrysiadau y tu allan i'r llys, ailsefydlu, mechnïaeth a remánd ac ymarfer adferol (os oes polisi wrthi'n cael ei ddiweddaru ac ar ffurf drafft, byddwn yn derbyn hyn)
- unrhyw archwiliadau neu werthusiad perthnasol o ansawdd y gwaith gyda phlant

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)

### Dyfarniad:

Lle ceir systemau perfformiad ac ansawdd clir, addas i'r diben, gyda chynllunio gweithredu effeithiol wedi'i gefnogi gan drefniadau llywodraethu priodol, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Lle na nad yw systemau perfformiad ac ansawdd yn glir neu'n anaddas i'r diben, a/neu lle ceir cynllunio gweithredu aneffeithiol a/neu drefniadau llywodraethu amhriodol, dylid cael dyfarniad negyddol.

**g) A yw'r GCI yn dysgu'n systematig ac yn cyfathrebu'n effeithiol pan fydd pethau'n mynd o chwith, gan gynnwys digwyddiadau difrifol?**

## Canllawiau:

Dylai fod gan y GCI ddull y cytunwyd arni ac y gellir ei deall tuag at ddysgu a datblygu sefydliadol, sy'n cefnogi ei daith tuag at welliant parhaus. Dylai roi sylw penodol i ddysgu o bethau sy'n mynd o chwith. Ar gyfer unigolion, gall hyn gynnwys amcanion hyfforddi a datblygu penodol. Ar gyfer y sefydliad yn ehangach, yn ogystal â sesiynau briffio staff, dylid cytuno ar gyfres o gamau gweithredu i adolygu, monitro a chryfhau prosesau darparu gwasanaethau er mwyn lleihau'r risg o ailadrodd. Dylai'r GCI allu dangos ei fod wedi tynnu'r dysgu allan yn systematig ac wedi sicrhau bod hyn wedi'i wreiddio mewn newidiadau i ymarfer a darparu gwasanaethau.

## Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)

## Dyfarniad:

Os oes dull cyson y cytunwyd arno ar gyfer dysgu sefydliadol y gellir ei ddangos drwy nifer o wahanol enghreifftiau o ymarfer, dylid cael #dyfarniad cadarnhaol.

Os nad oes dull cyson y cytunwyd arno ar gyfer dysgu sefydliadol a/neu os nad oes modd dangos hyn drwy nifer o wahanol enghreifftiau o ymarfer, dylid cael dyfarniad negyddol.

## 1.2 Staff

**Mae staff wedi'u galluogi i ddarparu gwasanaeth ymatebol a phersonol o ansawdd uchel i sicrhau newid cadarnhaol, a chadw plant a chymunedau'n ddiogel.**

**1.2.1 A yw lefelau staffio a llwyth gwaith yn cefnogi staff i ddarparu gwasanaeth ymatebol a phersonol o ansawdd uchel i sicrhau newid cadarnhaol, a chadw plant a chymunedau'n ddiogel?**

**a) A yw lefelau staffio'r GCI yn ddigonol?**

### Canllawiau:

Dylai lefelau staffio ar draws *pob rôl* yn y GCI fod yn ddigonol i alluogi staff i ddarparu gwaith perthynol, personol ac o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae lefelau staffio digonol yn dibynnu ar nifer o ffactorau, fel modelau darparu ac anghenion, risg a chryfderau'r plant y mae staff yn gweithio gyda nhw. Ar gyfer rolau nad ydynt yn rhai rheng flaen, rhaid i lefelau staffio fod yn ddigon i alluogi'r rolau hyn i gyflawni gwaith perthynol, personol ac o ansawdd uchel, sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae hyn yn golygu y dylai lefelau staffio alluogi tasgau i gael eu cwblhau i safon dda, o fewn oriau gwaith arferol, y rhan fwyaf o'r amser.

Ni ddylid mynd y tu hwnt i ffigur canllaw'r GCI ei hun ar gyfer llwythi gwaith derbyniol, na'r diffiniad ohonynt, fel mater o drefn. Dylai fod gan y GCIau gynllun staffio sy'n cael ei ddiweddaru a'i adolygu o leiaf bob blwyddyn i adlewyrchu newidiadau ym mhroffil y plant. Dylai'r cynllun gynnwys tybiaethau realistig am lwyth gwaith a llwythi achosion disgwyliedig staff, lefelau cadw staff, cynnydd staff a staff yn ymddeol, wedi'u rhannu yn ôl rôl a graddfa. Dylai ymdrin â sut a phryd y bydd staff yn cael eu recriwtio, a chynlluniau wrth gefn, gan gynnwys defnyddio staff sesiynol ac asiantaeth os bydd amrywiadau sylweddol yn y llwyth gwaith neu lefelau salwch. Dylid fod egwyddorion arweiniol ynghylch sut y gwneir penderfyniadau ar staffio rhanbarthol a phwy sy'n gyfrifol am eu gwneud. Dylid cynnwys hyblygrwydd i ymateb i ofynion sy'n newid, a allai gynnwys ymgymryd â chyfrifoldebau neu ffyrdd newydd o weithio, yn unol â chynlluniau darparu gwasanaethau, yn ogystal â chynnydd neu ostyngiad mewn llwyth gwaith.

Dylai GCIau osgoi gorlwytho rolau neu newid rolau. Mae gorlwytho rolau yn sefyllfa sy'n deillio o unigolyn yn ymgymryd â rôl neu rolau amryfal lle gofynnir iddo wneud mwy nag y mae'n gallu ei wneud mewn cyfnod penodol o amser (gorlwytho meintiol), neu lle mae'n cael ei ymestyn y tu hwnt i'w wybodaeth, ei sgiliau a'i alluoedd (gorlwytho ansoddol). Mae newid rôl yn digwydd pan fydd dyletswyddau gwaith craidd ar gyfer rôl neu raddfa benodol yn cael eu cyflawni fwyfwy gan staff eraill – fel arfer, pan fydd gwaith yn cael ei ddirprwyo i staff iau.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- taenlen data sefydliadol wedi'i chwblhau
- siart strwythur y sefydliad, a siart strwythur yn nodi lleoliad y gwasanaeth o fewn yr awdurdod lleol
- copi o'r cynllun strategol cyfiawnder ieuenctid diweddaraf

- manylion unrhyw staff ar secondiad, gan gynnwys swyddi gwag
- tystiolaeth parth dau

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- arolwg staff a gwirfoddolwyr

### Dyfarniad:

Pan fydd lefelau staffio'n ddigonol, yn cael eu cynllunio a'u hadolygu ar draws y sefydliad, gan gynnwys trefniadau effeithiol i ymateb i ofynion sy'n newid, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Os nad yw'r lefelau staffio'n ddigonol neu os yw'r ymateb i ofynion sy'n newid yn ad hoc neu'n adweithiol yn unig, dylid cael dyfarniad negyddol.

**b) A oes gan ymarferwyr y GCI lwyth gwaith y gellir ei reoli, o ystyried eu llwyth gwaith a'r ystod o waith a wneir?**

### Canllawiau:

Dylai ymarferwyr y GCI allu rheoli'r gwaith y maent yn ei wneud yn effeithiol o fewn yr oriau sydd ar gael, y rhan fwyaf o'r amser. Dylai llwythi gwaith fod yn rhesymol er mwyn i ymarferwyr ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, a gwaith perthynol, personol, wedi'i seilio ar dystiolaeth gyda phlant. Dylai hyn gynnwys pan fydd staff yn absennol, boed hynny wedi'i gynllunio neu heb ei gynllunio.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- taenlen data sefydliadol wedi'i chwblhau
- siart strwythur y sefydliad, a siart strwythur yn nodi lleoliad y gwasanaeth o fewn yr awdurdod lleol
- copi o'r cynllun strategol cyfiawnder ieuenctid diweddaraf
- manylion unrhyw staff ar secondiad, gan gynnwys swyddi gwag
- tystiolaeth parth dau

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI

- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- arolwg staff a gwirfoddolwyr

**Dyfarniad:**

Pan fydd ymarferwyr y GCI yn gallu darparu gwaith perthynol, personol ac o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fewn yr oriau sydd ar gael, y rhan fwyaf o'r amser, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan nad yw ymarferwyr y GCI yn gallu darparu gwaith perthynol, personol ac o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fewn yr oriau sydd ar gael, y rhan fwyaf o'r amser, dylid cael dyfarniad negyddol.

**c) A oes gan arbenigwyr y GCI lwyth gwaith y gellir ei reoli, o ystyried eu llwyth gwaith a'r ystod o waith a wneir?**

**Canllawiau:**

Dylai staff arbenigol y GCI allu rheoli'r gwaith y maent yn ei wneud yn effeithiol o fewn yr oriau sydd ar gael, y rhan fwyaf o'r amser. Dylai llwythi gwaith fod yn rhesymol er mwyn i'r aelodau staff hyn ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, a gwaith perthynol, personol, wedi'i seilio ar dystiolaeth gyda phlant. Dylai hyn gynnwys pan fydd staff yn absennol, boed hynny wedi'i gynllunio neu heb ei gynllunio.

**Tystiolaeth:**

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- taenlen data sefydliadol wedi'i chwblhau
- siart strwythur y sefydliad, a siart strwythur yn nodi lleoliad y gwasanaeth o fewn yr awdurdod lleol
- copi o'r cynllun strategol cyfiawnder ieuenctid diweddaraf
- manylion unrhyw staff ar secondiad, gan gynnwys swyddi gwag
- tystiolaeth parth dau

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)

- arolwg staff a gwirfoddolwyr

## Dyfarniad:

Pan fydd staff arbenigol y GCI yn gallu darparu gwaith perthynol, personol ac o ansawdd uchel sy’n seiliedig ar dystiolaeth o fewn yr oriau sydd ar gael, y rhan fwyaf o’r amser, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan nad yw staff arbenigol y GCI yn gallu darparu gwaith perthynol, personol ac o ansawdd uchel sy’n seiliedig ar dystiolaeth o fewn yr oriau sydd ar gael, y rhan fwyaf o’r amser, dylid cael dyfarniad negyddol.

**d) A oes gan staff cefnogi lwyth gwaith y gellir ei reoli, sy’n eu galluogi i gefnogi gwaith y GCI yn effeithiol?**

## Canllawiau:

Dylai staff cefnogi y GCI allu rheoli’r gwaith y maent yn ei wneud yn effeithiol o fewn yr oriau sydd ar gael, y rhan fwyaf o’r amser. Dylai llwythi gwaith fod yn rhesymol er mwyn i’r aelodau staff hyn gefnogi staff arbenigol ac ymarferwyr y GCI i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, a gwaith perthynol, personol, wedi'i seilio ar dystiolaeth gyda phlant. Dylai hyn gynnwys pan fydd staff yn absennol, boed hynny wedi’i gynllunio neu heb ei gynllunio.

## Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi’i chwblhau
- taenlen data sefydliadol wedi’i chwblhau
- siart strwythur y sefydliad, a siart strwythur yn nodi lleoliad y gwasanaeth o fewn yr awdurdod lleol
- copi o’r cynllun strategol cyfiawnder ieuenctid diweddaraf
- manylion unrhyw staff ar secondiad, gan gynnwys swyddi gwag
- tystiolaeth parth dau

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli’r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy’n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i’r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- arolwg staff a gwirfoddolwyr

## Dyfarniad:

Pan fydd staff cefnogi y GCI yn gallu darparu gwaith perthynol, personol ac o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fewn yr oriau sydd ar gael, y rhan fwyaf o'r amser, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan nad yw staff cefnogi y GCI yn gallu darparu gwaith perthynol, personol ac o ansawdd uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth o fewn yr oriau sydd ar gael, y rhan fwyaf o'r amser, dylid cael dyfarniad negyddol.

**e) A oes gan arweinwyr a rheolwyr lwyth gwaith y gellir ei reoli?**

## Canllawiau:

Dylai arweinwyr a rheolwyr y GCI allu rheoli'r gwaith y maent yn ei wneud yn effeithiol o fewn yr oriau sydd ar gael, y rhan fwyaf o'r amser. Dylai llwythi gwaith fod yn rhesymol er mwyn i'r arweinwyr a'r rheolwyr hyn allu sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel, a gwaith perthynol, personol, wedi'i seilio ar dystiolaeth yn cael eu darparu i blant. Dylai hyn gynnwys pan fydd unrhyw staff yn absennol, boed hynny wedi'i gynllunio neu heb ei gynllunio.

Bydd i ba raddau y mae rheolwyr canol yn gyfrifol am feysydd eraill busnes neu gymorth gweinyddol yn berthnasol, yn ogystal â maint yr ardal ddaearyddol y maent yn gyfrifol amdani a nifer y lleoliadau swyddfeydd. Dylai rheolwyr canol fod mewn sefyllfa i ddarparu goruchwyliaeth a chefnogaeth effeithiol i'w staff, i'w dal yn atebol am eu gwaith, ac i'w cefnogi a'u datblygu.

## Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- taenlen data sefydliadol wedi'i chwblhau
- siart strwythur y sefydliad, a siart strwythur yn nodi lleoliad y gwasanaeth o fewn yr awdurdod lleol
- copi o'r cynllun strategol cyfiawnder ieuenctid diweddaraf
- manylion unrhyw staff ar secondiad, gan gynnwys swyddi gwag
- tystiolaeth parth dau

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- arolwg staff a gwirfoddolwyr

## Dyfarniad:

Pan fydd arweinwyr a rheolwyr y GCI yn gallu galluogi gwaith perthynol, personol ac o ansawdd uchel sy’n seiliedig ar dystiolaeth o fewn yr oriau sydd ar gael, y rhan fwyaf o’r amser, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan nad yw arweinwyr a rheolwyr y GCI yn gallu galluogi gwaith perthynol, personol ac o ansawdd uchel sy’n seiliedig ar dystiolaeth o fewn yr oriau sydd ar gael, y rhan fwyaf o’r amser, dylid cael dyfarniad negyddol.

**f) A yw llwythi gwaith yn cael eu rheoli’n weithredol, gydag adnoddau’n cael eu hadleoli, pan fo hyn yn rhesymol ac yn angenrheidiol, mewn ymateb i bwysau lleol?**

## Canllawiau:

Dylid dyrannu gwaith yn briodol a monitro ac addasu llwythi gwaith yn ôl yr angen i sicrhau bod llwythi achosion yn rhesymol ac yn addas ar gyfer natur y gwaith sy’n cael ei wneud. Dylai rheolwyr fynd ati i oruchwylio llwythi gwaith yn effeithiol, gyda chefnogaeth a her lle bo hynny’n briodol. Mae’r arwyddion bod rheolwyr yn gwneud hyn yn cynnwys staff yn dweud bod rheolwyr yn goruchwylio eu gwaith yn weithredol ac yn effeithiol, a’u bod yn cael eu cefnogi’n dda, a’u herio lle bo hynny’n briodol. Dylai fod yn amlwg bod goruchwyliaeth gan reolwyr yn cefnogi gwaith perthynol, personol o ansawdd uchel, sy’n seiliedig ar dystiolaeth, a’i fod yn cyfrannu at sicrhau canlyniadau cadarnhaol a chadw plant a chymunedau’n ddiogel.

Dylai gwaith gael ei ddyrannu’n briodol, gyda llwythi gwaith yn cael eu monitro a’u haddasu yn ôl yr angen. Dylid cael tystiolaeth bod hyn yn digwydd yn gyson ar draws pob rôl yn y GCI. Dylid cael set glir o flaenoriaethau i ddangos pa waith neu dasgau ddylai gael blaenoriaeth mewn cyfnodau o bwysau sylweddol a dylid cael tystiolaeth bod tasgau priodol yn cael eu blaenoriaethu. Gall pwysau, fel salwch, absenoldeb rhiant, ymddiswyddiadau, a chynnydd yn y llwyth gwaith, olygu bod angen adleoli adnoddau. Yn ogystal â blaenoriaethu gwaith, gallai hyn gynnwys symud staff rhwng tasgau neu leoliadau, neu ddarparu adnoddau ychwanegol, fel staff sesiynol neu asiantaeth. Dylai rheolaeth weithredol anelu at gynnal ansawdd y gwaith a blaenoriaethu’r rhai sy’n peri’r risg fwyaf. Nid dim ond ymateb i broblemau ddylai rheolwyr fod yn ei wneud.

Dylai rheolwyr gymryd gofal i osgoi gorlwytho rolau neu newid rôl. Mae gorlwytho rolau yn sefyllfa sy'n deillio o unigolyn yn ymgymryd â rôl neu rolau amryfal lle gofynnir iddo wneud mwy nag y mae'n gallu ei wneud mewn cyfnod penodol o amser (gorlwytho meintiol), neu lle mae'n cael ei ymestyn y tu hwnt i'w wybodaeth, ei sgiliau a'i alluoedd (gorlwytho ansoddol). Mae newid rôl yn digwydd pan fydd dyletswyddau gwaith craidd ar gyfer rôl neu raddfa benodol yn cael eu cyflawni fwyfwy gan staff eraill – fel arfer, pan fydd gwaith yn cael ei ddirprwyo i staff iau.

## Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi’i chwblhau
- taenlen data sefydliadol wedi’i chwblhau
- siart strwythur y sefydliad, a siart strwythur yn nodi lleoliad y gwasanaeth o fewn yr awdurdod lleol
- copi o’r cynllun strategol cyfiawnder ieuenctid diweddaraf
- manylion unrhyw staff ar secondiad, gan gynnwys swyddi gwag

- tystiolaeth parth dau

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- arolwg staff a gwirfoddolwyr

**Dyfarniad:**

Os oes prosesau ar waith i symud gwaith neu adnoddau staffio mewn ymateb i bwysau lleol, a bod enghreifftiau o hyn yn digwydd yn briodol, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Os nad oes prosesau ar waith i symud gwaith neu adnoddau staffio mewn ymateb i bwysau lleol, ac nad oes enghreifftiau o hyn yn digwydd yn briodol, dylid cael dyfarniad negyddol.

**1.2.2 A yw sgiliau a phroffil staff yn cefnogi'r dasg o ddarparu gwasanaeth ymatebol a phersonol o ansawdd uchel i sicrhau newid cadarnhaol, a chadw plant a chymunedau'n ddiogel?**

**a) A yw'r gweithlu'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth leol yn ddigonol?**

**Canllawiau:**

Dylai'r GCI gael gwybodaeth gyfredol am broffil y gweithlu, wedi'i mapio yn erbyn proffil y plant y mae'n eu goruchwylio.

Dylai GCIau fod yn cymryd camau i sicrhau gweithlu sy'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau lleol y maent yn eu gwasanaethu; mae hyn er mwyn hybu dealltwriaeth a hyder yn y ddarpariaeth, a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu dylunio i ddiwallu anghenion plant orau. Dylai arweinwyr GCI fod yn ymwybodol o amrywiaeth eu gweithlu a dylent fod yn gweithio'n rhagweithiol i sicrhau cysondeb â'r boblogaeth leol. Dylid cael yr wybodaeth ddiweddaraf am broffil y gweithlu, ar draws pob rôl. Os nad yw proffil y gweithlu'n adlewyrchu proffil amrywiaeth y boblogaeth leol, dylid cymryd camau i fynd i'r afael â hyn.

**Tystiolaeth:**

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- taenlen data sefydliadol wedi'i chwblhau
- manylion unrhyw staff ar secondiad, gan gynnwys swyddi gwag

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI

- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- arolwg staff a gwirfoddolwyr

### Dyfarniad:

Os yw amrywiaeth ar draws pob rôl yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth ehangach yn ddigonol, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Os nad yw amrywiaeth ar draws y gweithlu, gan gynnwys rheolwyr, staff a gwirfoddolwyr, yn adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth ehangach yn ddigonol, ac nad yw hyn yn ddealladwy a/neu nad oes unrhyw gamau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn, dylid cael dyfarniad negyddol.

**b) A yw sgiliau ac amrywiaeth y gweithlu'n diwallu anghenion plant?**

### Canllawiau:

Yn eu gweithlu, dylai'r GCIau sicrhau bod ganddynt y cydbwysedd cywir o sgiliau ac amrywiaeth i ddiwallu anghenion plant. Mae hyn yn cynnwys y canlynol, ymysg pethau eraill:

Ystod o staff gweithredol gyda:

- sgiliau rheoli plant sydd â gwahanol lefelau o risg o niwed a bregusrwydd, plant gwrywaidd a benywaidd, y rhai sy'n profi neu'n cyflawni cam-drin domestig, plant sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol a'r rhai sy'n gysylltiedig â gangiau
- sgiliau defnyddio amrywiaeth o offer asesu
- amrywiaeth o sgiliau ymyrryd, gan gynnwys gwaith grŵp os yw'n berthnasol
- sgiliau gweithio gydag amrywiaeth o asiantaethau partner a'r sector gwirfoddol.

Gwirfoddolwyr sydd:

- yn meddu ar wybodaeth a phrofiad o gefnogi plant
- mentora plant
- gweithredu fel 'oedolion priodol'
- cefnogi a chadeirio paneli Gorchmynion Atgyfeirio.

Staff cefnogi sy'n gallu:

- cefnogi goruchwylio achosion
- rheoli cyfleusterau
- cefnogi'r gwaith o gyflawni prosesau blaen swyddfa a chefn swyddfa.

Rheolwyr sy'n gallu rheoli:

- gweithrediadau
- pobl

- partneriaethau
- gwybodaeth
- adnoddau.

**Tystiolaeth:**

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- taenlen data sefydliadol wedi'i chwblhau
- manylion unrhyw staff ar secondiad, gan gynnwys swyddi gwag
- tystiolaeth parth dau

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- arolwg staff a gwirfoddolwyr

**Dyfarniad:**

Os yw sgiliau ac amrywiaeth y gweithlu'n ddigonol i ddiwallu anghenion plant, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Os nad yw sgiliau ac amrywiaeth y gweithlu'n ddigonol i ddiwallu anghenion plant, dylid cael dyfarniad negyddol.

**c) A yw gwaith â phlant yn cael ei ddyrannu i staff sydd â'r cymwysterau a/neu'r profiad priodol?**

**Canllawiau:**

Dylai fod gan y GCI bolisi clir ar gyfer dyrannu achosion risg ganolig, uchel ac uchel iawn o niwed, ac achosion lle ceir pryderon ynghylch diogelwch a llesiant. Dylai prosesau ar gyfer dyrannu achosion gael eu gweithredu a'u monitro'n effeithiol i sicrhau bod gan staff sydd ag achosion risg ganolig, uchel ac uchel iawn o niwed, ac achosion lle ceir pryderon ynghylch diogelwch a llesiant, gymwysterau a/neu brofiad addas. Ni ddylid dyrannu'r achosion hyn i staff heb gymwysterau nac i staff amhrofiadol. Dylai fod gan y GCI weithdrefnau ar waith i benderfynu pwy sydd â'r cymwysterau a/neu'r profiad priodol i gynnal yr achosion hynny. Dylai'r GCI gynnal panel risg rheolaidd, wedi'i gadeirio gan reolwr, lle trafodir ac adolygir achosion a dyrennir adnoddau yn ôl yr angen.

**Tystiolaeth:**

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd

- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- taenlen data sefydliadol wedi'i chwblhau
- manylion unrhyw staff ar secondiad, gan gynnwys swyddi gwag
- tystiolaeth parth dau

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- arolwg staff a gwirfoddolwyr

### Dyfarniad:

Pan fydd gwaith gyda phlant yn cael ei ddyrannu mewn ffordd sy'n sicrhau bod risg yn cael ei rheoli'n effeithiol ac yn mynd i'r afael â phryderon ynghylch diogelwch a llesiant, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan nad yw gwaith gyda phlant yn cael ei ddyrannu mewn ffordd sy'n sicrhau bod risg yn cael ei rheoli'n effeithiol a/neu'n mynd i'r afael â phryderon ynghylch diogelwch a llesiant, dylid cael dyfarniad negyddol.

**d) A yw anghenion dysgu'r staff yn cael eu nodi a'u diwallu?**

### Canllawiau:

Dylai fod gan y GCI systemau ar waith i ganfod anghenion dysgu ei holl staff, gan gynnwys gwirfoddolwyr, ynghyd â phroffil/dadansoddiad cyfredol (o fewn y 12 mis diwethaf) o anghenion hyfforddi. Dylai'r GCI allu dangos ei fod yn cynllunio ar gyfer, ac yn ymateb yn effeithiol i anghenion staff a gwirfoddolwyr a nodwyd, ar gyfer y grŵp staff yn ei gyfanrwydd a lle mae anghenion unigol wedi cael eu nodi. Dylid adolygu anghenion dysgu yn rheolaidd.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- taenlen data sefydliadol wedi'i chwblhau
- trosolwg o hyfforddiant staff ar gyfer rheolwyr achos a rheolwyr canol yn y 12 mis diwethaf

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)

- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- arolwg staff a gwirfoddolwyr

### Dyfarniad:

Os oes systemau effeithiol ar waith sy'n nodi anghenion dysgu staff, a bod yr anghenion dysgu hyn yn cael eu diwallu, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Os nad oes systemau effeithiol ar waith i ganfod anghenion dysgu staff, a/neu os nad yw'r anghenion dysgu hyn yn cael eu diwallu, dylid cael dyfarniad negyddol.

**e) Ydy diwylliant o ddysgu a gwelliant parhaus yn cael ei hyrwyddo?**

### Canllawiau:

Dylai'r GCI allu dangos ei fod yn hyrwyddo ac yn gwerthfawrogi diwylliant o ddysgu a gwelliant parhaus. Dylai prosesau sicrhau ansawdd/archwilio fod ar waith i gefnogi gwelliant parhaus, er enghraifft lleihau nifer yr achosion, hap-samplu achosion a chyfleoedd cefnogaeth gan gymheiriaid. Dylai'r GCI ymateb i argymhellion arolygiadau, y rheini sy'n benodol i'r GCI, a'r rheini o arolygiadau thematig. Dylai'r GCI allu dangos sut y mae'n defnyddio gwersi o sefyllfaoedd sydd wedi mynd o chwith i wella gwasanaethau.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- unrhyw ddata sydd ar gael am gyfrannau plant 10 i 17 oed yn ardal y GCI sy'n Ddu, Asiaidd neu o gefndir ethnig leiafrifol (efallai y bydd y data hwn ar gael gan yr awdurdod lleol)
- unrhyw ddata sydd ar gael sy'n dadansoddi nodweddion gwarchodedig plant sy'n gweithio gyda'r GCI (gan gynnwys hil a tharddiad ethnig, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol ac unrhyw ffactorau eraill y mae data ar gael ar eu cyfer) ar draws gwahanol ddatrysiadau
- copi o unrhyw bolisïau tegwch, amrywiaeth, anghymesuredd a/neu gynhwysiant a/neu gynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag effaith canfyddiadau o ddadansoddi data
- unrhyw ddata sydd ar gael sy'n dadansoddi lefelau'r risg o niwed difrifol a diogelwch a llesiant plant, ar draws gwahanol ddatrysiadau
- unrhyw archwiliadau neu werthusiad perthnasol o ansawdd y gwaith gyda phlant

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)

- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- arolwg staff a gwirfoddolwyr

**Dyfarniad:**

Lle mae'r GCI wedi ymrwymo i ddiwylliant o ddysgu a gwelliant parhaus ac yn gallu dangos tystiolaeth o amrywiaeth o enghreifftiau diweddar (yn ystod y 12 mis diwethaf) o sut y mae hyn yn gweithio'n ymarferol, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Lle nad oes gan y GCI ddiwylliant o ddysgu a gwelliant parhaus, dylid cael dyfarniad negyddol.

**f) Ydy potensial staff yn cael ei nodi a'i ddatblygu?**

**Canllawiau:**

Dylai'r GCIau nodi a chefnogi potensial staff. Gellir gwneud hyn mewn amryw o ffyrdd, fel hyfforddi, mentora, cysgodi swyddi a dyrchafiadau dros dro, i ddarparu cyfleoedd i staff brofi eu galluoedd a bod yn addas ar gyfer rolau uwch. Dylai GCIau nodi staff o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli a rhoi cyfleoedd iddynt a fydd yn eu paratoi i symud ymlaen.

Mae datblygu staff yn hanfodol i sicrhau cyflenwad digonol o staff cymwys, addas, profiadol a hyfforddedig i lenwi rolau allweddol wrth iddynt ddod yn wag. Mae hefyd yn rhan bwysig o ddatblygiad staff ac yn ysgogydd pwysig i annog staff i wella a gwneud cynnydd. Dylai fod gan y GCIau strategaeth ar gyfer cynllunio olyniaeth fel rhan o'u trefniadau datblygu staff. Dylai'r strategaeth gynnwys sut y mae staff yn cael eu nodi a'u hystyried ar gyfer cynnydd yn unol â chyfleoedd cyfartal ac amrywiaeth y GCI.

**Tystiolaeth:**

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- taenlen data sefydliadol wedi'i chwblhau
- siart strwythur y sefydliad, a siart strwythur yn nodi lleoliad y gwasanaeth o fewn yr awdurdod lleol
- trosolwg o hyfforddiant staff ar gyfer rheolwyr achos a rheolwyr canol yn y 12 mis diwethaf
- manylion unrhyw staff ar secondiad, gan gynnwys swyddi gwag

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- arolwg staff a gwirfoddolwyr

**Dyfarniad:**

Lle mae yna agwedd strategol tuag at gynllunio ar gyfer olyniaeth ac enghreifftiau clir lle mae hyn wedi gweithredu'n ymarferol gydag unigolion, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Lle nad oes agwedd strategol tuag at gynllunio ar gyfer olyniaeth a/neu nad oes enghreifftiau clir lle mae hyn wedi gweithredu'n ymarferol gydag unigolion, dylid cael dyfarniad negyddol.

**1.2.3 A yw goruchwylio gwaith yn cefnogi'r ddarpariaeth o wasanaeth ymatebol a phersonol o ansawdd uchel i sicrhau newid cadarnhaol, a chadw plant a chymunedau'n ddiogel?**

**a) A oes rhaglen gynefino effeithiol yn cael ei darparu i staff newydd sy'n rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud ag amrywiaeth ac sy'n hygyrch i bawb?**

**Canllawiau:**

Dylai'r GCI gael rhaglen gynefino effeithiol sy'n cynnwys prosesau cynefino cynhwysfawr ac amserol ar gyfer yr holl staff sy'n ymuno â'r GCI. Dylai gwybodaeth gyffredinol am weithio yn y GCI fod yn rhan o'r rhaglen, beth bynnag fo'ch rôl. Dylai hyn gynnwys y rhain o leiaf: tegwch ac amrywiaeth, trefniadau iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf, diogelu, golwg gyffredinol ar y system cyfiawnder ieuenctid, yr amrywiaeth o waith y mae'r GCI yn ymwneud ag ef a swyddogaethau staff yn y GCI. Dylai'r rhaglen gynefino hefyd gynnig hyblygrwydd er mwyn gallu ei theilwra i rôl yr aelod unigol o staff, ei sgiliau a'i brofiad ac unrhyw anghenion dysgu a nodwyd. Dylai deunyddiau'r rhaglen gynefino gael eu paratoi a'u cyflwyno'n dda mewn ffordd hwylus. Er enghraifft, gallai pecyn cynefino gynnwys sesiynau briffio, sesiynau un-i-un, sesiynau grŵp, llyfrau gwaith, cyflwyniadau ac adnoddau TG. Dylid goruchwylio prosesau cynefino'n effeithiol er mwyn sicrhau bod y gwahanol elfennau'n cael eu cwblhau'n foddhaol ac yn brydlon.

**Tystiolaeth:**

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- golwg gyffredinol ar y rhaglen gynefino a'r disgwyliadau o ran ei chwblhau

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- arolwg staff a gwirfoddolwyr

**Dyfarniad:**

Os oes dull cyson, cynhwysfawr a hygyrch ar gyfer cynefino, sy'n cael ei gadarnhau gan staff a benodwyd yn ddiweddar, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Os yw dull gweithredu cynefino yn anghyson, yn gyfyngedig neu'n anhygyrch a/neu os oes enghreifftiau o staff diweddar nad ydynt wedi bod drwy broses gynefino, dylid cael dyfarniad negyddol.

**b) A yw staff yn derbyn goruchwyliaeth effeithiol sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n eu cefnogi ac yn eu galluogi i fabwysiadu dull perthynol o weithio gyda phlant?**

## Canllawiau:

Dylai staff a gwirfoddolwyr ar bob lefel ar draws y GCI gael eu goruchwylio'n effeithiol, a dylid teilwra hyn i natur eu gwaith a'u cam datblygu a'u hanghenion dysgu unigol. Dylai roi sylw i gefnogaeth a datblygiad personol, yn ogystal ag atebolrwydd am waith o fewn rôl neu ddisgrifiad swydd yr unigolyn. Gall gynnwys goruchwyliaeth grŵp. Dylai fod gan y GCI bolisi goruchwylio sy'n nodi sut y cynhelir goruchwyliaeth, ei nodau, pa mor aml y dylai ddigwydd, a beth y gall y rhai sy'n cael eu goruchwylio ei ddisgwyl. Dylai unrhyw gysylltiadau â pholisïau arfarnu fod yn glir. Dylai goruchwyliaeth fod yn rhan o brosesau sicrhau ansawdd y GCI.

Dylid blaenoriaethu goruchwyliaeth a dylai ddigwydd yn rheolaidd, er enghraifft bob mis, yn dibynnu ar faint o brofiad sydd gan yr aelod o staff. Ni ddylid cyfyngu'r ffocws i sicrhau bod targedau'n cael eu cyrraedd; dylai hefyd gynnwys sut y mae staff yn dysgu, yn datblygu ac yn defnyddio sgiliau a fydd yn gwella ansawdd y gwaith gyda phlant. Rhaid neilltuo digon o amser a lle ar gyfer goruchwylio er mwyn gallu trafod plant unigol. Ar gyfer yr unigolion hynny sy'n darparu ymyriadau'n uniongyrchol gyda phlant, gall gynnwys goruchwyliaeth fyw i roi adborth ar ansawdd eu hymyriadau, y sgiliau y maent wedi'u dangos a meysydd i'w gwella. Dylai rheolwyr gydnabod bod gweithio mewn ffordd berthynol gyda rhai plant yn anodd yn emosiynol a sicrhau bod cefnogaeth briodol ar gael lle bo angen os yw staff i barhau i gyflawni gwaith o ansawdd uchel heb gael eu llethu.

## Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- polisi a phroses goruchwylio a sicrhau ansawdd

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- arolwg staff a gwirfoddolwyr

## Dyfarniad:

Lle ceir trefniadau goruchwylio sy'n cefnogi staff i ddarparu gwaith effeithiol, perthynol gyda phlant, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Lle nad yw trefniadau goruchwylio’n cefnogi staff i ddarparu gwaith effeithiol, perthynol gyda phlant, dylid cael dyfarniad negyddol.

**c) A oes trefniadau goruchwyliaeth rheolwyr effeithiol ar waith er mwyn gwella a chynnal ansawdd y gwaith gyda phlant?**

## Canllawiau:

Mae goruchwyliaeth effeithiol rheolwyr yn llawer mwy na chydlofnodi. Mae’n cynnwys elfennau o sicrhau ansawdd, goruchwylio staff, delio â meysydd sy’n peri pryder mewn gwaith gyda phlant unigol, a hwyluso gwelliannau mewn ymarfer. Mae’n canolbwyntio’n benodol ar sicrhau bod dioddefwyr gwirioneddol neu bosibl a phlant eu hunain, yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol rhag niwed. Mae ein datganiad polisi llawn ar oruchwyliaeth rheolwyr ar gael yma: [HM Inspectorate of Probation management oversight (justiceinspectorates.gov.uk).](justiceinspectorates.gov.uk)

Mae goruchwylio’r risg o niwed a gweithio i sicrhau diogelwch plant a’r gymuned yn wahanol i oruchwylio staff yn rheolaidd a goruchwylio ymarfer yn gyffredinol. Fodd bynnag, weithiau bydd yn cael ei wneud ar yr un pryd, a gall trafodaethau goruchwylio helpu i nodi’r angen am oruchwyliaeth rheolwyr. Yn benodol, dylai goruchwyliaeth y rheolwyr ganolbwyntio ar achosion y mae’r GCI wedi asesu eu bod yn peri risg ganolig neu uwch o niwed i eraill, neu fel lefel ganolig neu uwch o ran anghenion diogelwch a llesiant. Fodd bynnag, dylai rheolwyr hefyd fod yn ymwybodol o achosion nad ydynt yn cael eu hasesu ar hyn o bryd ar y lefelau risg hyn o niwed neu ddiogelwch a llesiant, ond sydd â’r potensial i gynyddu, a dylent eu monitro’n weithredol.

Mae goruchwyliaeth effeithiol rheolwyr yn ystyried gofynion unigryw gweithio gyda phlentyn unigol, a sgiliau, gwybodaeth a phrofiad yr ymarferydd. Gall rheolwr medrus, sy'n edrych o'r newydd ar achos ac yn arfer chwilfrydedd proffesiynol, annog ymarferydd i arfer ansicrwydd parchus a meddwl yn feirniadol, mynd i'r afael ag unrhyw optimistiaeth broffesiynol ar gam a chael safbwynt cytbwys a gwybodus. Mae hyn yn hyrwyddo gwneud penderfyniadau y gellir eu hamddiffyn ac yn galluogi’r ymarferydd i deimlo’n hyderus a theimlo ei fod yn cael ei gefnogi i reoli risg a nodi ymyriadau ac ymatebion priodol. Mae hyn yn gofyn am reolwyr a staff sydd wedi’u hyfforddi’n ddigonol, agwedd broffesiynol chwilfrydig, a sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i alluogi goruchwyliaeth effeithiol gan reolwyr.

Ar ba lefel bynnag y mae goruchwyliaeth gan reolwyr – sicrwydd ansawdd y broses, goruchwyliaeth gan oruchwylwyr, neu reoli risg uniongyrchol – dylai goruchwyliaeth effeithiol rheolwyr arwain at sicrwydd digonol bod popeth y dylid ei wneud yn cael ei wneud.

## Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi’i chwblhau
- tystiolaeth parth dau
- polisi goruchwyliaeth gan reolwyr

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI

- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- arolwg staff a gwirfoddolwyr

**Dyfarniad:**

Pan fydd gweithgarwch a threfniadau goruchwylio'r rheolwyr yn dangos gwahaniaeth cadarnhaol i ansawdd y gwaith a wneir, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Os yw trefniadau a gweithgarwch goruchwylio'r rheolwyr yn anghyson a/neu os nad ydynt yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i ansawdd y gwaith a wneir, dylid cael dyfarniad negyddol.

**d) A yw'r broses arfarnu'n cael ei defnyddio'n effeithiol i sicrhau bod staff yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel?**

**Canllawiau:**

Dylid arfarnu staff o leiaf unwaith y flwyddyn a hynny o fewn fframwaith rheoli perfformiad, yn unol â'u rôl a'r anghenion datblygu a nodwyd. Dylid defnyddio rheoli perfformiad i wella gwasanaethau'n weithredol. Ar gyfer staff ar secondiad, dylid cael cysylltiadau cydlynol rhwng y GCI a'r rhiant-sefydliad mewn perthynas â'r broses arfarnu. Dylai arfarniadau gynnwys amcanion realistig i wella ymarfer a pherfformiad; dylent nodi'n glir i'r aelodau staff sut y maent yn perfformio, gan roi cadarnhad ac adborth datblygiadol.

**Tystiolaeth:**

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- tystiolaeth parth dau
- polisi a phroses arfarnu/perfformiad staff

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- arolwg staff a gwirfoddolwyr

**Dyfarniad:**

Pan fydd arfarniadau effeithiol a rheolaidd yn cael eu cynnal fel mater o drefn, gydag amcanion priodol yn cael eu gosod, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Lle nad yw arfarniadau'n cael eu cynnal yn effeithiol ac yn rheolaidd, a/neu nad yw amcanion priodol yn cael eu gosod, dylid cael dyfarniad negyddol.

**e) A yw perfformiad staff gwael yn cael ei nodi ac yn cael sylw?**

### Canllawiau:

Dylai fod gan y GCI weithdrefnau ffurfiol ar waith i fynd i'r afael â chymhwysedd staff; dylai hyn olygu bod modd canfod ac ymateb yn gadarn i berfformiad gwael. Dylai'r arolygydd arweiniol wirio, lle nodwyd perfformiad gwael, bod y GCI yn dryloyw gyda'r aelodau staff hynny ynghylch y diffygion yn eu hymarfer, a bod gwelliannau mewn ymarfer yn cael eu monitro'n effeithiol. Dylid defnyddio prosesau sicrhau ansawdd i ysgogi gwelliannau mewn perfformiad ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir i blant.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- polisi a phroses arfarnu/perfformiad staff

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- arolwg staff a gwirfoddolwyr

### Dyfarniad:

Lle mae'r GCI yn nodi tanberfformiad ac yna'n defnyddio prosesau gwella perfformiad effeithiol yn gyson, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Lle nad yw'r GCI yn nodi tanberfformiad a/neu lle nad yw'n defnyddio prosesau gwella perfformiad effeithiol yn gyson, dylid cael dyfarniad negyddol.

**f) Lle defnyddir gwirfoddolwyr a mentoriaid, a ydynt yn cael eu cefnogi i gyflawni rolau sydd wedi'u diffinio'n glir?**

### Canllawiau:

Mae gwirfoddolwyr a mentoriaid yn cyfeirio at bobl o amrywiaeth o gefndiroedd, gan gynnwys y rhai a allai fod â 'phrofiad bywyd' o'r system cyfiawnder troseddol. Dylai pawb

gael eu recriwtio a'u dewis yn ddiogel drwy gyfweliad, yn dilyn archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chan ofyn am eirdaon; ar gyfer y rheini sydd â phrofiad blaenorol o'r system cyfiawnder troseddol, dylai'r broses a'r penderfyniadau a wneir gael eu cymeradwyo gan reolwr sydd â lefel briodol o statws.

Dylid cael disgrifiadau rôl clir, a dylid diffinio tasgau'n ofalus. Dylid cefnogi gwirfoddolwyr a mentoriaid, gyda threfniadau ar gyfer goruchwyliaeth briodol ar waith. Dylid cael atebolrwydd clir am waith drwy strwythur rheoli diffiniedig, a darparu hyfforddiant a goruchwyliaeth briodol. Dylid bod yn ofalus wrth gysylltu pobl â thasgau ac unigolion, a rhaid cadw cofnodion o weithgareddau a'u rhannu ag ymarferwyr perthnasol, a'u cofnodi mewn systemau rheoli achosion.

## Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- siart strwythur y sefydliad
- tystiolaeth parth dau

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)

## Dyfarniad:

Os oes gan y GCI bolisi clir ar gyfer recriwtio, dethol, hyfforddi, cefnogi, goruchwylio a defnyddio gwirfoddolwyr a mentoriaid, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Lle nad oes gan y GCI bolisi clir ar gyfer recriwtio, dethol, hyfforddi, cefnogi, goruchwylio a defnyddio gwirfoddolwyr a mentoriaid, dylid cael dyfarniad negyddol.

## 1.3 Partneriaethau a gwasanaethau

**Mae ystod gynhwysfawr o wasanaethau ymatebol a phersonol o ansawdd uchel ar waith, gan gyflawni newid cadarnhaol a chadw plant a chymunedau'n ddiogel.**

**1.3.1 A oes gan y GCI ddadansoddiad cyfredol a chynhwysfawr o broffil plant, y mae'n ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau sydd wedi'u targedu'n dda?**

**a) A oes yna ddadansoddiad cyfredol o anghenion pob plentyn?**

### Canllawiau:

Dylai fod gan y GCI dadansoddiad cyfredol o'r anghenion a gyflwynir gan y plant y mae'n gweithio gyda hwy. Mae'n hanfodol bod gan y GCI ddealltwriaeth gynhwysfawr, ar lefel strategol a gweithredol, o'r anghenion amlwg. Dylai'r GCI fod wedi cwblhau'r dadansoddiad hwn yn ystod y 12 mis diwethaf gan ddefnyddio offer asesu cymeradwy ac ymchwil a gwybodaeth arall, gan gynnwys safbwyntiau staff a phlant.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- unrhyw ddata sydd ar gael am gyfrannau plant 10 i 17 oed yn ardal y GCI sy'n Ddu, Asiaidd neu o gefndir ethnig leiafrifol (efallai y bydd y data hwn ar gael gan yr awdurdod lleol)
- unrhyw ddata sydd ar gael sy'n dadansoddi nodweddion gwarchodedig plant sy'n gweithio gyda'r GCI (gan gynnwys hil a tharddiad ethnig, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol ac unrhyw ffactorau eraill y mae data ar gael ar eu cyfer) ar draws gwahanol ddatrysiadau
- unrhyw ddata sydd ar gael sy'n dadansoddi lefelau'r risg o niwed difrifol a diogelwch a llesiant plant, ar draws gwahanol ddatrysiadau

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI

### Dyfarniad:

Os oes dadansoddiad o anghenion plant a gwblhawyd yn ystod y 12 mis diwethaf, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan nad oes dadansoddiad o anghenion plant wedi'i gwblhau yn ystod y 12 mis diwethaf, dylid cael dyfarniad negyddol.

**b) A yw'r dadansoddiad yn rhoi digon o sylw i ffactorau sy'n ymwneud â sicrhau newid cadarnhaol a chadw plant a chymunedau'n ddiogel?**

### Canllawiau:

Dylai dadansoddiad o anghenion y GCI ddangos bod ganddo ddealltwriaeth gynhwysfawr o'r risgiau i'r plant yn ei garfan o ran diogelwch a llesiant, ac o'r risg o niwed y maent yn ei beri i eraill. Dylai hyn alluogi'r GCI i dargedu adnoddau lle gall ddiwallu anghenion orau er mwyn cyflawni newid cadarnhaol gyda phlant a chadw plant a chymunedau'n ddiogel. Dylai

gynnwys dedfrydau o garchar, gorchmynion llys, datrysiadau y tu allan i'r llys, mechnïaeth a remánd ac anghenion plant sy'n defnyddio gwasanaethau oedolion priodol. Dylai fod digon o wybodaeth ar gael a dylai fod o ansawdd da.

## Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- unrhyw archwiliadau neu werthusiad perthnasol o ansawdd y gwaith gyda phlant
- unrhyw ddata sydd ar gael sy'n dadansoddi nodweddion gwarchodedig plant sy'n gweithio gyda'r GCI (gan gynnwys hil a tharddiad ethnig, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol ac unrhyw ffactorau eraill y mae data ar gael ar eu cyfer) ar draws gwahanol ddatrysiadau
- unrhyw ddata sydd ar gael sy'n dadansoddi lefelau'r risg o niwed difrifol a diogelwch a llesiant plant, ar draws gwahanol ddatrysiadau
- dadansoddiad cyfredol (o fewn y 12 mis diwethaf) o droseddu gan blant a'u hymataliad, sy'n rhoi digon o sylw i'r risgiau i blant yn ei garfan o ran diogelwch a llesiant, ac i'r risg o niwed y maent yn ei beri i eraill
- dylai'r dadansoddiad gael ei segmentu'n ddigonol i ddarparu proffil gwybodus o ddaearyddiaeth, grŵp oedran a rhywedd, mathau o droseddau a dedfrydau/datrysiadau y tu allan i'r llys/mechnïaeth a gwasanaethau remánd/oedolion priodol

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI

## Dyfarniad:

Pan fydd y dadansoddiad o anghenion plant yn gynhwysfawr ac yn mynd i'r afael â ffactorau i sicrhau newid cadarnhaol a chadw plant a chymunedau'n ddiogel ar draws pob math o ymyriadau, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan nad yw'r dadansoddiad o anghenion plant yn gynhwysfawr a/neu os nad yw'n rhoi sylw digonol i ffactorau i sicrhau newid cadarnhaol a chadw plant a chymunedau'n ddiogel ar draws pob math o ymyriadau, dylid cael dyfarniad negyddol.

**c) A yw'r dadansoddiad yn rhoi digon o sylw i ffactorau amrywiaeth a materion anghymesuredd?**

## Canllawiau:

Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau ar gael, yn briodol ac yr un mor effeithiol i grwpiau o blant sydd â nodweddion amrywiaeth gwahanol, mae'n bwysig bod y GCI yn gwybod beth yw anghenion gwahanol grwpiau o blant ac yn gallu gweithredu ar sail yr anghenion hynny. Dylai'r GCI allu dangos dealltwriaeth o ble mae grwpiau â nodweddion amrywiaeth gwahanol yn cael eu cynrychioli'n anghymesur a beth mae'n ei wneud am hyn gyda phartneriaid cyfiawnder troseddol eraill. Gall enghreifftiau gynnwys cynigion ar gyfer dedfrydau, asesiadau risg o niwed, mathau o ymyriadau ac achosion tor-amod. Dylai'r GCI fod wedi cwblhau asesiad o effaith amrywiaeth.

## Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- unrhyw ddata sydd ar gael sy'n dadansoddi nodweddion gwarchodedig plant sy'n gweithio gyda'r GCI (gan gynnwys hil a tharddiad ethnig, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol ac unrhyw ffactorau eraill y mae data ar gael ar eu cyfer) ar draws gwahanol ddatrysiadau
- unrhyw ddata sydd ar gael sy'n dadansoddi lefelau'r risg o niwed difrifol a diogelwch a llesiant plant, ar draws gwahanol ddatrysiadau
- dadansoddiad cyfredol (o fewn y 12 mis diwethaf) o droseddu gan blant a'u hymataliad, sy'n rhoi digon o sylw i'r risgiau i blant yn ei garfan o ran diogelwch a llesiant, ac i'r risg o niwed y maent yn ei beri i eraill

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI

## Dyfarniad:

Pan fydd gwybodaeth berthnasol am anghenion plant, wedi'i rhannu yn ôl nodweddion gwarchodedig, wedi cael ei chasglu a'i dadansoddi i lywio'r gwaith o gynllunio a chomisiynu gwasanaethau, gan egluro a mynd i'r afael â materion anghymesuredd, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan nad yw gwybodaeth berthnasol am anghenion plant wedi cael ei chasglu a'i dadansoddi i lywio'r gwaith o gynllunio a chomisiynu gwasanaethau a/neu nad yw wedi'i rhannu yn ôl nodweddion gwarchodedig a/neu nad yw'n egluro ac yn mynd i'r afael â materion anghymesuredd, dylid cael dyfarniad negyddol.

**d) A oes dadansoddiad digonol o batrymau lleol o ran dedfrydu, mathau o droseddau a defnyddio datrysiadau y tu allan i'r llys?**

## Canllawiau:

Er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau ac ymyriadau priodol yn ei ardal, rhaid i'r GCI ddadansoddi patrymau troseddu, a nifer, math a thueddiadau o ran y dedfrydau a roddir dros amser. Mae patrymau troseddu yn debygol o gael eu cyfuno ond dylid eu hategu gan wybodaeth fwy penodol am ba mor gyffredin yw mathau o droseddu difrifol gan blant, er enghraifft ymddygiad sy'n gysylltiedig â gangiau neu ymddygiad rhywiol niweidiol. Dylai'r GCI feincnodi ei ddadansoddiad o dueddiadau a phatrymau dedfrydu yn erbyn ffigurau cenedlaethol a rhanbarthol er mwyn nodi amrywiadau sylweddol.

## Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- unrhyw ddata sydd ar gael sy'n dadansoddi nodweddion gwarchodedig plant sy'n gweithio gyda'r GCI (gan gynnwys hil a tharddiad ethnig, crefydd, anabledd,

cyfeiriadedd rhywiol ac unrhyw ffactorau eraill y mae data ar gael ar eu cyfer) ar draws gwahanol ddatrysiadau

- unrhyw ddata sydd ar gael sy'n dadansoddi lefelau'r risg o niwed difrifol a diogelwch a llesiant plant, ar draws gwahanol ddatrysiadau
- dadansoddiad cyfredol (o fewn y 12 mis diwethaf) o droseddu gan blant a'u hymataliad, sy'n rhoi digon o sylw i'r risgiau i blant yn ei garfan o ran diogelwch a llesiant, ac i'r risg o niwed y maent yn ei beri i eraill

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI

**Dyfarniad:**

Pan fo'r GCI wedi ystyried a dadansoddi'r data troseddu a dedfrydu lleol diweddaraf gan yr heddlu a'r ardaloedd barnwrol y maent yn ymwneud â hwy, ac wedi defnyddio hyn i gynllunio ymateb priodol, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan nad yw'r GCI wedi ystyried a dadansoddi'n ddigonol y data troseddu a dedfrydu lleol diweddaraf gan yr heddlu a'r ardaloedd barnwrol y maent yn ymwneud â hwy, a/neu nad yw wedi defnyddio hyn i gynllunio ymateb priodol, dylid cael dyfarniad negyddol.

**e) A yw'r dadansoddiad yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i sbarduno'r ddarpariaeth o wasanaethau?**

**Canllawiau:**

Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau priodol sydd wedi'u targedu'n dda yn cael eu cynllunio a'u darparu, dylai dadansoddiad y GCI gynhyrchu digon o wybodaeth ystyrlon i ddylanwadu ar ddarparu gwasanaethau. Dylai'r dadansoddiad gynnwys troseddu, ymatal, diogelwch a llesiant, risg o niwed i eraill a ffactorau amrywiaeth, yn ogystal â dedfrydu a mathau o droseddau. Dylai'r GCI allu dangos ei fod wedi defnyddio'r dadansoddiad fel sail ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau ac ymyriadau priodol.

**Tystiolaeth:**

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- copi o'r cynllun strategol cyfiawnder ieuenctid diweddaraf
- cofnodion y bwrdd rheoli o'r 12 mis diwethaf
- dadansoddiad o adborth gan blant, rhieni a gofalwyr, a chynlluniau gweithredu cysylltiedig
- unrhyw archwiliadau neu werthusiad perthnasol o ansawdd y gwaith gyda phlant
- cyfeiriadur o brosiectau, gweithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael i blant

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)

## Dyfarniad:

Pan fo'r GCI wedi casglu a dadansoddi digon o wybodaeth am anghenion plant i lywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau'n effeithiol, ac wedi ystyried materion anghymesuredd yn llawn, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan nad yw'r GCI wedi casglu a dadansoddi digon o wybodaeth am anghenion plant i lywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau'n effeithiol, a/neu nad yw wedi ystyried materion anghymesuredd yn llawn, dylid cael dyfarniad negyddol.

**f) A yw'r dadansoddiad yn cynnwys barn plant, rhieni a gofalwyr am y gwasanaethau y maent yn eu derbyn?**

## Canllawiau:

Er mwyn darparu'r ystod iawn o wasanaethau ac ymyriadau, sy'n ymateb i anghenion unigol, mae'n hanfodol bod gan y GCI ddealltwriaeth wybodus o'r rhesymau pam fod plant wedi troseddu a beth fydd yn eu helpu i roi'r gorau i droseddu. Dylai'r GCI fod wedi cwblhau dadansoddiad o hyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac efallai y byddai wedi'i alw'n 'asesiad o anghenion strategol'. Dylai hyn fynd ati i ymgorffori barn plant a theuluoedd am yr ystod o wasanaethau ac ymyriadau y maent yn eu derbyn.

Dylai'r dadansoddiad gynnwys ffactorau sy'n ymwneud â chyflawni canlyniadau cadarnhaol gyda phlant a chadw plant a chymunedau'n ddiogel. Er enghraifft:

- cryfder y cysylltiadau proffesiynol a'r ymgysylltu
- cyd-destunau cymdeithasol a theuluol
- anghenion amrywiaeth
- cyfleoedd ar gyfer newid, cyfranogiad ac integreiddio cymunedol
- lefelau cymhelliant
- ymdeimlad o hunaniaeth a hunan-werth
- cyfleoedd i gymryd rhan mewn cyfiawnder adferol
- llety
- addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- cyllid, budd-daliadau a dyledion
- perthynas â phobl eraill
- llesiant emosiynol, gan gynnwys iechyd meddwl
- camddefnyddio cyffuriau
- camddefnyddio alcohol
- ffordd o feddwl ac ymddygiad
- agwedd at droseddu.

## Tystiolaeth:

**EiA**

- dadansoddiad o adborth gan blant, rhieni a gofalwyr, a chynlluniau gweithredu cysylltiedig
- strategaethau ymgysylltu â phlant, rhieni a gofalwyr
- cyfeiriadur o brosiectau, gweithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael i blant

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)

**Dyfarniad:**

Pan fo'r gwaith o gynllunio a chomisiynu gwasanaethau'n seiliedig ar ddadansoddiad cynhwysfawr o anghenion a risgiau plant, ac yn nodi sut y bydd y rhain yn cael eu diwallu, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan nad yw cynllunio a chomisiynu gwasanaethau'n seiliedig ar ddadansoddiad cynhwysfawr o anghenion a risgiau plant, a/neu nad ydynt yn nodi sut y bydd y rhain yn cael eu diwallu, dylid cael dyfarniad negyddol.

### 1.3.2 A yw partneriaeth y GCI yn darparu'r nifer, yr amrywiaeth a'r ansawdd o wasanaethau ac ymyriadau sy'n angenrheidiol i ddiwallu anghenion unigol pob plentyn?

#### a) A oes trefniadau effeithiol i sicrhau mynediad at y gwasanaethau arbenigol, prif ffrwd a dilynol priodol i ddiwallu anghenion pob plentyn?

Dylai'r GCI fod â threfniadau ar waith i sicrhau bod bob plentyn â mynediad at y gwasanaethau arbenigol, prif ffrwd a dilynol priodol i ddiwallu eu hanghenion. Dylai hyn gynnwys, ond ddim yn gyfyngedig i:

- llety
- addysg, hyfforddiant a chyflogaeth
- teulu a pherthnasoedd (fel cymorth magu plant a theuluoedd, cymorth cam-drin domestig, cynadleddau grŵp teuluol, a mentora)
- grwpiau a gangiau
- iechyd meddwl
- iechyd corfforol
- llesiant
- iechyd rhywiol
- gwneud iawn
- gofal cymdeithasol i blant
- anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu
- camddefnyddio sylweddau
- gwaith ymddygiad troseddol.

Dylai'r dadansoddiad o anghenion a nodwyd yn 1.3.1 arwain at gynllunio a darparu, ac atgyfeirio at, ystod briodol o wasanaethau arbenigol a phrif ffrwd i fynd i'r afael â'r

anghenion hyn, i hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol ac i gadw plant a chymunedau'n ddiogel. Dylai'r GCI fod wedi cynnal dadansoddiad o'r bylchau i ganfod lle mae diffyg darpariaeth a dylai fod ganddo gynlluniau i fynd i'r afael â hyn. Gall y ddarpariaeth gael ei gwneud yn fewnol gan y GCI, neu gellir ei chomisiynu, ei darparu mewn partneriaeth neu ei gwneud drwy lwybr atgyfeirio gyda sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau arbenigol, fel gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Dylid darparu gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n hygyrch ac yn briodol i amgylchiadau plant a gwneud yn siŵr bod digon ohonynt er mwyn osgoi rhestrau aros o dan amgylchiadau arferol. Dylai gwasanaethau fod ar gael i achosion ar ôl y llys ac i'r rheini sy'n destun datrysiadau y tu allan i'r llys.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- cyflwyno data'r dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) diweddaraf i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) (os na chaiff ei gynnwys gyda chofnodion y bwrdd)
- unrhyw archwiliadau neu werthusiad perthnasol o ansawdd y gwaith gyda phlant
- cyfeiriadur o brosiectau, gweithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael i blant
- copi o unrhyw bolisïau tegwch, amrywiaeth, anghymesuredd a/neu gynhwysiant a/neu gynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag effaith canfyddiadau o ddadansoddi data
- tystiolaeth parth dau

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- trafodaethau aml-asiantaeth am waith gyda phlant

### Dyfarniad:

Pan fydd trefniadau effeithiol i sicrhau bod y gwasanaethau cywir ar gael i ddiwallu anghenion plant, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan na fydd trefniadau effeithiol i sicrhau bod y gwasanaethau cywir ar gael i ddiwallu anghenion plant, dylid cael dyfarniad negyddol.

**b) A yw gwasanaethau ar gael yn amserol i bob plentyn?**

### Canllawiau:

Dylai gwasanaethau fod ar gael i blant heb ormod o amser aros. Mae hyn yn gofyn am adnoddau digonol ar gyfer gwasanaethau i ateb y galw'n hyblyg. Ar gyfer plant unigol, bydd amseroedd aros derbyniol yn cael eu pennu gan eu hanghenion a'r cyfnod y byddant yn gweithio gyda'r GCI.

Dylai gwasanaethau priodol fod ar gael i blant heb orfod teithio gormod. Diffinnir gormod o amser teithio fel mwy nag awr o amser teithio bob ffordd. Yn ddelfrydol, dylent fod ar gael yn rhwydd ar drafnidiaeth gyhoeddus, er enghraifft o fewn pellter cerdded rhesymol i orsaf drên/llwybr bws. Pan fydd adeiladau, lleoliadau a safleoedd y GCI yn bell yn ddaearyddol, fel mewn ardaloedd gwledig heb lawer o boblogaeth, dylai'r GCI ystyried sut y gall gynnwys plant heb iddynt orfod treulio gormod o amser yn teithio. Er enghraifft, gallai ddarparu cyfleoedd i blant gael gwasanaethau wyneb yn wyneb mewn lleoliadau sy'n nes at ble maent yn byw.

Dylid cael polisïau teithio ar waith sy'n nodi disgwyliadau teithio rhesymol ar gyfer cael gafael ar wasanaethau a sut y bydd modd cefnogi plant.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- cyflwyno data'r dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) diweddaraf i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) (os na chaiff ei gynnwys gyda chofnodion y bwrdd)
- unrhyw archwiliadau neu werthusiad perthnasol o ansawdd y gwaith gyda phlant
- cyfeiriadur o brosiectau, gweithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael i blant
- copi o unrhyw bolisïau tegwch, amrywiaeth, anghymesuredd a/neu gynhwysiant a/neu gynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag effaith canfyddiadau o ddadansoddi data
- polisi teithio (ar gyfer plant)
- tystiolaeth parth dau

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- trafodaethau aml-asiantaeth am waith gyda phlant

### Dyfarniad:

Os oes digon o fynediad at ddarpariaeth i ddiwallu anghenion pob plentyn, gyda rhestrau aros heb fod yn rhy hir, ac amseroedd teithio derbyniol, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Os nad yw mynediad at ddarpariaeth yn diwallu anghenion yr holl blant a/neu os yw'r rhestrau aros yn rhy hir, a/neu os yw amseroedd teithio yn annerbyniol, dylid cael dyfarniad negyddol.

**c) A yw adeiladu ar gryfderau, canolbwyntio ar y dyfodol a gwella gwytnwch yn ganolog i ddarparu gwasanaethau?**

## Canllawiau:

Er mwyn sicrhau newid cadarnhaol a chadw plant a chymunedau'n ddiogel, mae angen i'r GCI weithio'n frwd i adeiladu ar gryfderau personol a ffactorau amddiffynnol y plentyn. Dylid cael dull sefydliadol sy'n cefnogi staff i weithio gyda chryfderau a ffactorau amddiffynnol plant, a bod gwasanaethau ar waith sydd hefyd yn adeiladu ar hyn. Dylai trefniadau'r GCI gefnogi staff, gan roi'r amser a'r lle iddynt feithrin perthynas effeithiol â phlant a defnyddio'r perthnasoedd hyn i wella gwytnwch plant a'u helpu i ganolbwyntio ar eu dyfodol drwy ddull sy'n meithrin cryfderau. Dylai ymyriadau fod ar waith hefyd i gefnogi a gwella ffordd o fyw a ffactorau personol fel magu plant a chefnogi teuluoedd, hunan-barch, perthnasoedd â chyfoedion o blaid cymdeithasu, cymryd rhan mewn gweithgareddau cadarnhaol, cynlluniau mentora a phrosiectau eraill i wella cynhwysiant cymdeithasol i blant.

## Tystiolaeth:

### EiA

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- copi o'r cynllun strategol cyfiawnder ieuenctid diweddaraf
- cofnodion y bwrdd rheoli o'r 12 mis diwethaf
- unrhyw bolisïau gan y GCI sy'n ymdrin â risg o niwed, diogelwch a llesiant, cyflawni gwaith gyda phlant, datrysiadau y tu allan i'r llys, ailsefydlu, mechnïaeth a remánd ac ymarfer adferol (os oes polisi wrthi'n cael ei ddiweddaru ac ar ffurf drafft, byddwn yn derbyn hyn)
- strategaethau ymgysylltu â phlant, rhieni a gofalwyr
- unrhyw archwiliadau neu werthusiad perthnasol o ansawdd y gwaith gyda phlant
- cyfeiriadur o brosiectau, gweithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael i blant
- trosolwg o hyfforddiant staff ar gyfer rheolwyr achos a rheolwyr canol yn y 12 mis diwethaf
- manylion unrhyw staff ar secondiad, gan gynnwys swyddi gwag
- unrhyw ddata sydd ar gael am y cyfrannau o blant
- copi o unrhyw bolisïau tegwch, amrywiaeth, anghymesuredd a/neu gynhwysiant a/neu gynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag effaith canfyddiadau o ddadansoddi data
- unrhyw ddata sydd ar gael sy'n dadansoddi lefelau'r risg o niwed difrifol a diogelwch a llesiant plant, ar draws gwahanol ddatrysiadau
- tystiolaeth parth dau

### Gwaith Maes

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)

- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)
- trafodaethau aml-asiantaeth am waith gyda phlant

### Dyfarniad:

Pan fydd y GCI yn mynd ati i alluogi staff i weithio gyda phlant mewn ffordd sy'n meithrin cryfderau, sy'n canolbwyntio ar y dyfodol ac sy'n gwella gwytnwch, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan fydd pethau'n rhwystro staff rhag gweithio gyda phlant mewn ffordd sy'n meithrin cryfderau, canolbwyntio ar y dyfodol a gwella gwytnwch, dylid cael dyfarniad negyddol.

**d) A yw gwasanaethau i blant yn cael eu darparu mewn mannau diogel?**

### Canllawiau:

Dylai gwaith a ddarperir yn uniongyrchol gan y GCI a chan y gwasanaethau hynny y mae plant yn cael eu cyfeirio atynt sicrhau amgylchedd diogel. Dylai safleoedd, lleoliadau a safleoedd ddarparu amgylchedd diogel i staff a phlant, ynghyd ag unrhyw asiantaethau partner, darparwyr ac aelodau eraill o'r cyhoedd sy'n eu defnyddio. Dylai plant deimlo'n ddiogel, yn y mannau lle mae gwasanaethau'n cael eu darparu ac wrth deithio i'r gwasanaethau hynny ac oddi yno. Dylai'r GCI ystyried hyn ar gyfer pob plentyn.

Dylai plant fod yn ddiogel, a theimlo'n ddiogel, yn yr amgylcheddau lle maent yn cael eu goruchwylio gan y GCI. Dylid sicrhau bod trefniadau ar gyfer diogelwch corfforol, gan gynnwys cofnodi a monitro presenoldeb ymwelwyr a staff ar waith. Os oes pryderon ynghylch y posibilrwydd o wrthdaro rhwng plant penodol, er enghraifft aelodau o gangiau sy'n cystadlu â'i gilydd, yna dylai trefniadau fod ar waith iddynt ddod yno ar wahân. Dylid cael system o larymau digwyddiadau a gweithdrefnau clir ar gyfer ymateb i'r rhain. Dylid sicrhau bod polisi a gweithdrefn gweithio ar eich pen eich hun ar waith, ynghyd â chanllawiau ar ymweld â chartrefi.

Dylai fod asesiadau risg iechyd a diogelwch priodol a chyfredol ar waith ar gyfer yr holl safleoedd, lleoliadau a mannau y mae'r GCI yn eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau i blant. Dylai'r GCI gydnabod bod iechyd a diogelwch yn fater i bawb a bod gan bawb ran i'w chwarae i sicrhau hyn. Dylid cael aelod o staff sydd wedi'i gymhwyso a'i hyfforddi'n briodol i gyflawni rôl iechyd a diogelwch arweiniol. Dylid darparu sesiynau cynefino iechyd a diogelwch ar gyfer yr holl staff newydd (gan gynnwys arolygwyr) sy'n defnyddio'r amgylcheddau cyflenwi. Dylid cael canllaw ar gyfer pob amgylchedd cyflenwi sy'n nodi'r trefniadau iechyd a diogelwch, ynghyd â chofnod o ddamweiniau a digwyddiadau, archwiliadau iechyd a diogelwch, profion offer argyfwng ac ymarferion tân er mwyn cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch perthnasol. Dylai offer, prosesau a gweithdrefnau digonol ar gyfer canfod, diogelu a gwagio adeilad os bydd tân fod ar waith a dylid cael tystiolaeth o brofion rheolaidd a diweddar. Dylai cyfleusterau cymorth cyntaf a chymorth gan aelod(au) o staff wedi'u hyfforddi fod ar gael ac wedi'u llofnodi'n glir.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- unrhyw bolisïau gan y GCI sy'n ymdrin â risg o niwed, diogelwch a llesiant, cyflawni gwaith gyda phlant, datrysiadau y tu allan i'r llys, ailsefydlu, mechnïaeth a remánd ac

ymarfer adferol (os oes polisi wrthi'n cael ei ddiweddaru ac ar ffurf drafft, byddwn yn derbyn hyn)

- tystiolaeth parth dau

**Gwaith Maes**

- ymweliad i gael cyd-destun, er mwyn i'r prif arolygydd a'r dirprwy arolygydd arweiniol ddeall y cyd-destun y mae'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid yn gweithio ynddo a lle mae plant yn byw, er mwyn deall yr effaith y mae lleoliadau a daearyddiaeth yn ei chael ar sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant
- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)

### Dyfarniad:

Pan mae amgylcheddau cyflenwi'r GCI yn ddiogel i blant, staff a defnyddwyr eraill, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan nad yw amgylcheddau cyflenwi'r GCI yn ddiogel i blant, staff a/neu ddefnyddwyr eraill, dylid cael dyfarniad negyddol.

**e) A yw gwasanaethau i blant yn cael eu darparu mewn mannau hygyrch?**

### Canllawiau:

Dylai gwaith sy'n cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan y GCI a chan y gwasanaethau hynny y mae plant yn cael eu cyfeirio atynt gael ei ddarparu o adeiladau, lleoliadau a safleoedd sy'n hygyrch i blant. Mae hyn yn berthnasol i bob safle y mae'r GCI yn ei ddefnyddio. Dylai'r GCI wneud addasiadau rhesymol i adeiladau, lleoliadau a safleoedd, lle bo angen, fel eu bod yn hygyrch i blant a'u rhieni neu ofalwyr ag anableddau, neu nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- unrhyw bolisïau gan y GCI sy'n ymdrin â risg o niwed, diogelwch a llesiant, cyflawni gwaith gyda phlant, datrysiadau y tu allan i'r llys, ailsefydlu, mechnïaeth a remánd ac ymarfer adferol (os oes polisi wrthi'n cael ei ddiweddaru ac ar ffurf drafft, byddwn yn derbyn hyn)
- tystiolaeth parth dau

**Gwaith Maes**

- ymweliad i gael cyd-destun, er mwyn i'r prif arolygydd a'r dirprwy arolygydd arweiniol ddeall y cyd-destun y mae'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid yn gweithio

ynddo a lle mae plant yn byw, er mwyn deall yr effaith y mae lleoliadau a daearyddiaeth yn ei chael ar sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant
- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)

### Dyfarniad:

Pan fydd gwasanaethau'n cael eu darparu mewn mannau sy'n hygyrch i blant, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan na fydd gwasanaethau'n cael eu darparu mewn mannau sy'n hygyrch i blant, dylid cael dyfarniad negyddol.

**f) A yw amgylcheddau cyflenwi yn golygu bod modd gwneud gwaith priodol sy'n seiliedig ar gryfderau ac sydd wedi'i bersonoli?**

### Canllawiau:

Dylai'r amgylchedd lle mae plant yn mynd i gael goruchwyliaeth fod yn fan cyfweld cyfrinachol lle gellir gweld plant heb y posibilrwydd o gael eu clywed, gan gynnwys mewn adeiladau sy'n cael eu rhannu â gwasanaethau ac aelodau eraill o'r cyhoedd. Dylai amgylcheddau fod yn briodol i nodweddion gwarchodedig y plant sy'n dod a, lle bo hynny'n berthnasol, dylent fod â man(nau) addas i wneud gwaith grŵp, o ran maint ac adnoddau.

Dylai fod mannau cyfforddus, anfygythiol sy'n addas ar gyfer ymgysylltu'n effeithiol a meithrin perthynas â phlant a chyflawni gwaith personol, gan gynnwys:

- derbynfa addas
- ystafelloedd sydd wedi'u haddurno, eu dodrefnu, eu harwyddo'n briodol a'u goleuo'n dda
- delweddau cadarnhaol, fel posteri a dyfyniadau adsefydlu
- gwybodaeth ar gael mewn amrywiaeth o fformatau ac ieithoedd
- ystafelloedd o faint addas ar gyfer gweithgareddau grŵp
- staff, gwirfoddolwyr neu fentoriaid i gyfarfod a chyfarch plant
- gofod swyddfa diogel ar wahân i staff
- dylai'r adeilad fod wedi'i gynllunio a'i ystyried yn ofalus, gan gynnwys safbwyntiau gan blant o bosibl.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- tystiolaeth parth dau
- strategaethau ymgysylltu â phlant, rhieni a gofalwyr
- unrhyw archwiliadau neu werthusiad perthnasol o ansawdd y gwaith gyda phlant

- cyfeiriadur o brosiectau, gweithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael i blant

**Gwaith Maes**

- ymweliad i gael cyd-destun, er mwyn i'r prif arolygydd a'r dirprwy arolygydd arweiniol ddeall y cyd-destun y mae'r GCI yn gweithio ynddo a lle mae plant yn byw, er mwyn deall yr effaith y mae lleoliadau a daearyddiaeth yn ei chael ar sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant
- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)

**Dyfarniad:**

Pan mae amgylcheddau cyflenwi'n briodol ar gyfer darparu gwaith perthynol, personol i bob plentyn, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan nad yw amgylcheddau cyflenwi'n briodol ar gyfer darparu gwaith perthynol, personol i bob plentyn, dylid cael dyfarniad negyddol.

**g) A yw ffactorau amrywiaeth a materion anghymesuredd yn cael sylw digonol yn yr amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir?**

**Canllawiau:**

Dylai fod gan y GCI gynlluniau sy'n nodi sut y bydd anghenion amrywiol plant sydd â nodweddion gwarchodedig yn cael eu diwallu, naill ai drwy gynhwysiant neu ddarpariaeth arbenigol. Dylai'r ystod o wasanaethau a ddarperir ac a gomisiynir fod yn briodol i ddiwallu anghenion amrywiaeth plant, a ddylai gael eu hystyried a'u hintegreiddio'n dda yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu. Dylid adolygu gwasanaethau'n ddigon aml i sicrhau mai nhw yw'r rhai cywir i ddiwallu anghenion amrywiaeth plant yng ngharfan bresennol y GCI. Os oes tystiolaeth o anghymesuredd, dylai'r GCI roi sylw penodol i ddarparu gwasanaethau priodol neu gymorth ychwanegol i'r plant y mae hyn yn effeithio arnynt.

**Tystiolaeth:**

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- unrhyw archwiliadau neu werthusiad perthnasol o ansawdd y gwaith gyda phlant
- cyfeiriadur o brosiectau, gweithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael i blant
- unrhyw ddata sydd ar gael am gyfrannau plant 10 i 17 oed yn ardal y GCI sy'n Ddu, Asiaidd neu o gefndir ethnig leiafrifol (efallai y bydd y data hwn ar gael gan yr awdurdod lleol)
- unrhyw ddata sydd ar gael sy'n dadansoddi nodweddion gwarchodedig plant sy'n gweithio gyda'r GCI (gan gynnwys hil a tharddiad ethnig, crefydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol ac unrhyw ffactorau eraill y mae data ar gael ar eu cyfer) ar draws gwahanol ddatrysiadau

- copi o unrhyw bolisïau tegwch, amrywiaeth, anghymesuredd a/neu gynhwysiant a/neu gynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag effaith canfyddiadau o ddadansoddi data

**Gwaith Maes**

- trafodaethau aml-asiantaeth am waith gyda phlant
- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- trafodaethau aml-asiantaeth am waith gyda phlant
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)

**Dyfarniad:**

Pan fydd ffactorau amrywiaeth a materion anghymesuredd yn cael sylw digonol wrth ddarparu gwasanaethau, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan na fydd ffactorau amrywiaeth a materion anghymesuredd yn cael sylw digonol wrth ddarparu gwasanaethau, dylid cael dyfarniad negyddol.

**1.3.3 A yw trefniadau â phartneriaid statudol, darparwyr ac asiantaethau eraill yn cael eu sefydlu, eu cynnal a'u defnyddio'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau ymatebol a phersonol o ansawdd uchel?**

**a) A oes trefniadau cydweithio effeithiol gyda phartneriaid a darparwyr i sicrhau newid cadarnhaol i bob plentyn?**

**Canllawiau:**

Dylid cael perthynas effeithiol â phartneriaid a darparwyr gwasanaethau sy'n darparu gwasanaethau arbenigol a phrif ffrwd i blant yn ystod eu hamser yn gweithio gyda'r GCI a thu hwnt. Er mwyn sicrhau newid cadarnhaol, rhaid i blant allu cael gafael ar wasanaethau sydd ar gael yn ehangach yn y gymuned.

Dylai'r GCI gymryd rhan weithredol mewn trefniadau partneriaeth sy'n galluogi plant i gael gafael ar wasanaethau arbenigol a phrif ffrwd priodol, yn ystod ac ar ôl eu dedfryd, gyda llwybrau atgyfeirio y cytunwyd arnynt. Mae'r partneriaid a'r darparwyr hyn yn cynnwys Ymddiriedolaethau Plant, y Bartneriaeth Leol ar gyfer Diogelu Plant, y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, byrddau iechyd a llesiant, sefydliadau addysg bellach a hyfforddiant, strategaethau tai, comisiynu ar gyfer camddefnyddio sylweddau a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol. Mae cyfathrebu effeithiol yn rhan allweddol o drefniadau o'r fath. Dylai protocolau, cytundebau a sianeli cyfathrebu fod ar waith gyda phartneriaid a darparwyr i sicrhau bod y gwasanaethau arbenigol a phrif ffrwd sy'n cael eu darparu yn cefnogi ymatal. Dylid rheoli a datrys unrhyw densiynau sy'n dod i'r amlwg, megis rhwystrau i blant rhag defnyddio gwasanaethau oherwydd eu heuogfarnau, er enghraifft darpariaeth hyfforddiant, yn effeithiol. Os bydd yr arolygydd yn canfod bylchau sylweddol yn y ddarpariaeth gwasanaethau prif ffrwd neu arbenigol allweddol, dylent fod yn fodlon bod cynlluniau cadarn a chredadwy ar waith i fynd i'r afael â hyn.

## Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- copi o'r cynllun strategol cyfiawnder ieuenctid diweddaraf
- cofnodion y bwrdd rheoli o'r 12 mis diwethaf
- cyflwyno data'r dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) diweddaraf i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) (os na chaiff ei gynnwys gyda chofnodion y bwrdd)
- unrhyw bolisïau gan y GCI sy'n ymdrin â risg o niwed, diogelwch a llesiant, cyflawni gwaith gyda phlant, datrysiadau y tu allan i'r llys, ailsefydlu, mechnïaeth a remánd ac ymarfer adferol (os oes polisi wrthi'n cael ei ddiweddaru ac ar ffurf drafft, byddwn yn derbyn hyn)
- unrhyw archwiliadau neu werthusiad perthnasol o ansawdd y gwaith gyda phlant
- cyfeiriadur o brosiectau, gweithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael i blant
- tystiolaeth parth dau

**Gwaith Maes**

- trafodaethau aml-asiantaeth am waith gyda phlant
- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)

## Dyfarniad:

Os oes gan y GCI gysylltiadau cydweithredol effeithiol i sicrhau newid cadarnhaol i blant gyda darparwyr arbenigol a phrif ffrwd allweddol, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Os nad oes gan y GCI gysylltiadau cydweithredol effeithiol i sicrhau newid cadarnhaol i blant gyda darparwyr arbenigol a phrif ffrwd allweddol, dylid cael dyfarniad negyddol.

**a) A oes trefniadau cydweithio effeithiol gyda phartneriaid a darparwyr i sicrhau diogelwch plant a chymunedau?**

Mae'r GCI yn bartner statudol i'r Bartneriaeth Leol ar gyfer Diogelu Plant. Dylai rheolwyr y GCI fod yn ymwneud â threfniadau diogelu plant lleol ar lefel bwrdd y Bartneriaeth Leol ar gyfer Diogelu Plant. Dylai staff y GCI gymryd rhan mewn is-grwpiau perthnasol, er enghraifft ar gyfer hyfforddiant a sicrhau ansawdd. Mae'n hanfodol bod y GCI yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn sefydlu gweithdrefnau gyda'r Bartneriaeth Leol ar gyfer Diogelu Plant, tîm gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol a'r heddlu, a bod y gweithdrefnau hyn yn gweithio'n effeithiol i reoli diogelwch a llesiant plant.

Dylai'r GCI gymryd rhan ragweithiol mewn trefniadau rheoli risg a diogelu amlasiantaeth ar y cyd (MASA) neu drefniadau cyfatebol. Dylai hefyd fod yn rhan o drefniadau ar gyfer plant sydd ar goll o'u cartref neu o ofal, neu sydd mewn perygl o ddioddef ecsbloetio plant yn droseddol (CCE) neu ecsbloetio plant yn rhywiol (CSE), er enghraifft y fforwm plant coll.

Dylai fod perthynas waith, cyfathrebu ac ymgysylltu da ar bob lefel ar draws y GCI. Dylai uwch reolwyr fod yn ymgysylltu â'u cymheiriaid ar lefel strategol i sicrhau bod trefniadau gweithio'n effeithiol; dylai rheolwyr canol fod yn gweithio i wella cyfathrebu a datrys problemau; a dylai ymarferwyr fod yn dilyn cytundebau, protocolau a llwybrau allweddol i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfnewid a bod atgyfeiriadau'n cael eu trin yn briodol. Efallai y bydd y GCI hefyd yn ymwneud ag asiantaethau eraill i reoli diogelwch a llesiant plant. Gall y rhain gynnwys mudiadau yn y sector gwirfoddol, megis Barnardo's, yr NSPCC neu Gymdeithas y Plant. Gall enghreifftiau gynnwys hyfforddiant mewn ecsbloetio plant yn rhywiol neu ecsbloetio plant yn droseddol, neu drefniadau mewn perthynas â phlant sydd ar goll o'u cartref neu o ofal.

Dylai fod gan y GCI bolisi diogelu a gweithdrefnau cysylltiedig, gan gynnwys polisi sy'n nodi sut y mae plant mewn perygl yn cael eu hadnabod a pholisi rheoli risg. Dylai'r rhain gynnwys llwybrau atgyfeirio at asiantaethau eraill, a gweithdrefnau ar gyfer gweithio gyda nhw, fel y bo'n briodol. Dylid cael llwybrau atgyfeirio clir, protocolau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a chymryd rhan weithredol mewn byrddau a fforymau perthnasol. Dylid dangos effeithiolrwydd y trefniadau hyn drwy gynlluniau i wella cydweithio ar faterion penodol, cynlluniau hyfforddi ar y cyd a gwersi a ddysgwyd o adolygiadau. Dylai'r GCI allu darparu digon o enghreifftiau lle mae'r gwaith hwn wedi arwain at drefniadau penodol i hyrwyddo diogelwch a llesiant plant a diogelwch unigolion eraill. Dylai unrhyw densiynau sy'n dod i'r amlwg, er enghraifft gwrthdaro sy'n codi ynghylch trothwyon ar gyfer atgyfeirio a mynediad at wasanaethau, gael eu rheoli'n effeithiol a'u datrys.

Mae'r GCI yn un o'r asiantaethau Dyletswydd i Gydweithredu (DTC) ar gyfer MAPPA (Adran 325(6) o *Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003*). Mae Canllawiau MAPPA 2012 yn mynnu'r canlynol:

- bod trefniadau ar waith i nodi pa achosion sy'n achosion MAPPA; rhaid cyfeirio pob plentyn MAPPA sydd angen rheolaeth lefel 2 neu lefel 3 at gydlynydd MAPPA
- bod y GCI a'r gwasanaethau plant yn cael eu cynrychioli'n briodol ym mhob cyfarfod lefel 2 a lefel 3 ar gyfer plant; pryd bynnag y bydd unrhyw asiantaeth ar wahân i'r GCI yn gwneud atgyfeiriad sy'n ymwneud â phlentyn, rhaid i'r GCI fynychu'r cyfarfod, gan y gallai fod ganddo wybodaeth sy'n ymwneud â'r achos
- bod trefniadau ar waith i blant sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio
- bod y Gofrestr Troseddwyr Treisgar a Throseddwyr Rhyw (ViSOR) yn gywir mewn perthynas â phlant yn y gymuned.

Gall y GCI fod yn ymwneud â phlant sy'n datgelu cam-drin domestig. Trafodir yr achosion sydd â'r risg fwyaf o gam-drin domestig yn y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) leol. Dylai fod gan y GCI weithdrefnau ar waith i ganfod achosion perthnasol drwy adnodd asesu risg sy'n seiliedig ar dystiolaeth a llwybrau atgyfeirio i'r MARAC, fel y bo'n briodol. Gall gweithdrefnau weithredu drwy ofal cymdeithasol plant, ac os felly dylai'r GCI fod â phrotocolau ar waith ar gyfer trefniadau o'r fath. Yn ddelfrydol, dylai'r GCI fod yn aelod o MARAC.

Felly, mae'n dilyn ei bod yn hanfodol bod gan y GCI ddulliau cyfathrebu effeithiol a gweithdrefnau sefydledig gyda bwrdd MAPPA, cydlynydd MAPPA, a gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, yr heddlu (gan gynnwys Uned Amddiffyn y Cyhoedd), MARAC, y Bartneriaeth Leol ar gyfer Diogelu Plant a thîm gofal cymdeithasol plant yr awdurdod lleol, a bod yr asiantaethau hyn yn gweithio'n effeithiol i reoli'r risg o niwed a berir gan blant.

Dylai'r GCI gael strategaeth rheoli risg o niwed a gweithdrefnau cysylltiedig ar waith, gan gynnwys sut i ganfod plant sy'n peri risg o niwed i eraill a sut i reoli'r risgiau hynny. Dylai'r gweithdrefnau hyn gynnwys llwybrau atgyfeirio at asiantaethau eraill a gweithdrefnau

gweithio gyda'r asiantaethau hynny fel y bo'n briodol. Dylai fod perthynas waith a chyfathrebu da ar bob lefel ar draws y sefydliad. Dylai uwch reolwyr fod yn ymgysylltu â'u cymheiriaid ar lefel strategol i sicrhau bod trefniadau gweithio'n effeithiol; dylai rheolwyr canol fod yn gweithio i wella cyfathrebu a datrys problemau; a dylai ymarferwyr fod yn dilyn cytundebau, protocolau a llwybrau allweddol i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei chyfnewid a bod atgyfeiriadau'n cael eu trin yn briodol.

Yn ogystal â llwybrau atgyfeirio clir, protocolau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth, a chymryd rhan weithredol mewn byrddau a fforymau perthnasol, dylid dangos effeithiolrwydd y trefniadau hyn drwy fentrau i wella cydweithio ar faterion penodol, megis mentrau hyfforddi ar y cyd, a gwersi a ddysgwyd o adolygiadau. Dylai'r GCI allu darparu digon o enghreifftiau lle mae'r gweithio ar y cyd hwn wedi arwain at drefniadau penodol sy'n hyrwyddo rheolaeth effeithiol o'r risg o niwed a berir i eraill gan blant. Pan mae digwyddiadau diogelu'r cyhoedd a diogelu'r gymuned wedi cael eu hadrodd, dylid cael tystiolaeth o ddysgu ar y cyd o'r rhain. Dylai unrhyw densiynau sy'n dod i'r amlwg, er enghraifft gwrthdaro sy'n codi ynghylch trothwyon ar gyfer atgyfeirio a mynediad at wasanaethau, gael eu rheoli a'u datrys yn effeithiol.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- copi o'r cynllun strategol cyfiawnder ieuenctid diweddaraf
- cofnodion y bwrdd rheoli o'r 12 mis diwethaf
- cyflwyno data'r dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) diweddaraf i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) (os na chaiff ei gynnwys gyda chofnodion y bwrdd)
- unrhyw bolisïau gan y GCI sy'n ymdrin â risg o niwed, diogelwch a llesiant, cyflawni gwaith gyda phlant, datrysiadau y tu allan i'r llys, ailsefydlu, mechnïaeth a remánd ac ymarfer adferol (os oes polisi wrthi'n cael ei ddiweddaru ac ar ffurf drafft, byddwn yn derbyn hyn)
- unrhyw archwiliadau neu werthusiad perthnasol o ansawdd y gwaith gyda phlant
- cyfeiriadur o brosiectau, gweithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael i blant
- tystiolaeth parth dau

**Gwaith Maes**

- trafodaethau aml-asiantaeth am waith gyda phlant
- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)

- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)

## Dyfarniad:

Pan mae trefniadau cydweithio effeithiol gyda phartneriaid a darparwyr i hyrwyddo newid cadarnhaol a chadw plant a chymunedau'n ddiogel, wedi'u cefnogi gan lwybrau atgyfeirio clir a chyfnewid gwybodaeth briodol, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan nad yw trefniadau cydweithredol gyda phartneriaid a darparwyr i hyrwyddo newid cadarnhaol a chadw plant a chymunedau'n ddiogel yn gydweithredol, a/neu nad ydynt yn cael eu cefnogi gan lwybrau atgyfeirio clir a chyfnewid gwybodaeth briodol, dylid cael dyfarniad negyddol.

**c) A oes trefniadau effeithiol ar gyfer y ddarpariaeth o oedolion priodol?**

## Canllawiau:

Dylai oedolion priodol fod ar gael i bob plentyn sydd eu hangen 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos, a dylent gyrraedd cyn gynted â phosibl. Mae hyn yn cynnwys cyfweliadau gwirfoddol a chyfweliadau yn y ddalfa. Mae rhagor o wybodaeth am y math hwn o gyfweliad ar gael yma https://www.appropriateadult.org.uk/policy/voluntary-interviews. Ni ddylid cadw plant dan glo am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol oherwydd diffyg oedolyn priodol. Dylai'r cyfnod o amser rhwng awdurdodi oedolyn priodol ac oedolyn priodol yn cyrraedd fod mor fyr â phosibl.

Dylid cefnogi plant drwy gydol cyfnod dan glo. Nid yw hyn bob tro yn golygu bod yn rhaid i'r oedolyn priodol fod yn bresennol yn gorfforol bob amser. Yn hytrach, mae Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 (PACE) yn ei gwneud yn ofynnol i oedolyn priodol fod yn bresennol ar gyfer gweithdrefnau ac mae'n ei gwneud yn ofynnol bod plentyn hefyd yn gallu cael ymgynghoriad preifat â'i oedolyn priodol ar unrhyw adeg.

Dylid cael trefniadau effeithiol ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng yr oedolyn priodol a'r GCI, gan gynnwys cyn ac yn ystod yr amser mae'r plentyn dan glo. Dylai'r GCI sicrhau naill ai y ceisir gwybodaeth gan rieni am anghenion a gwendidau plentyn, neu fod gwybodaeth a chymorth yn cael eu darparu pan fydd rhiant yn gweithredu fel oedolyn priodol. Dylai'r GCI sicrhau ei hun bod yr heddlu'n rhoi gwybodaeth annibynnol i rieni a gofalwyr am y rôl fel a ganlyn: (https://www.gov.uk/government/publications/guidance-for-appropriate-adults/being-an-appropriate-adult)
a bod yr heddlu'n gofyn am wybodaeth gan rieni a gofalwyr pan fydd modd cysylltu â rhieni a gofalwyr ond nad ydynt yn gallu gweithredu fel oedolion priodol.

Dylai oedolion priodol dderbyn hyfforddiant a chefnogaeth o ansawdd uchel. Dylai'r trefniadau fod yn annibynnol ar blismona, gydag oedolion priodol yn gallu herio'r heddlu lle bo hynny'n briodol, gan gynnwys ar yr angen i gadw dan glo.

Dylai'r GCI fonitro, gwerthuso ac adolygu trefniadau ar gyfer oedolion priodol yn rheolaidd (o leiaf unwaith y flwyddyn) er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i blant.

## Tystiolaeth:

**EiA**

- polisi oedolion priodol

- gweithdrefnau oedolion priodol (pan fo'r gwasanaeth yn fewnol)
- trefniadau comisiynu a chontractio priodol i oedolion (lle mae'r gwasanaeth yn cael ei gontractio allan)
- cofnodion hyfforddi oedolion priodol
- hunanasesiad yn erbyn safonau cenedlaethol
- adborth staff
- adborth gan blant
- arolygiadau o ddalfeydd yr heddlu gan HMICFRS (tystiolaeth o argaeledd ac amseroldeb)

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)

**Dyfarniad:**

Pan fo oedolion priodol bob amser ar gael pan fo angen, mae unigolion yn fedrus ac yn cael eu cefnogi yn eu rolau, ac mae trefniadau'n cael eu monitro, eu gwerthuso a'u hadolygu'n rheolaidd, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan nad yw oedolion priodol bob amser ar gael pan fo angen, a/neu nad oes gan unigolion ddigon o sgiliau a/neu nad ydynt yn cael digon o gefnogaeth yn eu rolau, a/neu nad yw trefniadau'n cael eu monitro, eu gwerthuso a'u hadolygu'n rheolaidd, dylid cael dyfarniad negyddol.

**d) A oes trefniadau wedi'u gwneud ac wedi'u deall gan staff i sicrhau bod plant yn cael eu cyfeirio, eu hatgyfeirio a'u cefnogi i'r gwasanaethau mwyaf priodol yn weithredol?**

**Canllawiau:**

Dylai staff y GCI ddeall sut i gael gafael ar yr amrywiaeth o wasanaethau gan bartneriaid a darparwyr eraill. Dylai protocolau a llwybrau atgyfeirio clir fod ar gael ac yn hygyrch i staff. Dylai'r broses gyfeirio nodi pa wybodaeth sydd ei hangen, y broses ar gyfer trosglwyddo'r wybodaeth hon yn ddiogel, a sut a phryd y gwneir penderfyniadau ynghylch derbyn, gan gynnwys unrhyw asesiadau pellach sy'n ofynnol. Dylai'r canllawiau fod yn gyfredol a dylent nodi ar gyfer pwy y gallai'r gwasanaethau fod yn addas, ac unrhyw eithriadau penodol. Dylai gynnwys addasrwydd, argaeledd, prosesau atgyfeirio ac unrhyw restrau aros.

Dylai fod gan y GCI weithdrefnau ar waith i reoli tensiynau mewn perthynas â chael gafael ar wasanaethau, er enghraifft gweithdrefnau uwchgyfeirio ar gyfer anghydfodau ynghylch trothwyon.

**Tystiolaeth:**

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd

- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- siart strwythur y sefydliad, a siart strwythur yn nodi lleoliad y gwasanaeth o fewn yr awdurdod lleol
- cyflwyno data'r dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) diweddaraf i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) (os na chaiff ei gynnwys gyda chofnodion y bwrdd)
- unrhyw bolisïau gan y GCI sy'n ymdrin â risg o niwed, diogelwch a llesiant, cyflawni gwaith gyda phlant, datrysiadau y tu allan i'r llys, ailsefydlu, mechnïaeth a remánd ac ymarfer adferol (os oes polisi wrthi'n cael ei ddiweddaru ac ar ffurf drafft, byddwn yn derbyn hyn)
- cyfeiriadur o brosiectau, gweithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael i blant

**Gwaith Maes**

- trafodaethau amlasiantaeth am waith gyda phlant
- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)

### Dyfarniad:

Pan geir canllawiau cyfredol, cynhwysfawr a dealladwy i staff ynghylch sut i gyfeirio, atgyfeirio a chefnogi plant i gael gafael ar y gwasanaethau iawn gan bartneriaid a darparwyr, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan nad yw canllawiau ar sut i gyfeirio, atgyfeirio a chefnogi plant i gael gafael ar y gwasanaethau cywir gan bartneriaid a darparwyr yn gyfredol, yn gynhwysfawr ac yn cael eu deall yn dda gan staff, dylid cael dyfarniad negyddol.

**e) A oes protocol clir ar y cyd ar waith gyda'r heddlu, sy'n nodi polisi ac arferion datrysiadau y tu allan i'r llys y cytunwyd arnynt yn lleol, gan gynnwys gwneud penderfyniadau ar y cyd ac y gellir eu hamddiffyn?**

### Canllawiau:

Dylid cael polisi ar waith ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys sy'n diwallu anghenion y plant yn ardal y GCI. Dylai'r polisi fod yn glir ynghylch sut a phryd y bydd yr heddlu'n rhannu gwybodaeth â'r GCI am unrhyw ddatrysiadau a beth fydd y GCI yn ei wneud â'r wybodaeth honno. Dylai'r polisi ystyried nodau'r system cyfiawnder ieuenctid: i atal troseddu ac ystyried llesiant y plentyn. Felly, dylai'r polisi nodi beth sy'n gweithio wrth atal troseddu pellach, megis ymyriadau priodol wedi'u targedu, ac effaith y datrysiad ar ddiogelwch a llesiant y plentyn. Dylai'r polisi nodi'r trefniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer darparu, gan gynnwys sut y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y cyd ac yn amddiffynnol.

Dylai unrhyw bolisi ystyried sut a phryd y bydd penderfyniadau ar y cyd yn cael eu gwneud. Os mai proses panel yw hon, dylai'r polisi fod yn glir ynghylch pwy sy'n rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ar y cyd a beth yw eu rôl yn y broses.

## Tystiolaeth:

**EiA**

- Polisi y GCI o ran datrysiadau y tu allan i'r llys

**Gwaith Maes**

- trafodaethau aml-asiantaeth am waith gyda phlant
- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)

## Dyfarniad:

Lle mae protocol clir ar y cyd rhwng y GCI a'r heddlu sy'n nodi'r trefniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer darparu, gan gynnwys sut y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y cyd ac yn amddiffynnol, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan nad oes protocol clir ar y cyd rhwng y GCI a'r heddlu, neu os nad yw'r polisi'n nodi'r trefniadau y cytunwyd arnynt ar gyfer darparu ac yn cynnwys sut y bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y cyd ac yn amddiffynnol, dylid cael dyfarniad negyddol.

**f) A yw'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys yn cynnwys proses uwchgyfeirio sy'n osgoi gorddefnyddio datrysiadau penodol yn amhriodol?**

## Canllawiau:

Dylai'r GCI gael polisi datrysiadau y tu allan i'r llys sydd â meini prawf cymhwysedd clir ac sy'n cynnwys yr ystod lawn o ddatrysiadau y tu allan i'r llys sydd ar gael yn yr ardal leol. Dylai natur a nifer y datrysiadau a weinyddir gael eu monitro yn strategol, yn seiliedig ar y math o drosedd. Dylai'r polisi gynnwys unrhyw drefniadau wrth gefn ar gyfer os nad yw plentyn yn ymwneud â'r datrysiad, a phrosesau i sicrhau nad yw hyn yn arwain at ddatrysiad mwy cosbol na natur y trosedd.

## Tystiolaeth:

**EiA**

- Polisi y GCI o ran datrysiadau y tu allan i'r llys
- tystiolaeth parth dau

**Gwaith Maes**

- trafodaethau aml-asiantaeth am waith gyda phlant
- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)

- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy’n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i’r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)

## Dyfarniad:

Pan fydd y meini prawf cymhwysedd ar gyfer datrysiadau y tu allan i’r llys yn cynnwys proses uwchgyfeirio sy’n osgoi gorddefnyddio datrysiadau penodol ac sy’n cael ei monitro gan y GCI, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan nad yw’r meini prawf cymhwysedd ar gyfer datrysiadau y tu allan i’r llys yn cynnwys proses uwchgyfeirio sy’n osgoi gorddefnyddio datrysiadau penodol a/neu os nad yw’n cael ei monitro gan y GCI, dylid cael dyfarniad negyddol.

**g) A oes trefniadau addas ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd y tu allan i’r llys sy’n cynnwys cyfraniadau gan y GCI, yr heddlu a gofal cymdeithasol o leiaf?**

## Canllawiau:

Dylai unrhyw ddatrysiad y tu allan i’r llys fod â sylfaen gadarn ac atebol ar gyfer gwneud penderfyniadau i sicrhau bod y broses yn dryloyw ac yn cael ei defnyddio’n gyson. Dylid cael proses o wneud penderfyniadau ar y cyd sydd o leiaf yn cynnwys y GCI, yr heddlu a gofal cymdeithasol. Gall aelod annibynnol o’r gymuned fod yn rhan o’r broses hon, a dylai hyn ddarparu lefel o annibyniaeth.

Ym mis Medi 2023, cyhoeddodd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ei Fatrics Disgyrchiant Plant diwygiedig. Mae hyn yn disodli Matrics Ffactor Difrifoldeb Penderfyniadau ar Achosion Troseddwyr Ifanc ACPO o fis Mawrth 2013 ac mae ei ddull gweithredu’n cyd-fynd ag egwyddorion rhoi plant yn gyntaf, sy’n ceisio atal plant rhag cael eu troseddoli’n ddiangen.

Er bod y gwelliannau hyn yn gam sylweddol ymlaen, mae’n hanfodol cofio y dylid defnyddio’r Matrics Disgyrchiant Plant fel canllaw, nid llyfr rheolau anhyblyg. Dylid archwilio pob achos yn unigol o hyd er mwyn sicrhau bod cyfiawnder yn cael ei weinyddu er lles gorau’r plentyn a’r dioddefwyr – mae defnyddio barn broffesiynol yn hanfodol.

Mae panel ffurfiol ar gyfer gwneud penderfyniadau yn ddull sy’n cael ei fabwysiadu gan lawer o GCIau ond nid pob un. Beth bynnag fo’r broses, dylai’r asiantaethau cysylltiedig gael cyfle i gyfrannu at y penderfyniad ynghylch y canlyniad mwyaf priodol i’r plentyn. Dylai’r broses o wneud penderfyniadau ar y cyd ystyried dymuniadau’r dioddefwr a rhoi blaenoriaeth i’r hyn sydd fwyaf tebygol o gefnogi’r plentyn i ymatal rhag troseddu. Dylai’r plentyn, a’i riant/gofalwr, ymgysylltu â’r GCI cyn penderfyniad y datrysiad, er mwyn i’r GCI allu eu cymell a deall eu safbwynt. Nid yw’n briodol i benderfyniad y datrysiad gael ei wneud rhwng un o swyddogion heddlu’r GCI a rheolwr y GCI cyn i’r panel gyfarfod.

Er mwyn i’r broses o wneud penderfyniadau fod yn broses wirioneddol ar y cyd, boed hynny mewn panel neu fel arall, dylai holl aelodau’r corff sy’n gwneud penderfyniadau fod â statws digon uchel ac awdurdod dirprwyedig i ddehongli polisi yng ngoleuni amgylchiadau unigol ac i wneud penderfyniadau y gellir eu hamddiffyn.

## Tystiolaeth:

**EiA**

- Polisi y GCI o ran datrysiadau y tu allan i’r llys
- tystiolaeth parth dau

**Gwaith Maes**

- trafodaethau aml-asiantaeth am waith gyda phlant
- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)
- cyfarfod grŵp ffocws staff (gan gynnwys rheolwyr achos a staff cefnogi sy'n delio â mechnïaeth a remánd, datrysiadau yn y llys, gwaith y tu allan i'r llys ac ailsefydlu)
- cyfarfod grŵp rheolwyr partneriaeth, gan gynnwys y gwasanaeth prawf (rheolwyr cyswllt o bartneriaid statudol a phartneriaid eraill)

## Dyfarniad:

Os oes proses o wneud penderfyniadau ar y cyd ar waith sy'n cynnwys y GCI, yr heddlu a gofal cymdeithasol o leiaf ac sy'n cefnogi anghenion y plentyn, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Os nad oes proses o wneud penderfyniadau ar y cyd ar waith sy'n cynnwys y GCI, yr heddlu a gofal cymdeithasol o leiaf ac sy'n cefnogi anghenion y plentyn, dylid cael dyfarniad negyddol.

**h) A yw'r llysoedd yn ddigon ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi opsiynau dedfrydu?**

## Canllawiau:

Er mwyn i lysoedd ddefnyddio'r ystod lawn o opsiynau dedfrydu yn briodol ac er mwyn rhoi hyder iddynt wrth ddedfrydu, mae angen iddynt gael digon o fanylion am y gwasanaethau a ddarperir gan y GCI, pa weithgareddau sy'n debygol o gael eu darparu fel rhan o'r ddedfryd, a pha ganlyniadau y mae dedfrydau'n debygol o'u cyflawni. Dylai'r llysoedd gael yr wybodaeth ddiweddaraf am yr amrywiaeth o weithgareddau gwneud iawn sydd ar gael i blant ac unrhyw gyfle i ddefnyddio dulliau adferol. Dylai'r GCI ddilyn dull strategol, wedi'i gynllunio, o gysylltu â dedfrydwyr, gyda'r llysoedd ieuenctid a Llysoedd y Goron.

Yn ogystal â darparu gwybodaeth ysgrifenedig, dylai'r GCI wneud cyflwyniadau i ddedfrydwyr am argaeledd a natur y gwasanaethau a'r ymyriadau i blant yn eu hardal, a'r canlyniadau y mae'r rhain yn eu cyflawni. Er enghraifft, gellir gwneud y cyflwyniadau hyn mewn cyfarfodydd mainc, digwyddiadau hyfforddi a fforymau priodol eraill, fel grwpiau defnyddwyr llys. Dylai'r GCI gynnal arolygon ymhlith dedfrydwyr i ganfod a oes ganddynt yr wybodaeth fanwl sydd ei hangen arnynt ac a ydynt yn fodlon â'r cyfathrebu â'r GCI, ar lefel reoli ac ar lefel weithredol. Dylid cael tystiolaeth i ddangos bod llysoedd yn ddigon ymwybodol o'r ystod o wasanaethau ac ymyriadau sydd ar gael i gefnogi opsiynau dedfrydu ar gyfer plant.

## Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- arolwg dedfrydwyr

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- cyfarfod â thîm rheoli'r GCI (rheolwyr gweithredol a rheolwyr eraill, ac eithrio pennaeth gwasanaeth y GCI)

**Dyfarniad:**

Pan fydd y GCI yn dilyn dull strategol, wedi'i gynllunio, o gysylltu â dedfrydwyr, yn y llysoedd ynadon ac yn Llysoedd y Goron, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Pan na fydd y GCI yn dilyn dull strategol, wedi'i gynllunio, o gysylltu â dedfrydwyr, yn y llysoedd ynadon ac yn Llysoedd y Goron, dylid cael dyfarniad negyddol.

# Safon dioddefwyr: cwestiwn allweddol v 1.2

**Mae gwaith gyda dioddefwyr yn unigol, ymatebol ac o ansawdd uchel gan ysgogi canlyniadau cadarnhaol a diogelwch i ddioddefwyr.**

**V1.2 A yw trefniadau a gweithgarwch y sefydliad yn arwain at wasanaeth unigol, ymatebol o ansawdd uchel ar gyfer dioddefwyr?**

**a) A yw aelodau'r bwrdd rheoli yn ymgysylltu'n dda ac yn weithgar yn eu cyfraniad at waith gyda dioddefwyr?**

**Canllawiau:**

Dylai byrddau rheoli ddilyn dull bwriadol a rhagweithiol yn eu cyfraniad at waith y GCI gyda dioddefwyr. Dylai aelodau'r Bwrdd fod â dealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â'r gwaith hwn a chydnabod y cyfraniad y mae'n ofynnol iddynt ei wneud, i'r bwrdd rheoli a thrwy eu hasiantaethau eu hunain. Dylai'r bwrdd rheoli ddarparu arweiniad strategol clir, gan gefnogi a galluogi'r GCI i gyflawni ei amcanion wrth ddarparu gwasanaethau i ddioddefwyr. Dylai GCIau annog cynrychiolydd o sefydliad i ddioddefwyr i fod yn rhan o'r bwrdd.

Dylai'r bwrdd rheoli ddeall demograffeg dioddefwyr a'u hanghenion amlwg. Dylid adrodd ar DPA dioddefwyr i'r bwrdd rheoli, gyda thrafodaeth, herio, camau gweithredu a chefnogaeth yn dilyn hynny. Rhaid i'r adroddiadau hyn gynnwys dadansoddiad o degwch, amrywiaeth a chynhwysiant yng ngwaith y GCI gyda dioddefwyr. Dylai'r bwrdd fonitro ansawdd ac effeithiolrwydd gwaith y GCI gyda dioddefwyr a sicrhau bod y gwaith yn glynu wrth y sylfaen dystiolaeth er mwyn gallu darparu gwasanaethau ymatebol, unigol ac o ansawdd uchel i ddioddefwyr. Lle bo'n berthnasol, dylai aelodau ddarparu data a gwybodaeth o'u gwasanaethau eu hunain.

Dylai aelodau'r bwrdd rheoli fod yn ymwybodol o'r ymchwil, y ddeddfwriaeth a'r codau ymarfer diweddaraf ar gyfer gweithio'n effeithiol gyda dioddefwyr. Dylent fynd ati i gefnogi a herio'r GCI i'w alluogi i ddarparu gwasanaethau effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Yn benodol, dylai aelodau'r bwrdd rheoli ddeall y cysylltiad rhwng plant fel dioddefwyr a phlant fel cyflawnwyr troseddau, ac y gall dioddefwyr symud ymlaen i fod yn gyflawnwyr. Dylai gweithgareddau dadansoddi a chynllunio'r bwrdd rheoli ystyried yr ymchwil a'r sylfaen dystiolaeth.

Dylai'r bwrdd rheoli gael ei weld a chwilio am gyfleoedd i wella'r gwaith gyda phob dioddefwr, gan gynnwys oedolion, corfforaethol, teulu, gwasanaethau brys, plant a dioddefwyr eraill sy'n agored i niwed neu'n cael eu bygwth.[3] Dylent gymryd perchnogaeth dros dasgau a chyfrifoldebau penodol, dal rheolwr y GCI i gyfrif a, lle bo angen, comisiynu gwaith ar berfformiad er mwyn cefnogi gwelliannau. Dylai'r bwrdd rheoli fynd ati i hyrwyddo cyfle teg ac amrywiaeth, gan fynd ati'n fwriadol i fynd i'r afael â ffactorau amrywiaeth drwy ei waith, gan gynnwys mynd i'r afael ag anghymesuredd a ffactorau gwahaniaethol gwirioneddol neu bosibl lle maent yn bodoli. Dylai bwrdd rheoli'r GCI gael tystiolaeth sy'n dangos sut y mae'n sicrhau bod gwaith gyda dioddefwyr yn deg i bob dioddefwr. Dylai byrddau rheoli fod yn ymwybodol o effaith gwahanol ffactorau a sicrhau bod gwasanaethau ar gael i fynd i'r afael â'r holl grwpiau effaith, hynny yw, mynediad teg

Dylai aelodau'r bwrdd rheoli fynd ati i hyrwyddo gwaith y GCI gyda dioddefwyr yn eu hasiantaethau eu hunain a bod yn llysgenhadon ar ran y GCI, gan gynnwys cymorth i froceru gwasanaethau lle bo angen. Dylai hyn olygu bod llais y GCI yn gallu cael ei gyflwyno a'i glywed mewn fforymau strategol ehangach, er enghraifft y Bartneriaeth Leol ar gyfer

---

[3] MoJ Victims Code 2020 (publishing.service.gov.uk)

Diogelu Plant (yn y rhan fwyaf o ardaloedd mae'r rhain wedi disodli'r hen Fyrddau Lleol Diogelu Plant), y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol, MAPPA, y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, a'r Ymddiriedolaeth Plant (neu'r hyn sy'n cyfateb yn lleol).

### Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau
- taenlen data sefydliadol wedi'i chwblhau
- cofnodion y bwrdd rheoli o'r 12 mis diwethaf

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- grŵp ffocws gyda staff gweithredol sy'n ymwneud â gwaith gyda dioddefwyr, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gweithio gyda dioddefwyr, ac unrhyw weithwyr cyfiawnder adferol a gweithwyr gwneud iawn

### Dyfarniad:

Lle mae aelodau'r bwrdd rheoli wedi ymgysylltu'n dda ac yn cyfrannu'n frwd at weithio gyda dioddefwyr, ac yn deall yr atebolrwydd sy'n gysylltiedig â hyn, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Os nad yw aelodau'r bwrdd rheoli'n ymgysylltu'n dda nac yn cyfrannu'n frwd at weithio gyda dioddefwyr, neu os nad ydynt yn deall yr atebolrwydd sy'n gysylltiedig â hyn, dylid cael dyfarniad negyddol.

**b) A oes trefniadau effeithiol ar waith gyda'r heddlu ar gyfer cael cydsyniad a rhannu manylion y dioddefwr?**

### Canllawiau:

Cyn y gall y GCI gael unrhyw gyswllt â dioddefwr, rhaid i'r dioddefwr fod wedi cydsynio i hynny. Yr heddlu sy'n gwneud hyn fel arfer, a'r swyddog â gofal neu'r swyddog heddlu ar secondiad fyddai'n gwneud hyn fel rheol. Ar ôl cael cydsyniad, rhaid i'r heddlu drosglwyddo manylion cyswllt y dioddefwr i'r unigolyn perthnasol yn y GCI er mwyn i'r GCI gysylltu â'r dioddefwr.

Mae'r trefniadau ar gyfer cael cydsyniad a rhannu manylion cyswllt dioddefwyr yn amrywio ar draws GCIau. Mae gan rai GCIau fynediad uniongyrchol at gronfeydd data'r heddlu (NICHE) ac maent yn gallu gweld lle mae dioddefwr wedi cydsynio. Mae GCIau eraill yn dibynnu ar yr heddlu i ddweud wrthynt lle mae dioddefwr sydd wedi rhoi cydsyniad er mwyn i'r GCI gysylltu a chynnig gwasanaethau. Beth bynnag fo'r broses, mae'n bwysig bod protocolau ar waith i alluogi'r GCI i wneud hyn yn gyson, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Dylai'r GCI rannu gwybodaeth gynhwysfawr gyda'r heddlu am y cynnig i ddioddefwyr.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- unrhyw archwiliadau perthnasol neu werthusiad o ansawdd gwaith rheoli achosion ac ymarfer yn ymwneud â dioddefwyr, gan gynnwys dadansoddiad o gydsyniad dioddefwyr a chyfraddau defnydd

- polisi'r GCI sy'n ymdrin â gwaith gyda dioddefwyr

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- grŵp ffocws gyda staff gweithredol sy'n ymwneud â gwaith gyda dioddefwyr, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gweithio gyda dioddefwyr, ac unrhyw weithwyr cyfiawnder adferol a gweithwyr gwneud iawn

**Dyfarniad:**

Os oes trefniadau effeithiol, sy'n cael eu defnyddio'n gyson, ar waith gyda'r heddlu, ar gyfer cael cydsyniad ac ar gyfer rhannu manylion dioddefwyr, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Os nad yw'r trefniadau sydd ar waith gyda'r heddlu i gael cydsyniad ac i rannu manylion dioddefwyr yn effeithiol neu'n os ydynt yn cael eu defnyddio'n anghyson, dylid cael dyfarniad negyddol.

**c) A oes polisi a phroses effeithiol ar waith ar gyfer darparu gwaith gyda dioddefwyr sy'n unigol, ymatebol ac o ansawdd uchel?**

**Canllawiau:**

Dylai fod gan y GCI bolisi ar gyfer dioddefwyr sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer gweithio gyda dioddefwyr. Dylai hyn gynnwys y canlynol o leiaf: datrysiadau yn y llys, datrysiadau y tu allan i'r llys, adsefydlu a mewnbwn i gynllunio risg a diogelwch. Dylai hyn egluro sut y bydd y GCI yn darparu gwasanaeth sy'n unigol ac yn ymatebol a dylai gael ei gefnogi gan brosesau effeithiol. Dylai'r polisi gynnwys trefniadau ar gyfer cymorth i ddioddefwyr a diogelwch dioddefwyr. Dylai'r polisi a'r broses ystyried materion amrywiaeth yn fwriadol, gan gynnwys nodweddion gwarchodedig ac amgylchiadau personol. Ni fydd un dull sy'n addas i bawb ar gyfer darparu gwasanaethau i ddioddefwyr yn diwallu anghenion pob dioddefwr, a dylai'r polisi adlewyrchu hyn. Dylai polisi'r GCI sicrhau bod yr holl hawliau a nodir yn y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr yn cael eu diwallu, a dylai gynnwys y trefniadau ar gyfer gweithio gyda swyddog cyswllt dioddefwyr y gwasanaeth prawf, lle bo hynny'n berthnasol.

Mae trefniadau partneriaeth effeithiol yn hanfodol. Dylai'r polisi nodi ar gyfer pob partner beth yw disgwyliadau ac atebolrwydd eu rôl. Dylai hefyd nodi trefniadau ar gyfer cael mynediad priodol at wybodaeth, arbenigedd, adnoddau a gwybodaeth a'u cyfnewid. Dylai'r polisi a'r broses ddechrau gyda'r cyswllt cyntaf â dioddefwyr a mynd yr holl ffordd at y trefniadau ar gyfer gadael/cau.

Rhaid i bolisïau a phrosesau ystyried anghenion gwahanol ddioddefwyr a chydnabod y gall fod gan blant, dioddefwyr sy'n agored i niwed a dioddefwyr sy'n cael eu bygwth anghenion penodol. Dylid asesu anghenion pob dioddefwr. Nid oes sylfaen dystiolaeth i ddweud bod y math o drosedd yn gysylltiedig ag effaith, ond efallai fod rhai ffactorau eraill yn gysylltiedig ag effaith. Er enghraifft, gallai'r effaith ar ddioddefwyr sy'n blant a dioddefwyr sy'n agored i niwed fod yn fwy na'r effaith ar ddioddefwyr sy'n oedolion. Dylai'r polisi a'r broses sicrhau mynediad teg at wasanaethau i bob dioddefwr. Er enghraifft, dylai fod dewisiadau eraill ar gael ar gyfer y dioddefwyr hynny nad ydynt am siarad â swyddogion yr heddlu, ac os felly dylai trefniadau fod ar gael gyda swyddog cyswllt dioddefwyr lleol.

Mae dyletswydd cydraddoldeb gyffredinol y sector cyhoeddus yn berthnasol i'r GCI yn eu gwaith gyda dioddefwyr. Mae'r holl wybodaeth ar gael yma: https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/essential-guide-public-sector-equality-duty. Mae hyn yn mynnu bod GCIau yn ystyried sut y gallent gyfrannu'n

gadarnhaol at hyrwyddo cydraddoldeb a chysylltiadau da. Rhaid iddynt ystyried cydraddoldeb wrth ddarparu gwasanaethau ac wrth ddylunio polisïau, gan gynnwys polisïau mewnol, a pharhau i adolygu'r materion hyn. Nod y ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol yw symud y cyfrifoldeb dros hyrwyddo cydraddoldeb o unigolion i sefydliadau.

Er mwyn cyflawni nodau'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol, dylai polisi'r GCI ar gyfer dioddefwyr nodi sut y bydd y GCI yn gwneud y canlynol:

- dileu neu leihau'r anfanteision y mae dioddefwyr yn eu hwynebu oherwydd eu nodweddion gwarchodedig
- cymryd camau i ddiwallu anghenion dioddefwyr o grwpiau gwarchodedig lle mae'r rhain yn wahanol i anghenion dioddefwyr eraill
- annog dioddefwyr o grwpiau gwarchodedig i gymryd rhan mewn gwasanaethau'r GCI mewn ffyrdd sy'n diwallu eu hanghenion.

Dylai'r GCI adolygu polisïau a phrosesau dioddefwyr ar adegau priodol. Dylai adolygiadau ystyried newidiadau mewn unrhyw safonau neu ganllawiau cenedlaethol a datblygiadau mewn ymarfer effeithiol a dylent ystyried barn dioddefwyr a rhanddeiliaid allweddol. Dylai adolygiadau gynnwys asesiad o'r effaith ar nodweddion gwarchodedig dioddefwyr. Dylai gwaith monitro, gwerthuso ac adolygu gyd-fynd â'r sylfaen dystiolaeth, gan adeiladu ar ymchwil sy'n bodoli eisoes a chyfrannu ati. Lle bo'n briodol, dylai'r GCI ystyried dulliau monitro allanol i wella uniondeb y broses. Dylent ystyried cyfleoedd i ymgysylltu ag ymchwilwyr neu gydweithio â sefydliadau tebyg sy'n ymgymryd â phroses wella debyg, er mwyn meincnodi cynnydd a manteisio i'r eithaf ar ddysgu.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- polisi'r GCI sy'n ymdrin â gwaith gyda dioddefwyr
- unrhyw archwiliadau perthnasol neu werthusiad o ansawdd gwaith rheoli achosion ac ymarfer yn ymwneud â dioddefwyr, gan gynnwys dadansoddiad o gydsyniad dioddefwyr a chyfraddau defnydd
- cyfeiriadur o brosiectau, gweithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael i ddioddefwyr

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- grŵp ffocws gyda staff gweithredol sy'n ymwneud â gwaith gyda dioddefwyr, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gweithio gyda dioddefwyr, ac unrhyw weithwyr cyfiawnder adferol a gweithwyr gwneud iawn

### Dyfarniad:

Os oes polisi ar waith sy'n nodi'r trefniadau ac atebolrwydd rolau ar gyfer gweithio gyda dioddefwyr, wedi'i ategu gan broses effeithiol, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Os nad oes polisi ar waith, neu os nad yw'n nodi'n glir y trefniadau ac atebolrwydd rolau ar gyfer gweithio gyda dioddefwyr, neu os nad yw'n cael ei gefnogi gan broses effeithiol, dylid cael dyfarniad negyddol.

**d) A oes gan staff sy'n gweithio gyda dioddefwyr lwyth gwaith y gellir ei reoli?**

## Canllawiau:

Dylai fod digon o staff ar gael i ddiwallu anghenion dioddefwyr. Rhaid i lefelau staffio fod yn ddigonol i alluogi staff sy'n gweithio gyda dioddefwyr i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, sy'n ymatebol ac yn unigol. Mae hyn yn golygu y dylai lefelau staffio alluogi tasgau i gael eu cwblhau i safon dda, o fewn oriau gwaith arferol, y rhan fwyaf o'r amser. Dylai staff sy'n gweithio gyda dioddefwyr a'u rheolwyr fod â chyd-ddealltwriaeth o sut beth yw llwyth gwaith hylaw ar gyfer eu rolau ac ni ddylid mynd y tu hwnt i hyn fel mater o drefn.

Dylai arolygwyr chwilio am achosion o orlwytho rolau a newid rolau ar gyfer staff sy'n gweithio gyda dioddefwyr. Mae gorlwytho rolau yn sefyllfa sy'n deillio o unigolyn yn ymgymryd â rôl neu rolau amryfal lle gofynnir iddo wneud mwy nag y mae'n gallu ei wneud mewn cyfnod penodol o amser (gorlwytho meintiol), neu lle mae'n cael ei ymestyn y tu hwnt i'w wybodaeth, ei sgiliau a'i alluoedd (gorlwytho ansoddol). Efallai nad oes gan rywun sy'n gweithio gyda dioddefwyr mewn GCI bach swydd lawnamser, a bod ganddo gyfrifoldebau eraill. Ni ddylid cosbi GCIau am hyn os yw'r rolau unigol wedi'u nodi a'u strwythuro'n glir a bod digon o amser yn cael ei ganiatáu i'r rôl/rolau gael eu cyflawni'n effeithiol. Mae newid rôl yn digwydd pan fydd dyletswyddau gwaith craidd ar gyfer rôl neu raddfa benodol yn cael eu cyflawni fwyfwy gan staff eraill, fel arfer, pan fydd gwaith yn cael ei ddirprwyo i staff iau.

## Tystiolaeth:

**EiA**

- siart strwythur y sefydliad

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- grŵp ffocws gyda staff gweithredol sy'n ymwneud â gwaith gyda dioddefwyr, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gweithio gyda dioddefwyr, ac unrhyw weithwyr cyfiawnder adferol a gweithwyr gwneud iawn

## Dyfarniad:

Pan fydd llwyth gwaith y rheini sy'n gweithio gyda dioddefwyr, gan gynnwys rheolwyr, staff a gwirfoddolwyr, yn ddigonol i ddiwallu anghenion y dioddefwyr hynny, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Os nad yw llwyth gwaith y rheini sy'n gweithio gyda dioddefwyr, gan gynnwys rheolwyr, staff a gwirfoddolwyr, yn diwallu anghenion y dioddefwyr hynny, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

**e) A oes gan staff sy'n gweithio gyda dioddefwyr y sgiliau cywir i ddarparu gwasanaeth unigol, ymatebol o ansawdd uchel i ddioddefwyr?**

## Canllawiau:

Dylai'r GCI gael strategaeth/cynllun hyfforddi sy'n cynnwys staff sy'n gweithio gyda dioddefwyr ac sy'n cydnabod y set sgiliau arbenigol sy'n ofynnol ar gyfer y rôl hon. Dylid nodi gofynion hyfforddi gorfodol a dewisol a'u cyfleu i'r staff sy'n gweithio gyda dioddefwyr, a ddylai gael cofnodion hyfforddi cyfredol. Dylid adolygu anghenion hyfforddi yn rheolaidd, nodi unrhyw fylchau mewn sgiliau, ac adolygu cynlluniau hyfforddi yn unol â hynny. Dylai rheolwyr, staff a gwirfoddolwyr dderbyn hyfforddiant effeithiol o ansawdd da sy'n diwallu eu

hanghenion hyfforddi. Dylai sgiliau'r staff sy'n gweithio gyda dioddefwyr fod yn ddigonol i ddiwallu anghenion pob dioddefwr. Dylai rheolwyr sy'n gyfrifol am waith gyda dioddefwyr feddu ar y lefelau gofynnol o wybodaeth, sgiliau a phrofiad a chael amser i asesu a gwella ansawdd ymarfer, goruchwylio a chadw golwg ar staff sy'n gweithio gyda dioddefwyr yn effeithiol a dwyn staff i gyfrif.

Dylai staff sy'n gweithio gyda dioddefwyr gael hyfforddiant penodol ac arbenigol ar gyfer y rôl, gan gynnwys dulliau gweithredu sy'n ystyriol o drawma, tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant, asesu anghenion, darparu ymyriadau, deinameg profiadau dioddefwyr o niwed a cham-drin, iaith sy'n briodol i oedran ar gyfer siarad am niwed, dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu, dulliau o asesu risg, a chynllunio diogelwch.

## Tystiolaeth:

**EiA**

- unrhyw archwiliadau neu werthusiad perthnasol o ansawdd y rheoli achosion ac ymarfer yn ymwneud â dioddefwyr
- tystiolaeth o gwestiwn allweddol V1.1
- trosolwg o hyfforddiant ar gyfer rheolwyr achos, y rhai sy'n gweithio gyda dioddefwyr a rheolwyr canol yn y 12 mis diwethaf
- dadansoddiad o adborth gan ddioddefwyr, a chynlluniau gweithredu cysylltiedig

**Gwaith Maes**

- trosolwg o hyfforddiant ar gyfer rheolwyr achos, y rhai sy'n gweithio gyda dioddefwyr a rheolwyr canol yn y 12 mis diwethaf
- dadansoddiad o adborth gan ddioddefwyr, a chynlluniau gweithredu cysylltiedig

## Dyfarniad:

Pan fydd sgiliau'r rheini sy'n gweithio gyda dioddefwyr, gan gynnwys rheolwyr, staff a gwirfoddolwyr, yn ddigonol i ddiwallu anghenion y dioddefwyr hynny, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Os nad yw sgiliau'r rheini sy'n gweithio gyda dioddefwyr, gan gynnwys rheolwyr, staff a gwirfoddolwyr, yn diwallu anghenion y dioddefwyr hynny, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

### f) A yw staff sy'n gweithio gyda dioddefwyr yn cael eu cefnogi'n effeithiol i gyflawni eu gwaith?

## Canllawiau:

Dylai'r GCI gael rhaglen gynefino effeithiol sy'n cynnwys prosesau cynefino cynhwysfawr ac amserol ar gyfer yr holl staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio gyda dioddefwyr. Dylai gwybodaeth gyffredinol am weithio yn y GCI fod yn rhan o'r rhaglen, beth bynnag fo'ch rôl. Dylai hyn gynnwys y rhain o leiaf: tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant, trefniadau iechyd a diogelwch, cymorth cyntaf, diogelu, golwg gyffredinol ar y system cyfiawnder ieuenctid, yr amrywiaeth o waith y mae'r GCI yn ymwneud ag ef a swyddogaethau staff yn y GCI. Dylid teilwra'r rhaglen gynefino hefyd i anghenion staff sy'n gweithio gyda dioddefwyr. Dylai deunyddiau'r rhaglen gynefino fod wedi'u paratoi'n dda a'u cyflwyno mewn ffordd hwylus. Er enghraifft, gall pecyn cynefino gynnwys sesiynau briffio, sesiynau un-i-un, sesiynau grŵp,

llyfrau gwaith, cyflwyniadau ac adnoddau TG. Dylid goruchwylio prosesau cynefino'n effeithiol er mwyn sicrhau bod y gwahanol elfennau'n cael eu cwblhau'n foddhaol ac yn brydlon. Mae staff sy'n gweithio gyda dioddefwyr yn tueddu i fod mewn timau bach neu'n weithwyr sy'n gweithio ar eu pen eu hunain a dylid cydnabod hyn yn briodol a darparu cymorth ar ei gyfer.

Dylai rheolwyr oruchwylio staff sy'n gweithio gyda dioddefwyr yn effeithiol. Dylai hyn gynnwys elfennau o sicrhau ansawdd, goruchwylio staff, delio ag unrhyw feysydd sy'n peri pryder mewn gwaith gyda dioddefwyr unigol, a hwyluso gwelliannau mewn ymarfer.

Dylai goruchwyliaeth fod yn effeithiol a dylai ddigwydd yn rheolaidd. Dylai roi sylw i gefnogaeth a datblygiad personol, yn ogystal ag atebolrwydd am y gwaith y mae'r aelod o staff yn ei gyflawni ar gyfer y dioddefwyr. Dylai hyn gynnwys sut y mae staff yn dysgu, yn datblygu ac yn defnyddio sgiliau a fydd yn gwella ansawdd gwaith gyda phlant. Dylai rheolwyr gydnabod bod gweithio gyda dioddefwyr yn gallu bod yn anodd yn emosiynol a dylent sicrhau bod cefnogaeth briodol yn hanfodol os yw staff sy'n gweithio gyda dioddefwyr i barhau i gyflawni gwaith o ansawdd uchel heb gael eu llethu.

Dylai staff sy'n gweithio gyda dioddefwyr gael eu gwerthuso bob blwyddyn o fewn fframwaith rheoli perfformiad, yn unol â'u hanghenion datblygu a nodwyd. Dylid defnyddio rheoli perfformiad i wella gwasanaethau i ddioddefwyr yn weithredol. Dylid arfarnu ac adolygu staff yn effeithiol yn rheolaidd, a chynnwys amcanion realistig i wella ymarfer a pherfformiad. Dylai arfarniadau ar gyfer staff sy'n gweithio gyda dioddefwyr nodi'n glir i'r aelodau staff sut y maent yn perfformio, gan roi cadarnhad ac adborth datblygiadol.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- unrhyw archwiliadau neu werthusiad perthnasol o ansawdd y rheoli achosion ac ymarfer yn ymwneud â dioddefwyr
- tystiolaeth o gwestiwn allweddol V1.1
- trosolwg o hyfforddiant ar gyfer rheolwyr achos, y rhai sy'n gweithio gyda dioddefwyr a rheolwyr canol yn y 12 mis diwethaf
- dadansoddiad o adborth gan ddioddefwyr, a chynlluniau gweithredu cysylltiedig

**Gwaith Maes**

- trosolwg o hyfforddiant ar gyfer rheolwyr achos, y rhai sy'n gweithio gyda dioddefwyr a rheolwyr canol yn y 12 mis diwethaf
- dadansoddiad o adborth gan ddioddefwyr, a chynlluniau gweithredu cysylltiedig

### Dyfarniad:

Lle ceir tystiolaeth o gynefino cynhwysfawr, goruchwylio ac arfarnu effeithiol a rheolaidd a goruchwyliaeth briodol gan reolwyr ar gyfer staff sy'n gweithio gyda dioddefwyr, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Lle nad oes tystiolaeth o unrhyw un o'r canlynol: cynefino cynhwysfawr, goruchwylio ac arfarnu effeithiol a rheolaidd a goruchwyliaeth briodol gan reolwyr ar gyfer staff sy'n gweithio gyda dioddefwyr, dylid cael dyfarniad negyddol.

**g) A oes ystod o gymorth a gwasanaethau ar gael, gyda phrosesau rheoli risg effeithiol ar waith?**

### Canllawiau:

Wrth weithio gyda dioddefwyr, dylai'r GCI ddarparu gwasanaethau i hyrwyddo diogelwch a chymorth i ddioddefwyr. Mae'r ddwy elfen hyn o'r cynnig i ddioddefwyr yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaeth ymatebol, unigol ac o ansawdd uchel ar eu cyfer. Dylai dioddefwyr gael eu cefnogi i wneud penderfyniadau diogel a gwybodus ynghylch sut y maent am gyfathrebu ag asiantaethau cyfiawnder troseddol am eu hachos, a gwybodaeth glir am ba wybodaeth fydd yn cael ei rhannu a chyda phwy. Mae hyn yn cynnwys galluogi plant i nodi pwy hoffent gael gohebiaeth, gan gynnwys dewis cyfathrebu uniongyrchol lle bernir bod hyn yn ddiogel ac yn briodol. Rhaid i wasanaethau roi sylw dyledus i'r egwyddorion diogelu data perthnasol sy'n caniatáu iddynt rannu gwybodaeth bersonol, fel y darperir ar ei gyfer yn Neddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 (GDPR).

Efallai y bydd gan GCI brosesau gwahanol ar gyfer dioddefwyr troseddau yr ymdriniwyd â hwy yn y llys i'r rhai yr ymdriniwyd â hwy y tu allan i'r llys. Beth bynnag yw'r broses, dylai'r GCI sicrhau bod cymorth ar gael i wella ar ôl niwed, beth bynnag fo canlyniad y cyfiawnder. Dylid ymgynghori ac ymgysylltu'n ystyrlon a rhaid i ddioddefwyr gael dewis ynghylch sut y maent am gael eu cynnwys a chyda phwy. Dylid gofyn i ddioddefwyr sy'n blant sut yr hoffent gyfathrebu â gweithwyr proffesiynol. I rai plant, efallai mai cyfathrebu uniongyrchol fyddai fwyaf priodol. I blant eraill, efallai y byddai'n fwy priodol cael cynrychiolydd fel rhiant neu eiriolwr, ond ni ddylai hyn atal rhoi dewis i blant ynghylch pwy sydd yn y sefyllfa orau ar gyfer y rôl hon. Rhaid i wasanaethau daro cydbwysedd rhwng peidio â thrin dioddefwyr sy'n blant fel oedolion, ond sicrhau nad yw'r broses cyfiawnder troseddol yn eu dadrymuso. Dylai'r cyfathrebu ganolbwyntio ar anghenion y dioddefwr, nid ar y plentyn sydd wedi troseddu.

Dylai'r GCI gynnal dadansoddiad o anghenion dioddefwyr a'r risgiau iddynt, a ddylai olygu ei fod yn darparu a/neu'n atgyfeirio dioddefwyr at amrywiaeth briodol o wasanaethau arbenigol a phrif ffrwd i fynd i'r afael â'r anghenion a'r risgiau hyn. Gall y ddarpariaeth gael ei gwneud yn fewnol gan y GCI, neu gellir ei chomisiynu, ei darparu mewn partneriaeth neu ei gwneud drwy lwybr atgyfeirio gyda sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau arbenigol. Dylid darparu gwasanaethau i ddioddefwyr mewn ffyrdd sy'n hygyrch ac yn briodol i amgylchiadau unigol y dioddefwr ac sy'n ymateb i'w hanghenion. Dylai gwasanaethau fod ar gael yn amserol i bob dioddefwr, gan osgoi rhestrau aros o dan amgylchiadau arferol. Dylai gwasanaethau fod ar gael i bob dioddefwr sydd wedi cydsynio i weithio gyda'r GCI.

Dylai'r GCI allu darparu'r gwasanaethau iawn i bob dioddefwr ar yr adeg y mae ei angen ar y dioddefwr. Ni ddylid ystyried gwasanaethau i ddioddefwyr o ran unrhyw hierarchaeth o gymorth, ond yn hytrach o ran y gallu i gefnogi dioddefwyr a gwneud iddynt deimlo'n ddiogel. Dylid cynllunio ar gyfer gadael a chyfeirio pan fydd anghenion yn weddill ar ôl i GCI gwblhau ymyriad(au) gyda dioddefwr. Dylai gwasanaethau cymorth ehangach gynnwys gwasanaethau arbenigol yn y gymuned sy'n darparu cymorth tymor hir i wella, fel cwnsela a chymorth therapiwtig, yn ogystal ag atal rhagor o niwed.

Dylai'r gwaith o reoli risg ar gyfer dioddefwyr fod yn seiliedig ar rannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng y GCI a phartneriaid perthnasol. Dylid cael dull gweithredu ar draws y GCI sy'n hyrwyddo deialog agored rhwng timau ac unigolion sy'n gweithio gyda phlant sydd wedi troseddu a thimau ac unigolion sy'n gweithio gyda dioddefwyr.

## Tystiolaeth:

**EiA**

- cyflwyniad gan Gadeirydd y Bwrdd
- dogfen naratif y GCI wedi'i chwblhau

- taenlen data sefydliadol wedi'i chwblhau
- cyflwyno data dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) diweddaraf y dioddefwyr i'r BCI (os na chaiff ei gynnwys gyda chofnodion y bwrdd)
- unrhyw archwiliadau perthnasol neu werthusiad o ansawdd gwaith rheoli achosion ac ymarfer yn ymwneud â dioddefwyr, gan gynnwys dadansoddiad o gydsyniad dioddefwyr a chyfraddau defnydd
- cyfeiriadur o brosiectau, gweithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael i ddioddefwyr
- dadansoddiad o adborth gan ddioddefwyr, a chynlluniau gweithredu cysylltiedig
- polisi'r GCI sy'n ymdrin â gwaith gyda dioddefwyr

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- grŵp ffocws gyda staff gweithredol sy'n ymwneud â gwaith gyda dioddefwyr, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gweithio gyda dioddefwyr, ac unrhyw weithwyr cyfiawnder adferol a gweithwyr gwneud iawn

**Dyfarniad:**

Lle mae digon o wasanaethau o ansawdd uchel ar gael i ddiwallu anghenion pob dioddefwr, gan ddarparu cymorth i ddioddefwyr a'u cadw'n ddiogel, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Os yw nifer, ystod neu ansawdd y gwasanaethau'n annigonol, sy'n golygu nad ydynt yn gallu diwallu anghenion pob dioddefwr, dylid cael dyfarniad negyddol.

**h) A yw gwasanaethau i ddioddefwyr yn cael eu monitro, eu gwerthuso a'u hadolygu'n rheolaidd?**

**Canllawiau:**

Dylai'r GCI ganolbwyntio'n glir ar wella'r gwasanaethau y mae'n eu darparu i ddioddefwyr yn barhaus, a dylai hyn fod yn seiliedig ar fonitro, gwerthuso ac adolygu. Dylai gwaith monitro, gwerthuso ac adolygu rheolaidd ac effeithiol alluogi'r GCI i wneud yn siŵr ei fod yn cyflawni ei nodau. Dylai gwaith monitro, gwerthuso ac adolygu gyd-fynd â'r sylfaen dystiolaeth, gan adeiladu ar ymchwil sy'n bodoli eisoes a chyfrannu ati. Dylai siapio math a natur yr ymyriadau a gynigir ar gyfer y dyfodol, yn ogystal â natur y cyswllt a gynigir.

Lle bo'n briodol, dylai'r GCIau ystyried dulliau monitro allanol i wella uniondeb y broses. Dylent ystyried cyfleoedd i ymgysylltu ag ymchwilwyr neu gydweithio â sefydliadau tebyg sy'n ymgymryd â phroses wella debyg, er mwyn meincnodi cynnydd a manteisio i'r eithaf ar ddysgu. Rydym yn chwilio am addasiadau i bolisi, ymarfer a darpariaeth yn unol â chanfyddiadau monitro, gwerthuso ac adolygu. Dylai hyn gynnwys enghreifftiau o arloesi ac ymarfer effeithiol, lle bo angen.

Dylai gwerthuso gwasanaethau i ddioddefwyr gynnwys asesiad o'r effaith ar ddioddefwyr sydd â gwahanol nodweddion gwarchodedig er mwyn canfod a yw polisi, ymarfer a darpariaeth yn diwallu anghenion tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant ac yn lleihau anfanteision. Dylai'r GCI ddefnyddio'r wybodaeth am amrywiaeth y mae'n ei chasglu nid yn unig i nodi, lliniaru neu ddileu arferion gwael, ond hefyd i nodi ffyrdd o annog cyfle cyfartal. Mae hyn yn rhan o gydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb gyffredinol y sector cyhoeddus a nodir yn *Neddf Cydraddoldeb 2010*. Mae'r holl wybodaeth ar gael yma

https://www.equalityhumanrights.com/en/publication-download/essential-guide-public-sector-equality-duty.

Os nad oes gan y GCI wybodaeth gydraddoldeb am y dioddefwyr y mae'n gweithio gyda nhw, dylai fod yn gweithio i lenwi'r bylchau mewn gwybodaeth.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- copi o'r cynllun strategol cyfiawnder ieuenctid diweddaraf
- unrhyw archwiliadau perthnasol neu werthusiad o ansawdd gwaith rheoli achosion ac ymarfer yn ymwneud â dioddefwyr, gan gynnwys dadansoddiad o gydsyniad dioddefwyr a chyfraddau defnydd
- cyfeiriadur o brosiectau, gweithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael i ddioddefwyr
- dadansoddiad o adborth gan ddioddefwyr, a chynlluniau gweithredu cysylltiedig
- polisi'r GCI sy'n ymdrin â gwaith gyda dioddefwyr

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- grŵp ffocws gyda staff gweithredol sy'n ymwneud â gwaith gyda dioddefwyr, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gweithio gyda dioddefwyr, ac unrhyw weithwyr cyfiawnder adferol a gweithwyr gwneud iawn

### Dyfarniad:

Pan fydd gwaith monitro, gwerthuso ac adolygu yn rhagweithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn digwydd yn rheolaidd, ac yn ystyried tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant, ac yn arwain at welliannau i wasanaethau, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Lle nad yw gwaith monitro, gwerthuso ac adolygu'n rhagweithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn rheolaidd, nac yn ystyried tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant a/neu nad yw'n arwain at wella gwasanaethau, dylid cael dyfarniad negyddol.

**i) A yw barn dioddefwyr yn cael ei cheisio, ei dadansoddi a'i defnyddio i lywio gwasanaeth effeithiol i ddioddefwyr?**

### Canllawiau:

Er mwyn darparu'r ystod iawn o wasanaethau ac ymyriadau, sy'n ymateb i anghenion unigol, mae'n hanfodol bod y GCI yn casglu ac yn dadansoddi barn dioddefwyr sydd wedi defnyddio ei wasanaethau. Dylai'r dadansoddiad rhagweithiol hwn o farn dioddefwyr gyfrannu at y gwaith o fonitro, gwerthuso ac adolygu'r gwasanaeth a ddarperir i ddioddefwyr. Dylai'r GCI ei ddefnyddio fel rhan o'i weithgarwch monitro ac adolygu i sicrhau bod gwasanaethau o ansawdd uchel, a'u bod yn seiliedig ar dystiolaeth, yn ymatebol ac yn unigol. Dylai'r GCI fynd ati i ymgorffori barn dioddefwyr yn ei waith i lunio'r ffordd y darperir gwasanaethau yn y dyfodol.

Dylai GCIau geisio a dadansoddi barn dioddefwyr am y gwasanaeth a ddarperir ar eu cyfer ac a oedd yn diwallu eu hanghenion, a defnyddio'r safbwyntiau hyn fel sail i wasanaethau yn y dyfodol. Nid dim ond ar ddiwedd ymyriadau y dylid gofyn am farn dioddefwyr mewn cyfweliadau neu arolygon, er bod hyn yn un ffordd o wneud hynny. Mae'r gwerthusiad parhaus o wasanaethau gyda dioddefwyr yr un mor werthfawr, wrth i'r gwasanaethau hynny

gael eu darparu. Mae gan werthusiad parhaus o'r fath y fantais ychwanegol o allu llunio'r gwasanaeth y mae'r dioddefwr unigol yn ei gael hefyd.

### Tystiolaeth:

**EiA**

- unrhyw archwiliadau perthnasol neu werthusiad o ansawdd gwaith rheoli achosion ac ymarfer yn ymwneud â dioddefwyr, gan gynnwys dadansoddiad o gydsyniad dioddefwyr a chyfraddau defnydd
- cyfeiriadur o brosiectau, gweithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael i ddioddefwyr
- dadansoddiad a chynlluniau gweithredu cysylltiedig o adborth gan ddioddefwyr
- polisi'r GCI sy'n ymdrin â gwaith gyda dioddefwyr

**Gwaith Maes**

- cyfarfod â phennaeth gwasanaeth y GCI
- grŵp ffocws gyda staff gweithredol sy'n ymwneud â gwaith gyda dioddefwyr, gan gynnwys y rhai hynny sy'n gweithio gyda dioddefwyr, ac unrhyw weithwyr cyfiawnder adferol a gweithwyr gwneud iawn

### Dyfarniad:

Pan fydd barn dioddefwyr yn cael ei geisio a'i ddadansoddi'n rhagweithiol ac yna'n cael ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, dylid cael dyfarniad cadarnhaol.

Os nad yw barn dioddefwyr yn cael ei geisio a'i ddadansoddi'n effeithiol neu os nad yw'n cael ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol, dylid cael dyfarniad negyddol.